

Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk



Mae copiau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**Y Ganolfan Gyhoeddiadau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ**

Ffôn: **029 2082 3683**
e-bost: **assembly-publications@wales.gsi.gov.uk**

Mae hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:
www.cymru.gov.uk

Testun gan: **GVA Grimley**
Llun ar flaen y clawr oddi wrth: **HMA Architects**



ISBN 978 0 7504 5620 3

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2010

CMK-22-04-045(500)

F0201011

Astudiaeth i Archwilio'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

Adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Gan GVA Grimley

Mehffin 2010

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i bawb a gynorthwyodd â'r prosiect ymchwil hwn drwy lenwi holiaduron, mynychu grwpiau ffocws a darparu gwybodaeth am astudiaethau achos a chynghorion ymarfer. Hefyd hoffem ddiolch i bawb a gyflwynodd sylwadau ac argymhellion i'r adolygiad yn ysgrifenedig neu drwy'r e-bost.

Rydym yn ddiolchgar am y mewnbwn a'r arbenigedd a ddarparwyd gan aelodau'r o'r Grŵp Llywio Ymchwil a gyfarfu'n rheolaidd drwy gydol yr ymchwil: Mike Webb (Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar), Phil Williams a Pat Mears (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Eifion Bowen (Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru), Elwyn Thomas (Cymorth Cynllunio Cymru), Pip David (Panel Ymgynghorol ar Safonau ar gyfer yr Arolygiaeth Cynllunio), David Rosser/Leighton Jenkins (CBI Cymru), Non Rhys (Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru), Richard Price (Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai), Roisin Willmott (Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref Cymru) a Rosemary Thomas, Jan Dominguez a Dion Thomas o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hoffai'r awduron ddiolch yn arbennig i Michael Sant am gadeirio'r Grŵp Llywio.

Hoffem hefyd ddiolch i Jan Dominguez a Dion Thomas am eu cymorth a'u cefnogaeth wrth reoli prosiect yr ymchwil.

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	1
2.0	Canfyddiadau Allweddol o Holiadur yr Awdurdodau Cynllunio Lleol	6
3.0	Penawdau o'r Grwpiau Ffocws a Chyflwyniadau Eraill	22
4.0	Themâu Allweddol ar Gyfer Diwygio a Newid	32
5.0	Argymhellion Thema 1: Gwella Dealltwriaeth	37
	(Argymhellion 1 i 5)	
6.0	Argymhellion Thema 2: Diwylliant	49
	(Argymhellion 6 i 9)	
7.0	Argymhellion Thema 3: Gweithredu	67
	(Argymhellion 10 i 16)	
8.0	Cynllun Gweithredu	93
9.0	Casgliadau a Chamau Nesaf	96

Atodiad 1: Manyleb Ymchwil LICC

Atodiad 2: Holiadur Awdurdodau Cynllunio Lleol

Atodiad 3: Rhestr o Fynychwyr Grwpiau Ffocws a Chyflwyniadau Ysgrifenedig/Eraill i'r Adolygiad

Atodiad 4: Rhestr o Astudiaethau Achos

Atodiad 5: Rhestr o Gynghorio Ymarferol

Atodiad 6: Rhestr o Argymhellion

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad a Methodoleg

- 1 Y broses ceisiadau cynllunio yw'r prif offeryn ar gyfer cymeradwyo neu wrthod cynigion am ddatblygiad yn y DU. Ym Medi 2009, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwil i weithrediad y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Cwmpasodd y prosiect bob cam o'r broses gan ganolbwyntio ar y rôl y gall ei chwarae mewn meithrin adfywiad economaidd cynaliadwy.
- 2 Cafodd yr ymarfer ymchwil ei gynnal rhwng Medi 2009 ac Ebrill 2010 a'i seilio ar:
 - Holiadur a anfonwyd at bob un o'r 25 Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Nghymru;
 - Cyfres o Grwpiau Ffocws a gynhwysodd gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector o bob rhan o Gymru; a
 - Defnydd astudiaethau achos a "chynghorion ymarfer" i edrych ar sut roedd materion penodol yn cael eu trin neu sut roedd problemau'n cael eu datrys.
- 3 Manteisiodd yr astudiaeth hefyd ar ymchwil helaeth a oedd eisoes yn bodoli o Gymru a manau eraill, ynghyd â gwybodaeth amrediad o asiantaethau ac unigolion sydd â phrofiad o'r broses ymgeisio, yn arbennig o'r Grŵp Llywio Ymchwil annibynnol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector.
- 4 Mae'r adroddiad yn ymrannu'n ddwy adran. Mae'r rhan gyntaf yn cofnodi'r canfyddiadau allweddol am weithrediad presennol y broses ymgeisio a'r ystyriaethau mae'n eu hwynebu. Mae'r ail ran yn nodi camau a all wneud gwahaniaeth cyflym, ystyrion a chadarnhaol i berfformiad y broses a'r penderfyniadau mae'n eu gwneud.

Canfyddiadau'r Ymchwil

Holiadur yr ACLI

- 5 Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLI) yw'r cyrff allweddol sy'n gwneud y penderfyniadau o fewn system gynllunio Cymru. Mae ganddynt gyfrifoldeb dros gofrestru, prosesu a phenderfynu'r mwyafrif o geisiadau cynllunio a gyflwynir o fewn eu hardaloedd. O ganlyniad, roedd deall eu barn hwy am y system a sut y gellid ei diwygio yn hanfodol i'r ymchwil.

- 6 Edrychodd yr holiadur ar sut mae pob ACLI yn trafod y broses ymgeisio, yr adnoddau sydd ar gael iddo a'r heriau a'r pwysau mae'n eu hwynebu. Edrychodd hefyd ar sut maent yn ymateb i'r heriau hynny a sut gallai'r system gael ei diwygio neu ei gwella.
- 7 Darganfu'r holiadur amrywiaeth arwyddocaol rhwng ACLI o ran eu baich gwaith a gweithrediad y broses ymgeisio (yn enwedig ar adegau allweddol). Roedd y gwahaniaethau'n estyn o'r cyfnod cyn-ymgeisio a dilysu i wneud penderfyniadau a chyflawni amodau. Hefyd roedd gwahaniaeth sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael ac ychydig o fesur cyffredin llwyddiant neu foddhad ar y gwasanaeth mae'r awdurdodau yn ei roi.
- 8 Er gwaethaf yr amrywiaeth yma, nodwyd ystyriaethau cyffredin o'r ymatebion:
- Pwysigrwydd arweinyddiaeth gryf i broses ymgeisio lwyddiannus.
 - Pryder am yr amrediad cynyddol o gyfrifoldebau sy'n cael eu gosod ar y system a'r polisi ac arweiniad sy'n mynd gyda hwy.
 - Cynnal a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio.
 - Yr angen i symleiddio'r system a'i gwneud yn fwy cymesur.
 - Pryder am ansawdd ceisiadau a oedd yn cael eu cyflwyno.
- 9 Er bod y sawl a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo'n amlwg bod cryn le i wella yng ngweithrediad y broses ceisiadau cynllunio, nid oedd yn ymddangos bod awydd eang nac angen amlwg am ddiwygiad sylfaenol.

Grwpiau Ffocws

- 10 Cynhaliwyd Grwpiau Ffocws yng Nghaerdydd a Chonwy a gynhwysodd gyrff ac unigolion o bob rhan o Gymru. Cynhaliwyd sesiynau ar gyfer ymgynghorwyr cynllunio, grwpiau busnes, grwpiau amgylcheddol, ymgynghoreion statudol, grwpiau cymunedol a chyrrff proffesiynol.
- 11 Darganfu'r sesiynau ddau brif safbwynt. Yr un cyntaf oedd bod y broses ymgeisio yn ei hanfod yn gadarn (ond angen ei addasu). Yr ail oedd bod y broses yn agos at fethu – roedd yn rhy araf, yn rhy gymhleth ac yn rhy feichus o ran ei gofynion. Fodd bynnag, roedd y materion allweddol a nodwyd gan y grwpiau yn debyg yn fras er gwaethaf y safbwynt sylfaenol (a'r amrediad eang o safbwyntiau a fyngwyd). Roedd y rhain yn canolbwyntio ar:

- Cysondeb a dibynadwyedd y system - yn enwedig ar adegau cynnar hollbwysig tra bod ceisiadau yn cael eu hystyried neu am ofynion penodol - roedd hyn yn ffocws penodol ar gyfer newid.
- O ran yr ACLI, cymhlethdod cynyddol y system gynllunio (a'r baich cynyddol mae arno sy'n rhoi straen mawr ar bawb o dan sylw).
- Rôl LICC – gan gynnwys yr angen am gyngor cryf a chdir am faterion a chyfnodau allweddol.
- Rôl well a mwy pwrpasol i'r ymgynghoreion statudol ynghyd â system sy'n gallu ystyried amrediad ehangach o faterion yn well.
- Yr angen i benderfyniadau gael eu gwneud yn gadarnhaol ac yn gymesur a dealltwriaeth well o gyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r broses.
- Yr angen i ACLI fod yn fwy ymatebol a llenwi'r bylchau mewn dealltwriaeth drwy rannu adnoddau ac arbenigedd drwy gyfrwng gweithio trawsffiniol gwell.

Amcanion Allweddol a Themâu ar gyfer Diwygiad

- 12 Dangosodd canfyddiadau'r ymchwil fod y broses ceisiadau cynllunio dan straen. Er bod cytundeb sylfaenol bod y broses ei hun yn fecanwaith teg yn y bôn ar gyfer penderfyniadau ar ddatblygiad newydd, ychydig iawn o bobl sy'n fodlon ar ei gweithrediad neu ei heffaith.
- 13 Trefniadaeth a gweithrediad y broses a ddenodd y feirniadaeth fwyaf. Roedd llawer o'r pryderon yn deillio o'r cyfrifoldebau cynyddol sy'n cael eu gosod ar y system, wedi eu cyfuno â'r diffyg adnoddau i ddelio â'r rhain yn effeithiol. Mewn rhai manau mae hyn yn peri chwalu'r berthynas rhwng ymgeiswyr ac awdurdodau ac fe allai hyn yn ei dro atal datblygiad economaidd. Roedd natur anrhagweladwy'r system ac effaith hyn ar ragolygon a chostau cynllunio, ynghyd â'r diffyg (mewn rhai meysydd neu bynciau) cyfle am hyblygrwydd o ran gweithredu amcanion cenedlaethol neu leol, yn bryderon allweddol a chyffredin hefyd. Arweiniodd y canfyddiadau hyn at dri amcan sylfaenol ar gyfer diwygiad
 - rheoli cymhlethdod (ar y sail na fydd yn mynd i ffwrdd);
 - lleihau ansicrwydd a gwella cysondeb rhwng ACLI; a
 - chynyddu ymatebolrwydd i amcanion polisi cenedlaethol a lleol – yn enwedig i angherion busnesau.

- 14 Mae'r amcanion hyn yn rhoi tair thema sylfaenol i'r adolygiad. Yr un gyntaf yw meithrin **dealltwriaeth well** rhwng y prif randdeiliaid am eu priod safbwyntiau ac effeithiau penderfyniadau a gofynion. Yr ail thema yw **newid diwylliant neu fan cychwyn gwneud penderfyniadau** am geisiadau cynllunio. Y thema derfynol yw **gwella gweithrediad** y broses ar adegau allweddol.

Argymhellion

- 15 Gwneir cyfres o argymhellion o dan bob un o'r tair thema hon a'r pryderon a'r ystyriaethau sydd tu ôl iddynt.

Argymhellion Dealltwriaeth Well

- 16 Mae perthnasoedd da yn hanfodol i weithrediad a pherfformiad y broses ceisiadau cynllunio. Mae dau faes allweddol wedi cael eu nodi lle mae angen gweithredu. Yr un cyntaf yw'r berthynas rhwng cyflawni datblygiad economaidd cynaliadwy a gwerthfawr a'r broses gynllunio a'r ail yw'r berthynas rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a defnyddwyr a rheolwyr y broses ymgeisio. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar wella'r perthnasoedd hyn.
- 17 **Argymhelliad 1** yw Datganiad Polisi newydd oddi wrth y Cynulliad sy'n pwysleisio'r flaenoriaeth sydd i'w rhoi i hybu datblygiad economaidd cynaliadwy a phwysigrwydd cefnogi twf Mentrau Bach a Chanolig.
- 18 Mae **Argymhelliad 2** yn pennu'r mesurau i wneud y system yn fwy ymatebol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys gwella cyfathrebu rhwng cyrff busnes a'r ACLI a chynhyrchu canllaw newydd i fusnesau a'u rhyngweithio â'r broses ymgeisio. Hefyd argymhellir sefydlu ymgynghorai newydd i gynrychioli buddiannau busnes a datblygiad economaidd ac i wella integreiddio anghenion Mentrau Bach a Chanolig i bolisi cynllunio ar lefel genedlaethol a lefel leol.
- 19 **Argymhelliad 3** yw y dylai cwmpas a chynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad (sy'n ofyniad mandadol ar gyfer llawer o geisiadau) gael eu hegluro. Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i lacio'r sbardun amdanynt ar gyfer pob math o ddatblygiad.
- 20 Mae **Argymhelliad 4** yn ymwneud â natur arweiniad polisi a gyhoeddir gan LICC ac yn gofyn am ymagwedd fwy cynhwysol sy'n cynnwys rhanddeiliaid ar ddwy ochr y broses ymgeisio cyn i ofynion newydd gael eu cyflwyno.
- 21 Mae **Argymhelliad 5** yn ymateb i bryderon am raddfa a chwmpas y newid sydd wedi digwydd o fewn y system gynllunio yn y blynyddoedd diwethaf drwy awgrymu y dylai cyflwyniad gofynion neu ganllawiau

pellach gael ei atal (ac eithrio argymhellion a wneir o fewn yr adolygiad hwn).

Argymhellion Newid Diwylliant

- 22 I ymdrin â'r materion a nodwyd gan yr adolygiad, dylai newid diwylliannol ganolbwyntio ar dri phrif faes – adnewyddu'r ymagwedd sylfaenol at ddatblygiad a'i ofalaeth; archwilio'r broses o ymgynghori a gwella'r ffyrdd y mae'r broses ymgeisio yn cael ei chyflwyno ar y llawr.
- 23 Mae **Argymhelliad 6** yn galw am ddatganiad polisi newydd am ofalaeth datblygiad, a fydd yn annog ymagwedd gydweithredol ac ymatebol at gynigion datblygu. Gallai hyn barhau ar ffurf fersiwn newydd o'r Nodyn Cyngor Technegol drafft (a gyhoeddwyd yn 2007).
- 24 Mae **Argymhelliad 7** yn cynnig adolygiad o brosesau ymgynghori statudol ac anstatudol, gan edrych ar y potensial i ddatblygu gweithdrefnau mwy penodol a mwy safonol yn ogystal ag archwilio'r nifer o ymgynghoreion statudol (ac a yw dylanwad ymgynghoreion ar benderfyniadau bob amser yn briodol ac yn gymesur).
- 25 **Argymhelliad 8** yw y dylai nodyn arfer gorau gael ei gyhoeddi am gyflwyniad swyddogaethau gofalaeth datblygiad effeithiol o fewn ACLI. Ffocws hwn fyddai'r angen i sefydlu strwythurau sefydliadol effeithlon, gyda ffocws ar gwsmeriaid a defnydd effeithlon ar adnoddau.
- 26 **Argymhelliad 9** yw i gynhyrchu canllaw i ACLI am drefniant pwyllgorau cynllunio, gan ganolbwyntio ar safoni gweithdrefnau rhwng ACLI, mesurau i wella perfformiad (gan gynnwys hyfforddiant gorfodol i aelodau) a chyflwyniad cyfnodau pwylo pan fydd penderfyniadau'n mynd yn groes i gyngor swyddogion.

Argymhellion Gwella Gweithrediad

- 27 I ymdrin â'r prif faterion a godwyd gan ymarferwyr, mae gwella gweithrediad y system yn canolbwyntio ar chwe maes allweddol er mwyn gwneud y system yn fwy cyson, yn fwy cymesur ac yn fwy effeithiol:
- Lleihau nifer y ceisiadau.
 - Uno a gwella cyngor a gweithdrefnau cyn-ymgeisio.
 - Symleiddio ac uno protocolau dilysu.
 - Gwella e-gynllunio a'r Porth Cynllunio yng Nghymru.

- Creu cronfeydd canolog o arbenigedd am faterion allweddol ac annog gweithio ar y cyd.
 - Gweithredu caniatadau (a defnydd amodau).
- 28 **Argymhelliad 10** yw i estyn hawliau Datblygiad a Ganiateir (gan adeiladu ar gynigion a wnaed gan y CLG mewn perthynas â Lloegr) a diwygio'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd. Y rhagdybiaeth weithiol yw y byddai hyn yn lleihau nifer y ceisiadau graddfa fach, gan ganiatáu i ACLI ganolbwyntio amser ac adnoddau ar y ceisiadau pwysicaf.
- 29 **Argymhelliad 11** yw bod angen ymagwedd fwy ymarferol a chyson at fân ddiwygiadau i gynlluniau a gymeradwywyd (fel nad oes angen unrhyw gais newydd ar gyfer newidiadau priodol).
- 30 **Argymhelliad 12** yw y dylai arweiniad i arfer gorau gael ei gynhyrchu i roi cyngor ar gwmpas a fformat trafodaethau cyn-ymgeisio.
- 31 **Argymhelliad 13** yw i gyflwyno ymagwedd safonol at ddilysu ceisiadau cynllunio gan ddechrau gyda rhestr o ofynion cenedlaethol.
- 32 Mae **Argymhelliad 14** yn ymwneud â defnydd gwasanaethau cynllunio electronig gan geisio annog defnydd cynyddol ar y Porth Cynllunio i gyflwyno ceisiadau ac estyn y both ymgynghori i Gymru. Hefyd awgrymir gwella'r ddarpariaeth gwybodaeth electronig gan ACLI (gan gynnwys cyflwyno safonau gofynnol).
- 33 Mae **Argymhelliad 15** yn ceisio annog mwy o rannu arbenigedd yng Nghymru, drwy greu panel canolog o ymgynghorwyr neu drwy ddefnydd canolfannau arbenigedd rhanbarthol mewn meysydd penodol fel isadeiledd, gwastraff a mwynau ac ynni. Mae canolfan rhagoriaeth cynllunio i Gymru yn ffordd arall o ddal a throsglwyddo'r profiad a'r arbenigedd sylweddol sydd ar gael.
- 34 **Argymhelliad 16** yw y dylai canllawiau clir gael eu cyhoeddi am gynnwys a defnydd amodau cynllunio i annog ymagwedd fwy safonol (yn enwedig ar gyfer amodau y mae angen eu bodloni cyn y gall datblygiad ddechrau).

Casgliadau a Chamau Nesaf

- 35 Y neges allweddol o'r ymchwil yw er bod y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru yn gadarn yn y bôn, ar hyn o bryd mae angen iddi gael ei gwella'n sylweddol er mwyn bod yn effeithiol wrth gefnogi twf economaidd cynaliadwy. Gan hynny, mae'r argymhellion a bennir yn yr adroddiad yn mynd i graidd y broses ceisiadau cynllunio ond yn canolbwyntio ar ei gweithrediad ymarferol yn hytrach na'i sylfaen ddeddfwriaethol.

- 36 Llywodraeth y Cynulliad fydd yr asiantaeth allweddol wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad. Serch hynny, rhagwelir ymagwedd gydweithredol a nodwyd partneriaid cyflwyno (gan gynnwys grwpiau busnes, cyrff proffesiynol ac ymgynghoreion statudol) mewn perthynas â phob un o'r argymhellion.
- 37 Dylai blaenoriaeth gael ei rhoi i argymhellion, 1, 3, 5 a 13. Fodd bynnag, bydd pob un o'r newidiadau a gynigir yn gwneud gwahaniaeth sylweddol a chadarnhaol at weithrediad y system ac yn cyflwyno gwasanaeth cynllunio mwy cyson ledled Cymru. Mae angen y newid hwn er mwyn i'r broses ymgeisio gyfrannu'n fwyaf sylweddol at adfywiad economaidd cynaliadwy a gwerthfawr.

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru yw'r prif arf yn rheolaeth a gofalaeth datblygiad newydd. Mae'n chwarae rôl hanfodol wrth ystyried ac awdurdodi (neu wrthod) cynigion o bob math a graddfa ac ym mhob math o leoliad. Mae hwn yn gyfrifoldeb sylweddol y mae iddo oblygiadau economaidd, amgylcheddol a cymdeithasol amlwg i'r genedl a'i chymunedau.
- 1.2 Ym mis Rhagfyr 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Ochr yn ochr â hynny cyhoeddwyd prosiect ymchwil i lywio'r adolygiad hwnnw¹. Gwnaeth y cyd-ddatganiad i'r wasg yn glir y byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar rôl y broses ceisiadau cynllunio wrth feithrin adfywiad economaidd ar yr un pryd â sicrhau bod penderfyniadau yn bodloni ymrwymiad clir Llywodraeth y Cynulliad at ddatblygiad cynaliadwy. Cafodd grŵp llywio ymchwil ei sefydlu – gweler paragraff 1.13
- 1.3 Byddai'r prosiect ymchwil yn cael ei seilio ar nifer o egwyddorion sylfaenol:
- Cafodd ei gyfeirio at brofiad ac arfer yng Nghymru, er bod cydnabyddiaeth glir bod ymchwil sylweddol a phrofiad ymarferol yn bodoli o adolygiadau diweddar a gynhaliwyd yng ngweddill y DU.
 - Dylai edrych ar y broses ceisiadau cynllunio o'r dechrau i'r diwedd – o bwynt dechrau meddwl a thrafod cais, trwy ymgynghori a'i ystyried i benderfyniadau a'i roi ar waith.
 - Nid rhan o'i orchwyl fodd bynnag oedd adolygu cynnwys, prosesau na pherfformiad polisi cynllunio lleol neu genedlaethol oni bai bod neges allweddol ynghylch sut roedd y polisi hwnnw'n cael ei ddefnyddio neu'n peidio â chael ei ddefnyddio ym mhenderfyniadau a phrosesau rheoli datblygiad.
 - Gwneud yr ymchwil mor gynhwysol â phosibl – gan gydnabod bod y broses ceisiadau cynllunio yn cael ei defnyddio a'i gweithredu gan amrediad o bobl a sefydliadau a dylai'r adolygiad fanteisio ar yr holl brofiad (a barn a gwybodaeth) yma.
 - Dylai gael ei seilio ar gymysgedd o ymchwil newydd ac adolygiad o wybodaeth a phrofiad perthnasol o fannau eraill.
 - Dylai ganolbwyntio ar gyfres o argymhellion cyflawniadwy a fyddai'n cael effaith ar faterion a chanfyddiadau allweddol ac a allai wella perfformiad y broses ceisiadau cynllunio yn gyflym.

¹ Cynhwysir y briff ar gyfer yr ymchwil yn Atodiad 1.

Rhodddwyd pwyslais ar newidiadau a mesurau byrdymor, er na ddiystyrwyd diwygiad ehangach a fyddai'n gwneud newid deddfwriaethol yn ofynnol neu'n dibynnu arni.

Methodoleg a Phenawdau'r Rhaglen

- 1.4 Ym Medi 2009, penodwyd GVA Grimley i arwain y prosiect ymchwil. Cydnabu ei ymateb i'r briff fod yr adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio yn gyfle pwysig i archwilio perfformiad a photensial system y mae ganddi effeithiau a goblygiadau mawr. Roedd y fethodoleg sylfaenol a ddefnyddiwyd yn adlewyrchu gofynion y briff ac yn rhannu'r adolygiad yn ddau gyfnod allweddol – archwilio'r broses a chyflwyno'r canlyniadau a'r argymhellion.
- 1.5 Seiliwyd yr archwiliad ar dair prif elfen.
- 1.6 Yr elfen gyntaf oedd **holiadur** cynhwysfawr i bob awdurdod cynllunio lleol ac awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru. Roedd hwn yn gam cyntaf allweddol yn yr adolygiad a chynigiodd y cyfle i holi pob awdurdod cynllunio yng Nghymru sut maent yn gweithredu'r broses ceisiadau cynllunio a'r ystyriaethau maent yn eu hwynebu wrth wneud hynny. Cafwyd ymateb da i'r holiadur gyda phob un ond tri awdurdod yn darparu atebion llawn a phwyllog.
- 1.7 Yr ail brif offeryn ymchwil oedd cyfres o **grwpiau ffocws**. Cynhaliwyd cyfanswm o 11 sesiwn gyda chyfres o gyrrff â diddordeb gan gynnwys ymgynghorwyr cynllunio, grwpiau busnes, ymgynghoreion statudol ar geisiadau cynllunio, grwpiau amgylcheddol, grwpiau cymunedol, penseiri, academia a'r proffesiynau, adeiladwyr tai, a chynrychiolwyr isadrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- 1.8 Cafodd cyflwyniadau ysgrifenedig eu gwahodd oddi wrth gyfranogwyr neu'r sawl a oedd yn methu mynychu'r sesiynau.
- 1.9 Trydedd elfen yr archwiliad oedd nodi nifer o **astudiaethau achos**. Y bwriad gwreiddiol oedd i'r rhain fod yn geisiadau cynllunio a roddodd dystiolaeth neu enghraifft o ganfyddiadau neu ystyriaethau allweddol ac enghreifftiau o sut roedd yr ystyriaethau hyn yn cael eu goresgyn gan ymgeiswyr, sefydliadau ac awdurdodau cynllunio.
- 1.10 Wrth i'r astudiaeth symud yn ei blaen, mireiniwyd yr ymagwedd hon am ddau brif reswm:
 - a) er i'r adolygiad gael ei gyfeirio at brofiad ac arfer yng Nghymru, roedd cydnabyddiaeth glir fod ymchwil arwyddocaol a phrofiad ymarferol yn bodoli o adolygiadau diweddar a gynhaliwyd yng ngweddill y DU. Yn yr astudiaethau achos y mae gan Adolygiad Killian Pretty (KPR) yn Lloegr y mwyaf i'w gynnig i'r adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Oherwydd perthnasedd

a phwysau'r prif ganfyddiadau, a chan fod y broses ddethol yn cyd-fynd â phrif ofynion yr adolygiad hwn (gyda'i bwyslais ar fathau datblygiad allweddol a chategorïau penodol), gall y KPR helpu o ddifrif i hwyluso'r adolygiad yng Nghymru a chaniatáu i'w astudiaethau achos ganolbwyntio'n fwy pwrpasol ar arfer gorau neu heriau penodol yn hytrach na nodi gwendidau neu bryder generig.

- b) gyda rhai eithriadau nodedig, methodd y ceisiadau am astudiaethau achos ymgeiswyr a roddwyd yn yr holiadur awdurdodau lleol ac yn ystod (a chyn) sesiynau'r grwpiau ffocws i raddau helaeth â chyflwyno enghreifftiau defnyddiol. Rhan o'r rheswm am hyn oedd yr angen i astudiaethau achos fod wedi cau (hynny yw y tu hwnt i unrhyw amserlen apelio neu herio) ond y dal yn berthnasol i'r sylwadau neu'r ystyriaethau a godir gan weithrediad *cyfredol* y broses ceisiadau cynllunio.

- 1.11 Roedd ymdrin â'r astudiaethau achos fel hyn yn caniatáu i'r ymchwil ganolbwyntio ar fentrau ar sail perfformiad yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol a fydd yn helpu i lywio argymhellion yr adolygiad. Mae hyn yn cyd-fynd yn llawnach (ac efallai'n fwy effeithiol) â diben yr adolygiad a'r pwyslais ar argymhellion ymarferol. Mae hyn hefyd yn dilyn ymagwedd gyffredinol yr adolygiad hwn sef canolbwyntio ar yr hyn y mae modd ei wneud yn gyflym ac yn effeithiol (heb anwybyddu newid mwy strwythurol os bydd hyn yn angenrheidiol neu'n ddymunol) am ei fod eisoes yn digwydd (yn llwyddiannus) mewn rhai manau.
- 1.12 Yn ddiweddarach yn y broses, cafodd nifer o astudiaethau achos eraill eu hawgrymu i ddangos methau gwahanol o ddatblygiad a'r broses a ddilynwyd – ceir manylion y rhain yn Atodiad 4. Cynhwysir astudiaethau achos neu enghreifftiau yn argymhellion yr adroddiad hwn (fel awgrym o sut y gellir symud ymlaen â'r argymhellion).
- 1.13 Yn ogystal â'r tri cham craidd hyn, mae adolygiad desg trylwyr wedi cael ei wneud o'r deunydd cyhoeddedig ar arferion cynllunio a chynigion diwygio. Hefyd cafodd y tîm ymchwil ei lywio a'i arwain gan grŵp llywio dan Gadeiryddiaeth Michael Sant, a gynhwysodd gynrychiolwyr o Gydffederasiwn Diwydiant Prydain, y Ffederasiwn Adeiladwyr Tai, y Ffederasiwn Busnesau Bach, y Gymdeithas Frenhinol er Amddiffyn Adar, RTPI Cymru, Cymorth Cynllunio Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Swyddogion Cynllunio Cymru a'r Panel Ymgynghorol dros Safonau i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ogystal â swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn rôl gynorthwyol. Hefyd roedd cyfnod ymgynghori cyhoeddus rhwng 8 Mawrth 2010 ac 8 Ebrill 2010. Cafodd yr ymatebion a ddaeth i law eu hystyried a lle bo'n briodol roeddent yn llywio'r adroddiad hwn.

Yr Ymagwedd at Ymchwil a Diwygio mewn Mannau Eraill

- 1.14 Fel y nodwyd uchod dylanwadwyd ar yr ymagwedd at yr astudiaethau achos gan Adolygiad Killian Pretty o'r broses ceisiadau cynllunio yn Lloegr. Mae hyn yn adlewyrchu gwerth mwy cyffredinol yr adolygiad i'r ymarfer hwn. Ar un lefel mae Adolygiad Killian Pretty (KPR) yn nodi pwynt newid o bwys i'r system ceisiadau cynllunio. Am y tro cyntaf (ers hydoedd) roedd y system yn Lloegr yn destun craffu cynhwysfawr ac annibynnol. Gwnaed cyfres o argymhellion, y mae llawer ohonynt wedi cael eu croesawu gan Whitehall ac erbyn hyn yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, ar lefel arall, roedd KPR yn ymwneud â'r system yn Lloegr. Mae system wahanol yn bodoli yng Nghymru ac mae heriau gwahanol a chyfleoedd gwahanol am newid a diwygiad.
- 1.15 Yn y cyd-destun hwn, ystyriwyd dwy ymagwedd sylfaenol at y KPR (a diwygiad cynllunio arall) i archwilio'r broses yng Nghymru. Yr un gyntaf oedd defnyddio'r casgliadau yn sylfaen i'r adolygiad yma. O dan yr ymagwedd hon, gallai pob un o'r argymhellion gael ei brofi'n allblyg neu'n fewnblyg fel man cychwyn ac yna ei dderbyn, ei addasu neu ei wrthod. Hefyd gallai'r argymhellion gael eu huno a'u blaenoriaethu er mwyn cywasgu neu leihau pwysau cyfan y KPR a'i ddogfennau cysylltiedig. Ein nod fyddai darparu un ffynhonnell argymhellion ar sut a pham y dylai'r broses ymgeisio newid.
- 1.16 Yr ail ymagwedd fyddai i anwybyddu'r KPR a'i ganfyddiadau (a'r gweithredu a fu ar ei argymhellion) a dechrau gyda'r system sydd gennym i nodi'n wrthrychol y gwelliannau, protocolau neu fecanweithiau mae eu hangen i'w gwneud yn well, yn fwy addas, yn gyflymach ac yn fwy ymatebol.
- 1.17 Mae rhinweddau i'r ddwy ymagwedd. Ar y naill law ffolineb fyddai anwybyddu'r KPR o ystyried y meddwl a'r arbenigedd sydd wedi mynd i mewn iddo. Mae hyn yn oed bwrw golwg dros yr argymhellion yn dangos bod tebygrwyddau sylweddol y tu ôl i amcanion yr adolygiad, a rhwng nodweddion gweithredol y system. Ar y llaw arall, mae gwahaniaethau pwysig rhwng y ddwy system, yr awdurdodau sy'n rheoli'r broses ymgeisio a'r polisi a'r arweiniad sy'n llywio'r gweithrediad hwnnw.
- 1.18 Yn y cyd-destun hwn, aeth yr adolygiad yn ei flaen yn annibynnol (fel ei adolygiad ei hun nid dim ond KPR i Gymru). Fodd bynnag, cafodd ei lywio yn y cyfnodau archwilio a chyflwyniadau gan themâu, ymagwedd a chanfyddiadau'r KPR. Rhoddwyd prawf ar bob un o'r rhain hefyd drwy archwilio'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru.

Strwythur a Fformat yr Adroddiad

- 1.19 Cofnod yw hwn o brif ganfyddiadau ac argymhellion y prosiect ymchwil. Mae'n dilyn prif strwythur yr adolygiad ac yn ymrannu'n ddwy brif ran:
- 1.20 Mae'r rhan gyntaf yn ymwneud â phrif ganfyddiadau'r adolygiad ac yn canolbwyntio ar y penawdau o'r holiadur awdurdodau cynllunio lleol (yn adran 2) ac o'r grwpiau ffocws a chyflwyniadau ysgrifenedig (yn adran 3).
- 1.21 Mae'r ail ran yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i nodi rhai amcanion a themâu sylfaenol i'r argymhellion ganolbwyntio arnynt (yn adran 4) cyn symud ymlaen i'r argymhellion unigol am wella dealltwriaeth (yn adran 5) am ddiwylliant y broses (yn adran 6) a'i gweithrediad (yn adran 7). Ym mhob un o'r adrannau hyn, mae'r argymhellion yn cael eu hategu gan gyfres o gynghorion ymarferol. Mae'r cynghorion hyn yn cofnodi'r astudiaethau achos (a'r wybodaeth fanylach) a ddefnyddiwyd gan yr adolygiad a'u nod yw esbonio'r rhesymeg dros yr argymhellion neu lywio dulliau o'u rhoi ar waith. Mae'r cynghorion hefyd yn cynnig cysylltiad defnyddiol rhwng canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion ac mae rhywfaint o orgyffwrdd yn anochel (ac yn galonogol).
- 1.22 Mae'r adroddiad yn dod i ben gyda chynllun gweithredu sylfaenol ar gyfer y mesurau a nodwyd (yn adran 8) a chasgliad byr a'r camau a ddylai gael eu cymryd yn fwyaf brys i wella'r broses ymgeisio i bawb o dan sylw (yn adran 9). Mae chwech atodiad ynghlwm wrth ddiwedd yr adroddiad.

2.0 Canfyddiadau Allweddol o Holiadur yr Awdurdodau Cynllunio Lleol

- 2.1 Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (neu ACLI) yw'r prif gyrff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y broses ceisiadau cynllunio. Hwyl sy'n gyfrifol am gofrestru, ystyried a phenderfynu bron pob cais cynllunio a gyflwynir o fewn eu hardaloedd daearyddol. Er bod gan ymgeiswyr hawl i apelio i Weinidogion Cymru, yr ACLI yw'r prif wneuthurwyr penderfyniadau. Fel y cyfryw, mae'n hanfodol deall eu profiad o'r broses ceisiadau cynllunio a'u barn ar sut y gellir ei diwygio.
- 2.2 Gan hynny, holiadur i'r awdurdodau oedd cam cyntaf allweddol yr adolygiad. Cynigiodd y cyfle i ofyn i bob ACLI sut maent yn gweithredu'r broses ceisiadau cynllunio a'r materion maent yn eu hwynebu wrth wneud hyn. Roedd gan yr holiadur y potensial amlwg i edrych ar:
- a) sut mae'r awdurdodau yn mynd at y broses ceisiadau cynllunio
 - b) sut maent yn gweinyddu/defnyddio adnoddau
 - c) sut maent yn trefnu eu hunain (o fewn strwythur cyffredinol y Cyngor ac fel swyddogaeth a thîm/adran unigol)
 - d) sut maent yn dadagregu'r broses ceisiadau cynllunio
 - e) sut maent yn penderfynu ceisiadau yn agored, yn deg ac yn gyson
 - f) sut maent yn cydbwysu agendâu, amcanion a gofynion gwahanol, gwyddonol, goddrychol ac o bosib wrthdrawiadol
 - g) sut maent yn mesur llwyddiant a'r hyn maent yn ei wneud i'w gyflawni
 - h) pa heriau a phwysau mae'r system yn eu cyflwyno
 - i) sut maent yn dysgu, yn adolygu, yn monitro ac yn esblygu
 - j) pa welliannau yr hoffent eu gweld (a'r hyn yr hoffent ei weld fwyaf)
- 2.3 Er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle, lluniwyd yr holiadur i gydbwysu'r angen am atebion ansoddol â'r gofyniad i fesur a nodi data allweddol mewn modd cyffredin. Daeth yr holiadur yn fwy sgysiol na gorchmynnol – aeth y tu hwnt i gwestiynau am ba mor dda mae'r awdurdodau yn credu eu bod yn gwneud - i roi gwybodaeth i dîm yr adolygiad i archwilio sut mae pob awdurdod yn ymateb, pa faterion mae'n eu hwynebu a ble mae'n ymddangos bod strwythurau, methodolegau ac arferion yn dwyn ffrwyth. Bydd hyn hefyd yn caniatáu

i gyfnodau diweddarach ganolbwyntio ar faterion allweddol a'r ffordd orau i ymdrin â hwy.

- 2.4 Er i lawer o holiaduron gael eu cwblhau a'u dychwelyd erbyn y dyddiad cau gwreiddiol, tipyn o siom oedd yr ymateb cychwynol. Estynnwyd y dyddiad cau felly i Ionawr 2010 ac erbyn y dyddiad diwygiedig roedd 22 o holiaduron wedi cael eu dychwelyd. Y tri awdurdod a fethodd ag ymateb oedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Merthyr Tudful a Wrecsam.
- 2.5 Mae'r bennod hon yn crynhoi penawdau o'r ymatebion i'r holiadur ac yn nodi themâu allweddol sydd wedi dod i'r amlwg o elfen hon yr ymchwil. Mae'r bennod yn dilyn fformat yr holiadur a gynhwysir fel Atodiad 2 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Nifer y Ceisiadau a'r Ymholiadau a Draffodir

- 2.6 Gwelwyd amrywiaeth sylweddol o ran nifer y ceisiadau ac ymholiadau mae ACLI ledled Cymru yn ymdrin â hwy. Roedd nifer y ceisiadau cynllunio llawn a gafodd ACLI (am y 12 mis diweddaraf a gofnodwyd) yn amrywio rhwng 2200 a dim ond 311.
- 2.7 At ei gilydd, roedd ceisiadau cynllunio llawn yn cyfrif am 78.3% o'r cyfanswm, gyda cheisiadau i gyflawni /amrywio amodau yn cyfrif am 8.7% a cheisiadau amlinell yn cynrychioli 5%. Roedd ceisiadau Adeilad Rhestredig (LBC) / Ardal Gadwraeth yn cynrychioli 3.6%, gyda cheisiadau Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd Arfaethedig (CLOPUD) a cheisiadau Hysbysu Ymlaen Llaw yn cyfrif am 1.5% yr un o'r cyfanswm a cheisiadau Materion Cadwedig yn cyfrif am 1.3%. Dim ond 34 cais Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DEC)² a gyflwynwyd ledled Cymru gan gynrychioli dim ond 0.1% o'r cyfanswm. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar yr awdurdodau canlynol: Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Powys a Bro Morgannwg.

Tabl 1: Mathau o Gais Cynllunio sy'n cael eu gwneud

Math o Gais	Canran o'r Cyfanswm (%)
Llawn	78.3
Cyflawni /amrywio amodau	8.7
Amlinell	5
LBC / Ardal Gadwraeth	3.6
CLOPUD	1.5
Hysbysu Ymlaen Llaw	1.5
Materion Cadwedig	1.3
DEC	0.1

² Ceisiadau am isadeiledd ynni arwyddocaol, fel gorsafoedd pŵer â chynhwysedd o fwy na 50MW, sy'n cael eu penderfynu ar hyn o bryd gan yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (y DU) (DECC) ac a benderfynir o Fawrth 2010 ymlaen gan y Pwyllgor Cynllunio Isadeiledd (IPC).

- 2.8 Gofynnodd yr holiadur i ACLI ddarparu ffigurau hefyd am nifer y ceisiadau "arall" a gafwyd. Dangosodd yr atebion i'r cwestiwn hwn fod ychydig neu dim cysondeb wrth gofnodi a chategoreiddio'r rhain gan ACLI. Cymaint oedd yr amrywiaeth bod sawl awdurdod yn datgan bod ganddynt dim ceisiadau "arall" tra bod eraill yn cofnodi sawl cant.³ Fel y cyfryw, mae'r ceisiadau hyn wedi cael eu hepgor o'r canrannau a nodir uchod er mwyn peidio â gwyrddroi'r ffigurau.
- 2.9 Hefyd darparwyd amrediad eang o ffigurau mewn perthynas â nifer yr ymholiadau cyn-ymgeisio a gofnodwyd gan ACLI gydag un yn gweld 1500 o ymholiadau o'i gymharu â dim ond 11 mewn un arall. Tra bod hyn yn adlewyrchu i raddau nodweddiol gwahanol ardaloedd ACLI mae'n debyg y gellir priodoli'r gwahaniaethau i raddau helaeth i'r diffyg cysondeb rhwng awdurdodau wrth gategoreiddio a chofnodi ymholiadau cyn-ymgeisio.

Ceisiadau EIA

- 2.10 Roedd y mwyafrif llethol o ACLI a ymatebodd i'r arolwg wedi cael o leiaf un cais EIA yn ystod y flwyddyn galendr. Yr Awdurdod a gafodd y nifer fwyaf o geisiadau EIA (10) oedd Sir Gaerfyrddin, lle cafodd 50% o'r rhain eu cyfeirio gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i gais gan drydydd parti.

Staffio

- 2.11 Fel y gellid disgwyl mae gwahaniaethau mewn lefelau staffio rhwng awdurdodau lleol. Fodd bynnag, wrth holi am hyd cyfartalog profiad staff cynllunio MRTPI ers cymhwyso, awgrymodd yr atebion fod gan bob ACLI a ymatebodd gorff sylweddol o staff profiadol y gallant fanteisio ar eu harbenigedd. Roedd hyd cyfartalog profiad ers cymhwyso yn amrywio rhwng 10 ac 20 mlynedd gyda ffigur cyfartalog cymedrig o 14.5 o flynyddoedd ar draws yr 16 ACLI a atebodd y cwestiwn.

Defnydd Ymgynghorwyr

- 2.12 O'r 22 o Awdurdodau Lleol atebodd y cwestiwn, dwedodd 21 (sy'n cynrychioli 95% o'r cyfanswm) eu bod yn defnyddio ymgynghorwyr allanol mewn rhyw rinwedd. Defnyddiwyd ymgynghorwyr allanol at amrywiaeth eang o dasgau ond ran amlaf cawsant eu defnyddio ar sail ad hoc (yn hytrach na'u penodi i banel neu am dymor). Yn fwyaf cyffredin cafodd ymgynghorwyr eu defnyddio i lenwi bylchau penodol

³ Roedd y mathau o geisiadau a gynhwyswyd gan ACLI yn y categori "arall" yn cynnwys ceisiadau am newid defnydd, hysbysebion, cadw datblygiad anawdurdodedig, cyflawni/addasu cytundebau A106, ceisiadau TPO, mwynau, barn sgrinio, dymchwel, Tystysgrif Cyfreithlondeb, adolygiadau o ganiatadau mwynau, llinellau gorben, caniatadau sylweddau peryglus, tynnu gwrychoedd a hysbysiadau amaethyddol.

mewn gwybodaeth yn enwedig mewn meysydd arbennig (fel cynllunio manwerthu, cynllunio trafndiaeth neu faterion cyfreithiol) lle roedd angen arbenigedd cyfreithiol.

Strwythur a Gweinyddiaeth

- 2.13 Roedd yr Awdurdodau Lleol a ddychwelodd yr holiadur wedi eu strwythuro mewn amrywiaeth o ffyrdd o ran gweinyddiaeth gorfforaethol gyffredinol a strwythur adrannau cynllunio. O'r rhai a roddodd wybodaeth am strwythur eu tîm Rheoli datblygiad, defnyddiodd nifer arwyddocaol ymagwedd ar sail "tîm ardal" ddaearyddol. Roedd Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd i gyd ymhlith yr awdurdodau a nododd yn benodol eu bod yn defnyddio ymagwedd tîm ardal, gyda naill ai swyddogion unigol neu dimau bach yn gyfrifol am bob cais a gyflwynir o fewn ardal ddaearyddol benodol. Fodd bynnag, er bod nifer o'r awdurdodau hefyd yn cyflogi swyddogion â gwybodaeth arbenigol dechnegol benodol (swyddogion Adran 106 yn fwyaf cyffredin), nid yw'n gwbl glir a oes strwythurau ffurfiol yn eu lle i rannu gwybodaeth arbenigol arall o fewn y cyfryw strwythurau.
- 2.14 Ymhlith yr ACLI nad oeddent yn defnyddio ymagwedd timau ardal, roedd yn ymddangos bod ceisiadau wedi eu dosbarthu rhwng timau a (neu) swyddogion unigol mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol, er enghraifft awgrymodd ymatebion Conwy a Sir y Fflint fod ganddynt dimau penodol sy'n arbenigo mewn ceisiadau mawr a bach, tra nad oedd rhai o'r awdurdodau llai o faint fel Eryri yn defnyddio ymagwedd timau o gwbl.
- 2.15 Mater allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r holiadur yw rôl y Pennaeth Cynllunio a ble mae'n eistedd o fewn strwythur corfforaethol cyffredinol awdurdodau. Ymhlith yr ACLI a roddodd wybodaeth am y mater hwn, roedd cryn gysondeb yn amlwg o ran dylanwad y Pennaeth Cynllunio o fewn yr adran gynllunio, gydag un unigolyn gan y mwyafrif o awdurdodau sydd â chyfrifoldeb bwaol dros gynllunio cyfan (gan gynnwys blaengynllunio a rheoli datblygiad). Fodd bynnag, roedd llai o gysondeb o ran pa swyddogaethau eraill (fel rheoli adeiladu ac adfywio) roedd yr unigolyn hwn hefyd yn gyfrifol amdanynt a'u safle a'u lefel dylanwad gyffredinol o fewn y corff corfforaethol yn ei grynswth.
- 2.16 Yn ôl pob golwg mae'r ymatebion i'r holiadur yn awgrymu mai'r safle mwyaf cyffredin o fewn awdurdodau lleol i'r Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yw ar yr haen reolaeth yn union o dan y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ymhob man ac mewn nifer o awdurdodau roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn eistedd ar drydedd haen y strwythur corfforaethol gyda ffigur arall, fel Cyfarwyddwr yr Amgylchedd gyda chyfrifoldeb dros amrediad o faterion eraill fel cefnffyrdd a datblygiad economaidd, yn eistedd rhyngddynt hwy a'r Prif Weithredwr.

Proses

- 2.17 Roedd y mwyafrif o Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd i'r holiadur yn gallu darparu arweiniad, taflen, siarter neu god ymarfer a ddisgrifiodd eu hymagwedd gyffredinol at brosesu ceisiadau cynllunio. Ran amlaf roedd y dogfennau hyn ar gael yn gyhoeddus.
- 2.18 Gofynnodd yr holiadur i awdurdodau cynllunio roi amcangyfrif o'r holl amser sy'n cael ei dreulio yn ymdrin â chyfnodau allweddol y broses ceisiadau cynllunio gan gynnwys trafodaethau cyn-ymgeisio, ymgynghori a dileu a monitro amodau yn ystod blwyddyn nodweddiadol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn methu rhoi'r cyfryw amcangyfrif ond mae atebion y rhai a lwyddodd i wneud yn ddiddorol iawn.
- 2.19 Er mai ystyried ceisiadau cynllunio sy'n llyncu'r amser mwyaf, fel y gellid disgwyl, syndod efallai yw'r ffaith bod hyn yn cyfrif am ddim ond traean o amser swyddogion. Ymhlith y materion eraill sy'n llyncu cryn dipyn o amser swyddogion mae adrodd ar gais (15%), monitro, dileu a gweithredu amodau (15%), ymgynghori (10%) a thrafodaethau cyn-ymgeisio (9%).

Defnydd Technoleg

- 2.20 Dangosodd yr ymatebion i'r holiadur gyferbyniad mawr rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol o ran argaeledd gwybodaeth a gwasanaethau mewn perthynas â chynllunio ar-lein (a welir yn Nhabl 2). Er bod 90% o'r ACLI a ymatebodd yn darparu mynediad ar-lein i Adroddiadau Pwyllgor a 71% yn trefnu bod ffurflenni ymgeisio ar gael ar-lein, mae argaeledd gwybodaeth bwysig arall yn llawer mwy ysbeidiol gyda dim ond 57% o ymatebwyr yn darparu mynediad ar-lein i ddogfennau ategol (cynlluniau, llythyron ac ati) a 43% yn caniatáu i adroddiadau dirprwyedig gael eu cyrchu ar-lein. Dim ond 14% o ymatebwyr a ganiataodd i ddefnyddwyr weld gohebiaeth cyn-ymgeisio ar-lein.

Tabl 2: Argaeledd Gwybodaeth Ar-lein

Math o ddogfen	Canran yr Awdurdodau sy'n Rhoi Mynediad i Wybodaeth Ar-lein (%)
Gohebiaeth cyn-ymgeisio	14
Ffurflenni ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd	71
Dogfennau ategol (cynlluniau, llythyron ac ati)	57
Ymatebion ymgynghori	29
Gohebiaeth gyffredinol	19
Adroddiadau pwyllgor	90
Adroddiadau dirprwyedig	43

Cyflawni amodau	33
Cytundebau cyfreithiol	38
Arall	10

- 2.21 Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o resymau am y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar-lein. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â diffyg gallu TGCh, materion ariannol a'r ffaith syml nad yw hynny'n flaenoriaeth gorfforaethol i lawer o ACLI. Cyfeiriodd nifer o awdurdodau hefyd at faterion cyfrinachedd mewn perthynas â threfnu bod rhai dogfennau'n agored i'r cyhoedd.

Darparu Cyngor cyn-ymgeisio

- 2.22 Datgelodd yr holiadur fod darparu cyngor cyn-ymgeisio yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel agwedd allweddol ar weithrediad llwyddiannus y system gynllunio. Ar draws ACLI roedd darparu cyngor cyn-ymgeisio yn cyfrif am gyfartaledd o 11% o amser swyddogion, ond dangosodd yr ymatebion wahaniaethau sylweddol rhwng awdurdodau o ran lefel y gwasanaeth sydd ar gael. Cynigir cyngor cyn-ymgeisio mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cyngor gan swyddogion dyletswydd, ymgynghorfeydd cynllunio, gohebiaeth ysgrifenedig ac apwyntiadau ffurfiol.
- 2.23 O ran y pwys a roddir i gyngor cyn-ymgeisio, oedd hyn i'w weld yn amrywio hefyd, ond yn unol â'r disgwyl mae mwy o amser (ac felly mwy o bwys) yn cael ei roi'n gyffredinol i drafodaethau cyn-ymgeisio mewn perthynas â cheisiadau mwy o faint/mwy arwyddocaol. At ei gilydd roedd ACLI yn awyddus i bwysleisio bod cyngor cyn-ymgeisio yn cael ei roi ar sail "heb ragfarn".
- 2.24 Ychydig o ACLI sy'n codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio ar hyn o bryd ac ymhlith y rhai sydd yn gwneud roedd y farn yn rhannu'n weddol gyfartal ynghylch manteision codi tâl. Mynegwyd pryder arbennig am y posibilrwydd i godi tâl atal pobl rhag gofyn am gyngor o'r fath, ac felly'n cael effaith negyddol. Roedd hyn yn bryder yn benodol o ran ceisiadau llai. Cydnabu rhai ymatebwyr hefyd y byddai codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio yn arwain at ddisgwyl safon wasanaeth uwch, a fyddai yn ei dro yn galw am fwy o adnoddau.

Dilysu a Chofrestru

- 2.25 Roedd diffyg cysondeb ledled Cymru o ran y gweithdrefnau ar gyfer dilysu a chofrestru ceisiadau cynllunio. Tanlinellir hyn gan ffigurau sy'n dangos amrywiaethau mawr mewn perthynas â'r gyfran o geisiadau sy'n cael eu dychwelyd i ymgeiswyr heb gael eu cofrestru. Yn ardal un awdurdod lleol mae mwy na 70% o geisiadau yn peidio â chael eu cofrestru ar hyn o bryd, ond roedd ACLI eraill yn gwrthod cofrestru llai na 2% o geisiadau. Mewn manau eraill, roedd systemau gwahanol ar

waith ac roedd ceisiadau'n cael eu dal wrth ddisgwyl cyflwyniad gwybodaeth ychwanegol yn hytrach na'u dychwelyd i ymgeiswyr.

- 2.26 Roedd y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd a enwyd am beidio â dilysu ceisiadau cynllunio yn ymwneud â Datganiadau Dylunio a Mynediad. Nododd un awdurdod fod 25% o geisiadau yn cael eu dychwelyd cyn y gofyniad am DAS ond bod hyn bellach wedi codi i 45%. Roedd rhesymau eraill am wrthod dilysu ceisiadau yn cynnwys cyflwyno cynlluniau anghywir a ffioedd anghywir.
- 2.27 Roedd diffyg cysondeb rhwng awdurdodau hefyd mewn perthynas â chategoreiddio ceisiadau cynllunio at ddibenion gweinyddiaeth fewnol, gydag amrywiaeth o deipolegau'n cael eu defnyddio i gofnodi'r cyfryw ddata. Y dull mwyaf poblogaidd o gategoreiddio a ddefnyddid gan ymatebwyr oedd yr hyn a ddefnyddir yn ffigurau ffurflenni'r Cynulliad, ond roedd awdurdodau eraill yn defnyddio categorïau GPDO neu ryw ffurf arall ar gategoreiddio.

Ymgynghori

- 2.28 Dangosodd yr holiaduron fod y mwyafrif llethol o ACLI yn anfon llythyron at ymgynghoreion statudol o fewn tri i bum diwrnod ar ôl dilysu cais cynllunio. Fodd bynnag, roedd amrywiaeth o ymagweddau at sicrhau bod grwpiau anstatudol, gan gynnwys cymunedau lleol ac unigolion, yn cael eu hysbysu am geisiadau a fydd yn effeithio arnynt. Dwedodd y mwyafrif o ymatebwyr eu bod yn diwallu'r gofynion statudol mewn perthynas ag ymgynghori. Serch hynny nododd nifer eu bod mewn rhyw fodd yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol.
- 2.29 Cyhoeddi rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio newydd, hysbysiadau safle, hysbysebion yn y wasg a hysbysu cymdogion a chynghorwyr ward lleol oedd y dulliau a ddefnyddid yn fwyaf cyffredin o roi cyhoedduswydd i geisiadau cynllunio. Ond nododd rhai ymatebwyr, lle roedd grwpiau perthnasol eraill yn hysbys, fod ymgynghori'n benodol â hwy neu fod protocolau cytûn ar waith gyda phartion fel grwpiau preswylwyr.
- 2.30 Fel arfer câi ymgynghori manylach ar geisiadau cynllunio ei drefnu ar sail *ad hoc* a'i gadw fel arfer ar gyfer ceisiadau mwy o faint neu rai a ystyriwyd yn ddadleuol. Fodd bynnag, datganodd sawl ACLI nad oedd unrhyw ddarpariaeth ffurfiol o fewn eu hardal ar gyfer gweithdrefnau o'r fath.
- 2.31 Enwyd cyfyngiadau amser ac adnoddau fel rhesymau dros y diffyg ymgynghori cyhoeddus ehangach ynghylch ceisiadau.

Protocolau Adrodd – Cyfraddau Dirprwyo

- 2.32 Yn gyffredinol adroddodd ACLI ganran gymharol uchel o benderfyniadau yn cael eu gwneud o dan bwerau dirprwyedig gyda chyfartaledd cymedrig o 79% o geisiadau nad ydynt gan ddeiliaid tai a 92.5% o geisiadau gan ddeiliaid tai yn cael eu trafod drwy bwerau dirprwyedig. Ond unwaith eto, roedd gwahaniaethau sylweddol rhwng yr ACLI gyda'r ganran o geisiadau nad ydynt gan ddeiliaid tai sy'n cael eu trafod dan bwerau dirprwyedig yn amrywio rhwng 63% a 95% a'r ganran o geisiadau gan ddeiliaid tai sy'n cael eu trafod dan bwerau dirprwyedig yn amrywio rhwng 85% a 100%.

Casglu Adborth

- 2.33 Y dull a ddefnyddid amlaf gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i gasglu adborth am berfformiad eu gwasanaeth cynllunio oedd cyhoeddi holiaduron i ymgeiswyr. Cyhoeddwyd holiaduron o wahanol fathau i'r cyhoedd gan 18 o'r 22 ACLI a ymatebodd. Y dull mwyaf poblogaidd nesaf o gasglu adborth oedd cynnal Fforymau Defnyddwyr (13 ACLI). Cynhaliwyd adolygiadau cymheiriaid/ tîm gan dri awdurdod a defnyddiodd tri awdurdod ddulliau eraill (gan gynnwys arolwg preswylwyr) i gasglu adborth.
- 2.34 Nododd 33% o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a ymatebodd i'r cwestiwn eu bod yn defnyddio templed arolwg cwsmeriaid Uned Ddata Llywodraeth Leol yn erbyn 67% nad oeddent yn gwneud.

Protocolau ar gyfer Mân Newidiadau / Newidiadau Heb fod yn Berthnasol i Gynlluniau

- 2.35 Pan ofynnwyd a oedd ganddynt brotocolau ynghylch mân newidiadau neu newidiadau heb fod yn berthnasol i gynlluniau a gymeradwywyd neu sy'n mynd rhagddynt na fyddant yn creu'r angen am geisiadau cynllunio, dim ond 24% o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn a atebodd fod.

Prif Ystyriaethau Perthnasol

- 2.36 Roedd gan 32% o ACLI restr o'r hyn roeddent yn eu hystyried yn ystyriaethau perthnasol sylfaenol mewn penderfyniadau cynllunio yn erbyn 68% a oedd heb.

Amodau Cynllunio

- 2.37 Dywedodd 82% o'r awdurdodau cynllunio a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn cynnwys ymgeiswyr mewn rhyw ffordd mewn gwneud penderfyniadau am gwmpas a chynnwys amodau cynllunio. Awgrymodd y sawl o roddodd wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn fod ACLI fel arfer dim ond yn cyd-drafod amodau

cynllunio ag ymgeiswyr mewn ceisiadau mwy o faint neu fwy arwyddocaol/cymhleth.

- 2.38 Awgrymodd ymatebion i'r holiadur y gall cyflawni amodau cynllunio lyncu cryn amser i Awdurdodau Cynllunio Lleol, ond roedd gwahaniaethau aruthrol rhwng ACLI yn hyn o beth. O ran faint o amser roedd swyddogion yn ei dreulio ar gyflawni amodau, y cyfartaledd cymedrig yn ôl yr amcangyfrif oedd 11.4%. Fodd bynnag, roedd yr amcangyfrifon a ddarparwyd yn amrywio rhwng 2% ac 20%.

Cytundebau Cyfreithiol

- 2.39 Daeth gwahaniaeth yr un mor fawr i'r amlwg mewn perthynas ag amcangyfrifon ACLI o'r gyfran o amser swyddogion a dreuliwyd ar gytundebau cyfreithiol. Roedd atebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio rhwng 1% a 15%, gyda chyfartaledd cymedrig o 4.9 %.

Pwyllgor

- 2.40 Datgelodd y rhan o'r holiadur a holodd am rôl a gweithrediad y Pwyllgor Cynllunio wahaniaethau diwylliannol sylweddol rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Un o'r meysydd gwahaniaeth mwyaf nodedig oedd mewn perthynas â nifer yr aelodau yn gwasanaethu ar y Pwyllgor, a amrywiodd rhwng 11 a 78. Er bod hyn yn rhannol yn adlewyrchu gwahaniaethau ym maint ACLI, mae'n awgrym hefyd o ymagwedd sylfaenol wahanol at wneud penderfyniadau, gyda lleiafrif o awdurdodau yn cynnwys pob cynghorydd etholedig mewn Pwyllgor Cynllunio tra bod y mwyafrif yn ffafrio Pwyllgor llai o faint gydag aelodau (yn ddamcaniaethol) sy'n meddu ar wybodaeth fwy arbenigol o gynllunio.
- 2.41 Mae'r holiadur hefyd yn datgelu'r gwahaniaethau diwylliannol rhwng Awdurdodau o ran lefel yr hyfforddiant y mae disgwyl i aelodau pwyllgor cynllunio ei wneud. Roedd y mwyafrif llethol o ACLI yn darparu hyfforddiant cychwynnol i bob aelod pwyllgor adeg eu penodi a ddilynir wedyn gan raglen o ddigwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, roedd rheoleidd-dra a natur digwyddiadau hyfforddi yn amrywio'n fawr iawn.
- 2.42 Dibynnodd sawl awdurdod i raddau helaeth ar sesiynau briffio mewnol i aelodau tra bod eraill yn cynnig seminarau a ddarperir gan amrediad o arbenigwyr allanol gan gynnwys QC's, y Porth Cynllunio a'r Arolygiaeth Gynllunio. Fodd bynnag, adroddodd nifer o awdurdodau fod presenoldeb gan Gynghorwyr mewn digwyddiadau hyfforddiant yn siomi yn aml. Mae hyn yn amlwg yn broblem fawr y mae angen ei goresgyn.
- 2.43 At ei gilydd nid oedd unrhyw gosbau ar gael pan fethodd aelodau ag ymgymryd â hyfforddiant, ond mewn nifer fach o awdurdodau mae

hyfforddiant yn orfodol. Mewn un ACLI mae'n ofynnol i Gynghorwyr ymgymryd â swm gofynnol o hyfforddiant bob blwyddyn a gall y rhai sy'n methu gwneud gael eu symud neu eu gwahardd dros dro o'r Pwyllgor drwy bleidlais y Cyngor llawn.

- 2.44 O ran gweithdrefn, dywedodd y mwyafrif llethol o ACLI eu bod yn cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio unwaith y mis. Roedd y protocolau ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyhoedd o flaen Pwyllgor yn weddol unffurf hefyd gyda'r mwyafrif o Awdurdodau yn trefnu bod adroddiadau ar gael sawl diwrnod cyn cyfarfodydd. Roedd gan yr holl ACLI a atebodd y cwestiwn system ar waith i briffio aelodau pwyllgor allweddol (fel arfer y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd) cyn cyfarfodydd ac mewn llawer o awdurdodau roedd ffigurau allweddol eraill fel Swyddogion Cyfreithiol, Swyddogion Priffyrdd a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cael eu gwahodd i fynychu.
- 2.45 Gwelwyd amrywiaeth o ymagweddau at gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio hefyd. Mewn llawer o ACLI, y Pennaeth Rheoli Datblygiad yn unig sy'n gyfrifol am gyflwyno ceisiadau i aelodau, tra bod Swyddogion Achos neu Arweinwyr Tîm unigol yn cymryd y cyfrifoldeb mewn rhai eraill. Roedd gwahaniaethau amlwg hefyd yng ngraddfa defnyddio technoleg yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, er bod mwyafrif clir o Awdurdodau yng Nghymru erbyn hyn yn defnyddio sgriniau mawr i arddangos gwybodaeth allweddol mewn perthynas â cheisiadau fel cynlluniau a ffotograffau.
- 2.46 Datgelodd yr ymatebion i'r holiadur wahaniaethau arwyddocaol rhwng Awdurdodau o ran trefnu i'r cyhoedd siarad mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Nid oedd dau o'r ACLI a atebodd yn caniatáu unrhyw gyfle i drydydd partïon wneud sylwadau llafar i aelodau'r Pwyllgor. O'r rhain sydd yn caniatáu i'r cyhoedd siarad, mae amrediad o reolau ar waith mewn perthynas â threfniant hyn a faint o amser sydd ar gael i gyfranogwyr.
- 2.47 Maes diddordeb arall mewn perthynas â Phwyllgorau yw nifer y penderfyniadau sy'n mynd yn erbyn argymhelliad Swyddogion Cynllunio, a sut yr ymdrinnir â hyn yn y pen draw. Mae gan nifer sylweddol o ACLI (9) weithdrefnau yn eu lle am gyfnod pwylo pan all penderfyniadau sy'n groes i argymhelliad swyddog gael eu hadolygu a'i hail-ystyried ac yna eu cyflwyno'n ôl i'r pwyllgor cynllunio nesaf. O'r Awdurdodau hynny heb weithdrefnau o'r fath, mae 5 arall naill ai'n ystyried cyflwyno cyfnod pwylo ar hyn o bryd neu'n credu bod y syniad yn haeddu ystyriaeth.

Heriau i Benderfyniadau Cyngor

- 2.48 Rhoddodd yr ACLI a lenwodd yr holiadur ffigurau am ganlyniad heriau a oedd wedi eu gwneud i'w penderfyniad yn ystod y flwyddyn flaenorol (neu'r flwyddyn ddiwethaf a gofnodwyd) hefyd. Dangosodd yr atebion

i'r cwestiwn hwn fod cyfartaledd o 34.3% o apeliadau yn cael eu cymeradwyo / cadarnhau, yn erbyn 63.3% sy'n cael eu gwrthod (gyda 2.4% yn cael eu datrys mewn ffyrdd eraill). Fodd bynnag, mae cyfradd lwyddo apeliadau yn amrywio'n fawr iawn gan awgrymu amrywiaeth sylweddol yn ansawdd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Mesur Perfformiad

2.49 Cydnabuwyd yn eang gan ymatebwyr yr holiadur fod mesur llwyddiant y system gynllunio yn anodd. Cydnabu pob ymatebydd fod amserlenni (a chyfnodau penderfynu yn benodol) naill ai'n bwysig iawn neu'n eithaf pwysig mewn perthynas â mesur perfformiad. Fodd bynnag, roedd teimlad eang bod y pwys presennol a roddir ar amserlenni yn anghymesur ac y dylai ffactorau ansoddol eraill gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.

2.50 Roedd enghreifftiau o fesurau perfformiad eraill yn cynnwys:

- Nifer yr apeliadau sy'n cael eu hennill a'u colli.
- Apeliadau hysbysiadau gorfodi sy'n cael eu hennill a'u colli.
- Ymateb i ymholiadau ffôn / ceisiadau am gyngor cyn-ymgeisio
- Yr amser a gymerir i ymateb i Gwynion Gorfodi.
- Arolygon boddhad cwsmeriaid.
- Nifer y cwynion sy'n dod i law.
- Adolygiadau o ganiatadau a weithredir.
- Mesurau Dangosyddion Perfformiad.
- Cynlluniau gwobrwyo am ddatblygiad ansawdd uchel.

Addasrwydd at y Diben

2.51 Pan ofynnwyd iddynt raddio pa mor addas at y diben mae'r broses bresennol ceisiadau cynllunio ar raddfa 1 i 10, yn genedlaethol ac yn lleol, ar gyfartaledd graddiodd ymatebwyr y system gynllunio yn eu hardal hwy fel bod ychydig yn fwy addas at y diben nag yng Nghymru gyfan (6.5 allan o 10 yn hytrach na 6.3 allan o 10). Roedd amrywiaethau sylweddol rhwng yr ymatebwyr gyda'r ffigur cenedlaethol yn amrywio rhwng pedwar ac wyth a'r ffigur lleol ac amrywio rhwng pedwar a naw. Yn gyffredinol mae'r ffigurau'n awgrymu er ei bod yn amlwg bod lle sylweddol i wella'r broses ceisiadau cynllunio, yn ôl pob golwg y farn yw nad yw wedi ei thorri nac yn anaddas at y diben yn y bôn. Serch hynny, mae yna feysydd lle mae'n amlwg bod perfformiad yn anfodhaol.

Dylanwadau ar Berfformiad

2.52 Mae Tabl 3 (isod) yn dangos ymatebion Awdurdodau Cynllunio Lleol pan ofynnwyd iddynt asesu i ba raddau mae nifer o ffactorau allweddol yn dylanwadu ar hyn o bryd ar weithrediad y broses ceisiadau cynllunio yn eu hardal hwy. Mae'r atebion i'r cwestiwn hwn yn dangos y credwyd mai lefel yr arbenigedd a'r adnoddau proffesiynol sydd ar gael i ACLI oedd y dylanwad mwyaf arwyddocaol ar y system ochr yn ochr â nifer cyffredinol y ceisiadau a geir a'r amser sy'n cael ei gymryd i sicrhau ymatebion diffiniadol i ymgynghoriadau. Fel y gellid disgwyl, ystyriwyd yn eang bod polisi cynllunio cenedlaethol a lleol a gofynion statudol yn dylanwadu'n fawr ar berfformiad. Fodd bynnag, syndod efallai yw i ddim ond 43% o ymatebwyr nodi diddordeb gwleidyddol lleol mewn ceisiadau cynllunio fel dylanwad mawr ar berfformiad y system rheoli datblygiad.

Tabl 3: Ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad y system rheoli datblygiad

	Dylanwad Mawr (%)	Mân Ddylanwad (%)	Dim Dylanwad Arwyddocaol (%)
Yr adnoddau proffesiynol sydd ar gael yn rheolaidd	86	10	5
Lefel y profiad sydd ar gael	86	14	0
Lefel yr arbenigedd sydd ar gael (yn gyffredinol neu ar gyfer tasgau penodol)	81	19	0
Nifer cyffredinol y ceisiadau	81	19	0
Polisi cenedlaethol	81	19	0
Yr amser a gymerir i sicrhau ymatebion dibynadwy neu ddiffiniadol i ymgynghoriad	80	20	0
Systemau a thechnoleg	71	24	5
Polisi ac arweiniad lleol	67	33	0
Gofynion Statudol	67	29	5
Diddordeb/gwrthwynebiad y cyhoedd	60	35	5
Cylchoedd a gofynion sifig / pwyllgor	60	35	5
Nifer mathau penodol o geisiadau	57	43	0
Gweithdrefnau Gorfodol	57	38	5
Diddordeb gwleidyddol lleol	43	48	10

Blaenoriaethau Awdurdodau Cynllunio Lleol i Wella'r Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

2.53 Isod ceir yr argymhellion a roddwyd amlaf a/neu fwyaf perthnasol oddi wrth yr ACLI i wella'r broses ceisiadau cynllunio:

- Symleiddio'r system.
- Darparu mwy o sefydlogrwydd.
- Sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y system.
- Creu rhestr gyfeirio gyffredin ar gyfer gofynion dilysu.
- Sefydlu'r cysyniad o ofalaeth datblygiad yn rhan o'r broses.
- Diwygio'r Gorchymyn Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir (GPDO) / estyn Datblygiad a Ganiateir - hepgor rhai mathau o ddatblygiad o gwmpas caniatâd cynllunio (mân/datblygiad gan ddeiliad tŷ).
- Cyflwyno proses ymgeisio sengl ar gyfer Caniatâd Cynllunio ac Adeilad Rhestredig.
- Cytuno ffordd ymlaen ar ddiwygiau i gynlluniau a gymeradwywyd.
- Gosod dangosyddion perfformiad ystyrion sy'n uniongyrchol gymaradwy ar draws Awdurdodau Cynllunio Lleol nad ydynt yn ymwneud ag amserlenni yn unig.
- Dylai Cymru gyd-fynd â Lloegr o ran newidiadau deddfwriaethol - dylai'r Cynulliad weithredu pob un o elfennau rheoli datblygiad sydd ar ôl o Ddeddfau 2004 a 2008.
- Cynyddu ffioedd ymgeisio.
- Cyflwyno ffioedd ar gyfer cyflawni amodau.
- Annog mwy o ddefnydd ar y Porth Cynllunio i gyflwyno ceisiadau.
- Dileu'r gofyniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad ac eithrio am rai ceisiadau mawr neu sy'n ymwneud ag Adeiladau Rhestredig / ardaloedd cadwraeth.
- Caniatáu cofrestru newidiadau syml i gynlluniau yn anffurfiol.
- Adolygu'r defnydd ar Amodau a chyhoeddi cyngor arfer gorau.
- Symleiddio gweithdrefnau gorfodi.
- Adolygu'r hawl i apelio lle bo'n amlwg ei bod yn groes i bolisi.

- Cynyddu cydweithrediad a rhannu arfer gorau rhwng ACLI.
- Annog mwy o gyfranogiad cymunedau wrth gadw rheolaethau proffesiynol.
- Blaenoriaethu cyngor cyn-ymgeisio.
- Gwella ansawdd ceisiadau cynllunio.
- Adolygu ffurflen 1APP.
- Symleiddio cytundebau Adran 106.
- Cosbau uwch am wyro o gynlluniau cymeradwy a thorri amodau.

2.54 Holwyd yr ymatebwyr hefyd am y prif ystyriaethau yn eu barn hwy sy'n wynebu Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru mewn perthynas â mentrau presennol a newydd gan gynnwys y Comisiwn Cynllunio Isadeiledd (IPC), y Doll Isadeiledd Cymunedol (CIL), cyflwyniad Datganiadau Dylunio a Mynediad a/neu unrhyw rai eraill. Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn gorgyffwrdd yn sylweddol â'r atebion i'r cwestiwn am flaenoriaethau wrth wella'r system (uchod). Nodir yr ymatebion mwyaf cyffredin isod.

- Adnoddau, recriwtio a chadw. Baich gwaith cynyddol ar adeg adnoddau gostyngol.
- Sgiliau - yr angen i feithrin gwybodaeth arbenigol am amrediad o faterion fel yr agenda gynladwyedd, dylunio, CIL ac ati. Angen datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant gwell.
- Gwella canfyddiad y cyhoedd o'r proffesiwn. Cynllunio yn cael ei weld yn rhwystro yn hytrach nag yn hwyluso.
- Angen arweiniad gwell oddi wrth LICC o ran mentrau newydd fel MIPPS 01/2009, er mwyn sicrhau bod y cyfryw arweiniad yn amserol ac yn glir a bod staff ACLI wedi eu hyfforddi'n llawn cyn i fentrau newydd fynd yn fyw.
- Gwella statws cynllunio o fewn Awdurdodau Lleol.
- Pryder bod y Doll Isadeiledd Cymunedol (CIL) yn bygwth ei gwneud yn anos cyflwyno tai fforddiadwy drwy gyfrwng cytundebau Adran 106.
- Gorfodi - ar hyn o bryd mae'r gweithdrefnau'n araf ac mae diffyg cosbau effeithiol.
- Sut i gymodi amcanion cenedlaethol / rhyngwladol â dyheadau'r unigolyn / cymunedau.

- Sicrhau bod ymgynghori yn cael ei gynnal yn effeithiol.
- Gwelwyd y Comisiwn Cynllunio Isadeiledd (IPC) fel annemocrataidd o bosibl ond hefyd barn y mwyafrif o awdurdodau oedd nad oedd yn debygol gael effaith fawr yng Nghymru.
- Pryder am y potensial i fiwrocratiaeth bellach gael ei chyflwyno.
- O ran ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, mae angen mwy o eglurder am ba wybodaeth ddylai aros yn gyfrinachol.
- Ai'r system gynllunio yw'r ffordd briodol o gyflwyno set mwyfwy eang o amcanion polisi?

Ymatebion i Argymhellion Killian Pretty ar gyfer Lloegr

- 2.55 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ymateb i rai o brif argymhellion Adroddiad Killian Pretty ar gyfer diwygio'r system gynllunio yn Lloegr ac i roi eu barn am i ba raddau y gallai rhai o'r syniadau dros ddiwygio fod yn flaenoriaeth uchel, yn flaenoriaeth isel neu heb fod yn flaenoriaeth yng Nghymru hefyd.

Gwneud y System yn fwy Cymesur

- 2.56 O ran argymhellion KPR ar wneud y system yn fwy cymesur, cytunodd 81% o ymatebwyr y dylai gwella ansawdd y cyngor sydd ar gael i ddefnyddwyr y system fod yn flaenoriaeth uchel. Yr awgrym mwyaf poblogaidd nesaf oedd lleihau'r gofynion gwybodaeth a dilysu, yn enwedig yn achos ceisiadau deiliaid tai a mân ddatblygiad, y credai 32% o ymatebwyr y dylai fod yn flaenoriaeth uchel a 55% y dylai fod yn flaenoriaeth isel. Credai 23% o ymatebwyr y dylai lleihau nifer y ceisiadau y mae angen caniatâd ar eu cyfer fod yn flaenoriaeth uchel, gyda 50% yn datgan y dylai hyn fod yn flaenoriaeth isel a 27% na ddylai fod yn flaenoriaeth.

Gwneud y broses yn fwy effeithiol

- 2.57 Argymhelliad mwyaf poblogaidd KPR o ran gwneud y broses yn fwy effeithiol oedd buddsoddi mewn gwelliannau wrth brosesu ceisiadau (a raddiwyd yn flaenoriaeth uchel gan 82% o ymatebwyr). Hefyd graddiwyd gwelliannau i drafodaethau cyn-ymgeisio (68%), mesurau i wella cyd-drafod a chytuno rhwymedigaethau cynllunio (68%) a dod o hyd i ffyrdd i osgoi'r angen am geisiadau cynllunio llawn newydd i ddelio â newidiadau perthnasol bach i ganiatadau presennol (64%) yn fesurau blaenoriaeth uchel gan fwyaf cryf o ymatebwyr. Cafodd gwella defnydd amodau cynllunio ei raddio'n flaenoriaeth uchel gan 41% o ymatebwyr, blaenoriaeth isel gan 36% a heb fod yn flaenoriaeth gan 23%.

Argymhellion i wella ymgysylltu

- 2.58 Roedd cefnogaeth gan ymatebwyr i'r cynigion i wella ymgysylltu â'r system gynllunio yn is nag i setiau eraill o fesurau. Serch hynny, roedd cryn gefnogaeth dros wella cyfranogiad ymgynghoreion statudol ac anstatudol a thros wella ymgysylltiad aelodau etholedig a chanolbwyntio ar geisiadau pwysicaf (cafodd y ddau beth hyn eu ffafrio fel blaenoriaeth uchel gan 55% o ymatebwyr). Hefyd mynegwyd cefnogaeth dros fesurau i wella ymgysylltiad cymunedol (a raddiwyd yn flaenoriaeth uchel gan 45%), ac roedd annog defnydd ehangach ar ymagweddau datrys anghydfod amgen drwy gydol y broses gan gynnwys cyfryngu ffurfiol yn flaenoriaeth uchel gan 23%.

Argymhellion i gyflawni newidiadau mewn diwylliant

- 2.59 Yn ôl pob golwg, barn Awdurdodau Cynllunio Lleol yw bod safon ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd yn broblem sylweddol, gyda 100% o ymatebwyr o blaid rhoi blaenoriaeth uchel i wella safon y ceisiadau a gyflwynir. O ran mesur llwyddiant y system gynllunio ar hyn o bryd, cytunodd 86% o ymatebwyr y dylai targedau ar sail amserlen gael eu disodli gan fesurau ehangach o'r broses ymgeisio fel blaenoriaeth uchel. I 68% o ymgeiswyr roedd ymdrin â'r prinder sgiliau ac adnoddau mewn adrannau cynllunio yn flaenoriaeth uchel.

Argymhellion i ymdrin â chymhlethdod

- 2.60 Mynegwyd cefnogaeth gryf hefyd o fewn ymatebion yr holiadur dos fesurau i ymdrin â chymhlethdod y system gynllunio bresennol gydag 82% o ymatebwyr yn dweud y dylai osgoi ehangu'n ddiangen yr amcanion polisi sydd i'w cyflwyno drwy'r system gynllunio fod yn flaenoriaeth uchel. Nodwyd symleiddio'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth eilaidd prosesu ceisiadau cynllunio fel blaenoriaeth uchel gan 82% o ymatebwyr.

3.0 Penawdau o'r Grwpiau Ffocws a Chyflwyniadau Eraill

- 3.1 Roedd y sesiynau grwpiau ffocws yn ffynhonnell wybodaeth bwysig oddi wrth ymgeiswyr a'r rhai sy'n cyfrannu at benderfyniadau cynllunio a'r datblygiad sy'n dilyn neu yr effeithir arnynt. Fel yr holiadur i awdurdodau cynllunio lleol, darparodd y grŵp llywio fewnbwn arwyddocaol hefyd i fformat a chyfansoddiad y grwpiau ffocws. Mae rhestr o'r mynychwyr a'r sawl a roddodd gyflwyniadau ysgrifenedig i'w gweld fel Atodiad 3 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
- 3.2 Cynhaliwyd y sesiynau yng Ngogledd a De Cymru a'u seilio ar restr o gwestiynau craidd a adlewyrchodd y prif ystyriaethau wrth ddiwygio'r system:
1. Beth yw neu beth ddylai fod prif ddiben y broses ceisiadau cynllunio – yn eich barn chi pa mor addas at y diben hwnnw y mae'r broses
 2. Beth yw prif effaith y broses ar eich buddiant/sefydliad chi
 3. Beth sydd orau a gwaethaf am y broses – beth yw'r rhannau neu'r cyfnodau cryf a pha rai sy'n wannach
 4. Yn eich barn chi pa mor dda mae'r broses yn adlewyrchu ac yn ymateb i bolisi, arweiniad a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol
 5. A yw'n annog y swm cywir o ymgynghori a chyfranogiad cyhoeddus
 6. A oes gan yr awdurdodau cynllunio'r adnoddau priodol i reoli'r broses a chymryd y penderfyniadau cywir. Beth maent yn ei wneud yn dda a ble maent yn cael anawsterau
 7. Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r system
 8. Sut dylai llwyddiant y broses gael ei fesur yn y dyfodol a beth ddylai'r nodau pennaf fod
 9. Beth fyddai eich targedau chi ar gyfer diwygiad
 10. Sut mae nodi a hyrwyddo arfer da ac ymdrin â'r arfer gwael - sut mae cyfleu'r neges yn fwyaf effeithiol a sicrhau ei bod yn cael ei dilyn
- 3.3 O ran **Diben** ac **Addasrwydd at y Diben**, dau safbwynt sylfaenol a welwyd yn y grwpiau ffocws am rôl a pherfformiad cyffredinol y broses gynllunio:

1. Roedd yr un cyntaf yn gadarnhaol yn gyffredinol – roedd sylwebwyr yn gweld rôl y broses ceisiadau cynllunio yn glir: cyflawni'r datblygiad cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a rheoli a gwrthod datblygiad amhriodol. Ym marn y sylwebwyr hyn roedd y system yn dal yn addas at y diben hwn ond roedd angen ei diwygio a'i moderneiddio i ganiatáu ffocws gwell ar benderfyniadau allweddol ac ystyriaethau mwy modern.
 2. Roedd yr ail safbwynt yn llai cadarnhaol. Roedd y system wedi dod yn rhy araf, yn or-fiwrocraidd ac yn nesáu at gyflwr methu. Efallai ei bod yn syml diffinio diben ar ei chyfer ond roedd ei gweithredu'n llwyddiannus yn amhosib. Roedd cael gafael ar staff rhesymol â chymwysterau addas yn anodd ac roedd yr ymagwedd gyffredinol at y datblygiad a gynigir mewn ceisiadau yn negyddol - roedd rhagdybiaeth yn erbyn cynigion wedi disodli dyletswydd i gymeradwyo oni ellir dangos niwed amlwg. Roedd yr ymagwedd hon yn peryglu adfywiad economaidd a buddsoddiad economaidd yng Nghymru.
- 3.4 Mae'r profiad hwn (a'r safbwynt a fabwysiedir) yn dibynnu ar amcanion, cyfrifoldebau a diben neu fath yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud neu sy'n penderfynu'r cais. Nid oedd gan yr un parti, fodd bynnag, drefn sylweddol wahanol i'w chynnig, ac eithrio cyfeiriad at brif dir Ewrop ac at weithrediad systemau sydd ar waith yn yr Almaen a Sweden.
- 3.5 Yng ngoleuni hyn, roedd y materion a godwyd yn weddol cyffredin beth bynnag y safbwynt at y system (sef "yn gyffredinol addas" neu "yn nesáu at gyflwr methu"). Gellir crynhoi'r pryderon neu'r cwynion hyn fel a ganlyn:
1. Yr angen am brofiad mwy cyffredin, dibynadwy neu unedig - mae gweithrediad y system yn rhy amrywiol ac anrhagweladwy am wlad fach sydd â (chymharol) ychydig o awdurdodau cynllunio. Mae hyn yn digwydd drwy gydol y broses ymgeisio, ond yn bwysicaf yn y cyfnodau cyn-ymgeisio, dilysu ac ystyried. Credai'r cyfranogwyr fod amrywiol adnoddau, arbenigedd a phrofiad pob awdurdod cynllunio lleol yn golygu bod y system ymgeisio yng Nghymru yn gweithredu mewn 25 o wahanol ffyrdd a bod hyn yn peri anhawster gwirioneddol i bawb.
 2. Costau, ansicrwydd (ar bob cam o ddilysu i benderfynu) ac amserlen oedd y prif gwynion oddi wrth y diwydiant datblygu, ynghyd â graddfa a chyflwyniad mympwyol gofynion newydd ac ychwanegol (ac yn arbennig Datganiadau Dylunio a Mynediad). Mae'r gofynion newydd (yn enwedig o ran lefel y manylion sydd i'w dangos neu eu hasesu) yn golygu bod rhai cyrff (ac adeiladwyr tai yn arbennig) o'r farn nad yw caniatadau cynllunio amlinell o fawr o werth erbyn hyn.

3. Gwelwyd trefniadaeth a phersonoliaeth o fewn awdurdodau cynllunio fel bod yn bwysig iawn i gyflawni'r broses ceisiadau cynllunio, ynghyd â sefyllfa ac enw da cyffredinol sydd gan y swyddogaeth gynllunio o fewn yr awdurdod. Enwebodd nifer o gyfranogwyr yn y Grwpiau Ffocws (gan gynnwys sawl cynrychiolydd y diwydiant adeiladu tai) enghreifftiau o awdurdodau sydd yn eu barn hwy yn flaengar neu mewn rhyw ffordd yn dda i ddelio â hwy. Roedd y rhai a enwyd amlaf yn tueddu i fod yn rhai â phrif swyddogion cryf (gan gynnwys Caerffili, Caerdydd a Bro Morgannwg) neu wedi mynd i'r afael â phroblemau (Castell-nedd Port Talbot). Gwnaeth rhai sylwebwyr yn glir fod strwythur sefydliadol yn llawer llai pwysig yn eu barn hwy na phresenoldeb unigolion cryf.
4. Ar wahân i hyn, nododd y Grwpiau Ffocws yr angen am well gweithio trawsffiniol. Roedd tri dimensiwn i hyn, sef:
 - a) yr angen am well gweithio ar gynlluniau ag effeithiau neu oblygiadau trawsffiniol;
 - b) yr angen i rannu gwasanaethau, arbenigedd ac adnoddau gan a rhwng awdurdodau (yn enwedig lle byddai hyn yn llenwi bylchau mewn adnoddau neu arbenigedd - gweler isod);
 - c) yr angen am ddimensiwn rhanbarthol cryfach mewn polisi cynllunio.
5. Roedd y pwyntiau hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cynlluniau sy'n ymwneud ag isadeiledd, gwastraff, mwynau ac ynni adnewyddadwy, neu gynlluniau â phwysigrwydd rhanbarthol a/neu genedlaethol (ond mae'n bosibl bod hyn yn ofynnol ar gyfer prosiectau mawr eraill hefyd).
6. Codwyd yr amrediad cynyddol o faterion sydd wedi dod yn "berthnasol" i geisiadau cynllunio gan amryw o gyrff. Mae rhai yn gweld y system gynllunio fel yr ateb i bopeth, ac roedd wedi dod yn anodd rhagweld sut y byddai awdurdod yn codi neu'n ymdrin â materion, ymgynghori arnynt a'u datrys neu eu cydbwysu wrth benderfynu ceisiadau. Roedd hyn yn arbennig o wir gyda materion amgylcheddol. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod swyddogaeth (a gallu) cydbwysu swyddogion cynllunio i ystyried a chymodi rhwng materion ac agendâu yn dechrau diflannu. Roedd rhai yn gweld y proffesiwn fel dim byd ond blwch post canolog a gymerodd ac a ddsbarthodd wybodaeth heb y gallu neu'r hyder i farnu'r wybodaeth honno neu ddod i gasgliad yn ei chylch.

7. Bydd yr agenda Carbon Isel yn cynyddu'r baich ar Awdurdodau Cynllunio Lleol. Bydd cyflymder y newid a'r addasu y bydd eu hangen yn her ac yn anodd ei reoli efallai – bydd rhai awdurdodau llai o faint yn ei chael yn anodd (ond efallai na fydd arnynt gynifer o adnoddau ag eraill) – gan bwysleisio'r angen i rannu gwasanaethau ac am brofiad / arbenigedd symudol/hygyrch (gweler isod).
8. Pryder penodol oedd defnydd a pherfformiad ymgynghoreion statudol. Roedd y diffyg adnoddau ac arbenigedd o fewn awdurdodau lleol (unwaith eto gweler isod) yn golygu'n aml bod yr ymgynghoreion statudol yn cael eu trin fel ffynhonnell arbenigedd a barn (ac argymhellion). Mae'n bosibl y bydd yr IPC yn cynyddu'r galwadau ar yr ymgynghoreion statudol. Roedd eraill yn gweld yr ymgynghoreion hyn fel bod yn araf iawn, neu'n negyddol iawn, tra bod yr ymgynghoreion yn gweld gormod o ymgynghori (ar brosiectau neu faterion nad oeddent yn haeddu atgyfeirio) fel peth a oedd yn tynnu eu sylw'n ddiangen ac yn draenio eu hadnoddau prin eu hunain.
9. Yn hyn o beth, roedd llawer (os nad pob un) o'r ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio'r angen am gysylltiadau gwell rhwng y broses ceisiadau cynllunio a phroses y cynllun datblygu lleol. Byddai hyn o gymorth wrth lywio cyfraniadau oddi wrth yr ymgynghoreion am flaengynlluniau (a dyraniadau) ac wrth nodi ble na ddylai materion egwyddor gael eu hailystyried adeg ymgeisio. Mewn rhai achosion roedd y cysylltiad rhwng polisiâu'r cynllun datblygu a phrosesu ceisiadau yn dod yn llai amlwg (cafodd yr adolygiad ei feirniadu yn hyn o beth am rannu'r ddau).
10. Cyfeiriodd y mwyafrif o bartïon at rôl, potensial a pherfformiad Llywodraeth y Cynulliad ar draws llawer o'i swyddogaethau ac adrannau. Roedd y cyfeiriadau'n gadarnhaol ac yn negyddol (ond nododd pob un bwysigrwydd gwirioneddol LICC i'r broses ceisiadau cynllunio). Roedd pum dimensiwn i hyn, sef:
 - a) LICC fel gwneuthurwr a lluniwr polisi (mewn perthynas ag arweiniad cenedlaethol a chynghor cynllunio gofodol ar sail genedlaethol ac isranbarthol).
 - b) LICC fel penderfynwr
 - c) LICC fel adnodd (a ffynhonnell arbenigedd)
 - d) LICC fel barnwr, galluogwr a gorfodwr
 - e) LICC fel ymgynghorai statudol

11. Yn fyr, gwelwyd LICC fel adnodd pwysig posibl ar gyfer cynllunio yng Nghymru (fel ffynhonnell cyngor, arbenigedd, cyflafareddu ac arweiniad) ond hefyd fel creu ansicrwydd (naill ai drwy wrthdrawiad neu anghysondeb polisi, arweiniad neu'n fewnol) ac ymyrraeth ddiangen neu ddieisiau (yn enwedig, yn ôl rhai partïon, drwy ei ddefnydd ar bwerau galw i mewn a gweithrediad y weithdrefn ar ôl i gais gael ei adfer).
12. Hefyd soniwyd am ansawdd a chysondeb arweiniad a gyhoeddir (er enghraifft yr arweiniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad). Amlygwyd hefyd y pwysau y gallai LICC ei ddwyn o ran hybu cydweithio rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol. Felly hefyd rôl LICC wrth annog ACLI i feddu ar gynlluniau datblygu cyfoes.
13. Mae bylchau pwysig mewn dealltwriaeth ac adnoddau yn bodoli o fewn awdurdodau cynllunio – yn fwyaf nodedig o ran hyfywdra datblygiad, adeiladau hanesyddol, amaethyddiaeth, mwynau a dylunio trefol. Dau ddimensiwn sydd i'r diffyg adnoddau hwn – y naill yn deillio o fylchau technegol penodol (gyda rhai awdurdodau heb swyddogion mewn disgyblaethau penodol – pwysleisiwyd meysydd cadwraeth, dylunio, tirlun, mynediad a chydraddoldeb) a'r llall o ddiffyg dealltwriaeth o'r rhesymeg tu ôl i gynlluniau neu gynigion a pham maent yn bwysig i fusnesau neu fuddiannau eraill ymgeiswyr (neu pam mae effeithiau'r cynlluniau hyn yn bwysig i bobl yn y gymuned/amgylchedd ehangach).
14. Codwyd gwerth cyngor cyn-ymgeisio effeithiol ym mhob grŵp, gan gynnwys yr ymgynghoreion statudol – a deimlai'n aml fod yr ymwneud yn rhy hwyr. Roedd safbwyntiau am gwmpas a phrotocol yn wahanol iawn, fodd bynnag. Ar un pen y raddfa, a chan fabwysiadu ymagwedd fwy rhagofalus, y farn oedd na ddylai'r swyddog cyn-ymgeisio fod y swyddog achos, neu y dylai cyngor cyn-ymgeisio fod yn gyfyngedig i'r hyn a fydd yn ofynnol (heb gynnig barn ar ragolygon cais). Daethpwyd i farn fwy cyffredinol a olygai y dylai cyngor cyn-ymgeisio, i fod yn ystyrion, roi rhywfaint o arweiniad am ragolygon ac ystyriaethau pwysig (yn enwedig pethau a fyddai'n atal cais). Ystyriwyd bod dull defnyddio goleuadau traffig yn briodol ac yn achos rhai cynlluniau y dylai trafodaethau cyn-ymgeisio fod yn orfodol (ac amlygwyd gweithdrefn yr IPC fel enghraifft o hyn). Codwyd y cwestiwn hefyd o bwy ddylai gael eu cynnwys mewn trafodaethau.
15. Roedd angen i'r adolygiad gydnabod pwysigrwydd cynlluniau bach a chanolig i adferiad a ffyniant economaidd. Ni ddylai ffocws ar geisiadau mawr iawn (fel targed sylw, adnoddau neu arweiniad) neu rai bach iawn (fel ffordd o ryddhau adnoddau ar gyfer y ceisiadau mawr iawn) anwybyddu'r mwyafrif o geisiadau am ganiatâd cynllunio (sy'n cael eu trin ar hyn o bryd fel ceisiadau mawr). Ategwyd hyn gan bwynt cyffredinol am yr angen am

ymateb cymesur i'r broses ceisiadau cynllunio sy'n cydnabod y cynlluniau y mae'n rhaid iddi ymdrin â hwy amlaf.

16. Codwyd amodau cynllunio hefyd gan nifer o sylwebwyr. Dwy agwedd oedd i hyn. Yn gyntaf, defnydd amodau gan awdurdodau cynllunio lle codwyd pum ystyriaeth:
 - a) y diffyg ymgynghori ar yr amodau gyda'r ymgeisydd a/neu ychwanegu amodau'n hwyr mewn ymateb i ymatebion hwyr neu dechnegol
 - b) effaith amodau ar ddefnyddioldeb y caniatâd a roddir
 - c) y gofynion beichus (ac aneglur weithiau) y gallant eu gosod
 - d) nifer yr amodau sy'n cael eu cysylltu
 - e) nifer yr amodau y mae ganddynt ofyniad cyn-dechrau
17. Yn erbyn hyn roedd barn gyferbyniol ynghylch cyflawni amodau. Dau brif bryder a welwyd yma. Yr un cyntaf oedd bod cryn gamddefnydd ar amodau gydag ychydig o gosb, a'r ail oedd mai ychydig iawn o ymgynghori a gafwyd mewn perthynas â chyflawni amodau. Hefyd soniwyd am fonitro a yw caniatadau wedi cael eu gweithredu yn unol â'u telerau ac amodau a honnodd llawer mai anaml y gwneir hyn - ond dyma'r prawf hollbwysig a yw'r system yn gweithio.
18. Yn gysylltiedig â hyn roedd pryder cyffredinol am gyflwr gorfodi – er ni fanylwyd ar y pwynt hwn yn fawr iawn ar wahân i'r diffyg adnoddau sydd ar gael.
19. Yn ogystal â'r pwyntiau hyn codwyd nifer o faterion mwy penodol (ond pwysig serch hynny) gan rai o'r grwpiau. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn:
 - a) Mae angen arfer protocolau a phwerau dirprwyo'n fwy effeithiol. Mae pryder o hyd y gall ac y bydd aelodau yn anwybyddu cyngor swyddogion am resymau annilys ac mae hyn yn parhau i beri anhawster.
 - b) Mae effaith cynlluniau sydd eisoes wedi cael caniatâd yn bwysig a gall ddylanwadu neu gyfyngu cynlluniau newydd (hyd yn oed lle nad oes fawr o ragolygon o'i weithredu).
 - c) Amheuwyd ansawdd adrodd ysgrifenedig i esbonio a chefnogi argymhellion.
 - d) Codwyd dimensiynau neu ystyriaethau sydd ar goll gan rai sylwebwyr hefyd – cyfeiriwyd yn benodol at faterion

cydraddoldeb, mynediad a rhyw wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

- e) Pwys cyfyngedig yn cael ei roi ar wobrwyo awdurdodau cynllunio yn ôl cyflymder penderfyniadau (drwy'r cynllun cyflwyno cynllunio) neu ar sefydlu cytundebau perfformiad cynllunio (fel ffordd fwy contractiol o warantu cynnydd).
20. Mae'r pwynt olaf hwn yn tanlinellu'r pwys amrywiol a roddodd sylwebwyr ar ddilyn enghreifftiau neu fentrau o Loegr. Roedd rhai yn gweld arfer yno fel bod yn well a rhai fel bod yn waeth. Roedd y mwyafrif, fodd bynnag, yn gweld y cyfle am ymateb Cymreig gwahanol – oherwydd y cyfle a gyflwynir gan y nifer fach o awdurdodau cynllunio ac oherwydd yr ystyriaethau a'r heriau gwahanol a wynebir. Amlygwyd hefyd y cyfle a gyflwynodd hyn i Gymru ddefnyddio'r system gynllunio i ddenu datblygiad a buddsoddiad economaidd pellach.

Argymhellion Allweddol o'r Grwpiau Ffocws

- 3.6 Roedd llawer o'r argymhellion a wnaed yn sesiynau'r grwpiau ffocws yn adlewyrchu'r pryderon a godwyd (ac a grynhoir uchod). Ar y lefel fwyaf sylfaenol, argymhellodd rhai sylwebwyr y dylai man cychwyn i'r system gael ei ddiwygio neu ei ailystyried i'w gwneud yn glir bod yna ragdybiaeth o blaid cynigion datblygu (a gynhwyswyd yng nghylchlythyr 14/85 sydd wedi ei ddiddymu erbyn hyn). Dadleuodd rhai sylwebwyr nad yw'r cyfrifoldeb hwn i gymeradwyo (oni ddangosir niwed) erioed wedi cael ei ddiddymu mewn gwirionedd. I'r cyfranwyr hyn roedd y system wedi dod yn rhy feichus ac yn rhy betrus, ac roedd angen ei ailwampio'n fawr iawn er mwyn symleiddio gweithdrefnau, ychwanegu mwy o sicrwydd neu ddibynadwyedd (ac arweinyddiaeth), gwella hygyrchedd ac ymatebolrwydd, a blaenoriaethu cyflwyno datblygiad angenrheidiol.
- 3.7 Mewn manau eraill roedd y flaenoriaeth ar wneud gwelliannau penodol i berfformiad y broses bresennol.
- 3.8 I adlewyrchu'r set resymol gyffredin o faterion a godwyd gan y grwpiau, (pa farn bynnag a fabwysiadwyd), roedd yr argymhellion yn debyg yn fras o ran eu cwmpas gyda ffocws ar arfer yr un mor bwysig â newidiadau i ddeddfwriaeth neu weithdrefn (ac efallai'n fwy hynny na newidiadau mwy dramatig i statud neu ddiben). Gwelir rhestr sylfaenol o'r prif argymhellion a wnaed yn y Grwpiau Ffocws isod:
- 1. Darparu arweiniad ar gwmpas a chynnwys cyngor cyn-ymgeisio, mewn cyfuniad â chyngor a hyfforddiant ar ystyriaethau perthnasol ym maes cynllunio. I rai grwpiau busnes llai o faint (neu'r sawl sy'n cyflwyno ceisiadau cynllunio yn llai aml) gwelwyd

yr arweiniad llywio hwn drwy'r system, ei diben a'r hyn mae'n debygol o'i ystyried, fel rhywbeth hanfodol.

2. Rôl wahanol a gwell i LICC a gynhwysai bennu'r fframwaith deddfwriaethol, ond yn mynd y tu hwnt i hyn i ganolbwyntio ar
 - a) arfer gorau o ran datblygiad a lledaeniad
 - b) arweiniad cliriach a mwy cyson
 - c) ffurfiau newydd o gyflafareddu
 - d) cyhoeddi'r arweiniad hwn yn fwy rheolaidd a threfnu ei fod ar gael
 - e) polisi rhanbarthol ac isranbarthol
 - f) gorfodwr o ran cynlluniau datblygu lleol a chydweithio a gweithredu arfer (roedd y Llawlyfr Strydoedd yn darged allweddol i rai grwpiau)
 - g) ffynhonnell arbenigedd materion Cymru-gyfan (gweler isod)
3. Arweiniad brys ar yr ymagwedd sydd i'w mabwysiadu at Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yn nhermau'r sbardun (sef y math o gais y bydd ac na fydd datganiadau'n angenrheidiol ar eu cyfer) a'r goblygiadau i swyddogaeth, fformat, dilysu a chofrestru. Symud i ffwrdd o gael y penawdau cywir i gael cyflwyniadau priodol a chymesur ystyrllon.
4. Pwyntiodd profiad gyda Datganiadau Dylunio a Mynediad at ymagwedd fwy rhagofalus at gyflwyniadau mandadol pellach ar gyfer ceisiadau cynllunio.
5. Datblygiad posibl adnodd ar gyfer materion, prosiectau a heriau allweddol a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol awdurdodau neu brosiectau. Gallai hwn fod yn gyfrifoldeb awdurdodau allweddol neu ei leoli'n ganolog (fel darparwr gwasanaethau ac arbenigedd a rennir). Gallai model ATLAS gael ei ddilyn ar gyfer prosiectau mawr, er bod yr awdurdodau yn ôl pob golwg yn perfformio'n dda ar gynlluniau mawr. Mae hyn yn dod yn gynyddol bwysig a pherthnasol wrth i awdurdodau wynebu anawsterau a chyfyngiadau adnoddau ar yr un pryd ag y mae ffurfiau newydd datblygiad ac ystyriaethau perthnasol newydd yn cael eu cyflwyno (er nid i gyd ar yr un pryd ac nid am bob cynllun na phob awdurdod). Efallai bod gan yr IPC wersi ar gyfer y cyfryw gorff. Dylai'r adnodd gael ei dargedu at y materion hynny sy'n peri pryder cyffredinol neu lle mae'r system cynllunio yn methu ag ymateb.

6. Cyflwyno arweiniad ar y strwythurau sefydliadol a'r arferion gweithio mwyaf effeithiol. Mae'r cyfle a gyflwynir gan yr adolygiad i wella gweithrediad y system yng Nghymru yn gyflym ac yn gadarnhaol (oherwydd y nifer fach o awdurdodau cynllunio) yn arwyddocaol ac yn cael ei gydnabod. Fodd bynnag, mae yn dibynnu'n hollbwysig ar bersonoliaeth ac enghraifft. Mae'n (gymharol) syml nodi mesurau sefydliadol - ond roedd y Grwpiau Ffocws yn cydnabod mai busnes sy'n ymwneud â phobl yw cynllunio a phwysleiswyd pwysigrwydd swyddi allweddol a chymeriadau allweddol.
7. Pwysleiswyd yr angen am gysylltiad gwell rhwng cynigion mewn Cynlluniau Datblygu Lleol cyfredol a cheisiadau cynllunio amdanynt (gyda honiad y dylai ceisiadau sydd yn amlwg yn cydymffurfio â dyraniadau cynlluniau gael eu trin yn wahanol i rai eraill). Mae hyn yn adlewyrchu pwynt cyffredinol nad oedd effaith dyraniadau positif weithiau mor hollbwysig i gais cynllunio ag y mae'r ddeddf a'r canllawiau'n awgrymu.
8. Cyflwyno arweiniad safonol ar ofynion dilysu.
9. Ystyried diffiniad diwygiedig o gynlluniau mawr a rhai mân (neu ychwanegu lefel ganolig) mewn cysylltiad â'r gofynion dilysu uchod, lle byddai rhai mawr yn gofyn am bopeth, rhai bach yn gyffredinol dim byd yn ategol ac yn achos rhai canolig byddai'n ddewisol. Ni argymhellwyd dilyn ymagwedd a geir yn Lloegr lle gallai popeth fod yn ofynnol uwchlaw trothwy bach iawn.
10. Adolygiad o GDPO ar yr ymgynghori statudol er mwyn egluro lle roedd angen hyn a lle nad oedd. Gallai'r adolygiad hwn ystyried a allai ymgynghoreion statudol gael eu harwain hefyd i ddarparu cyngor heb argymhelliad neu wrthwynebiad (a allai gael ei gadw ar gyfer amgylchiadau lle roedd yn debyg y câi niwed gwirioneddol ei wneud). Lle bo ymgynghoreion yn methu ag ymateb mewn pryd, gallai fod yn bosibl cyflwyno system o gymeradwyaeth/ dim sylwadau/dim gwrthwynebiad tybiedig – er bod hyn yn codi ystyriaethau o ran diogelwch barnwrol ac ymyrraeth yn y dyfodol.
11. Adolygiad o GPDO ac UCO i leihau ymhellach nifer y ceisiadau mae eu hangen, ond ystyried yn ofalus goblygiadau'r rhain ac a oes mecanweithiau eraill ar gael i gadw rhywfaint o reolaeth (er enghraifft caniatâd tybiedig a allai gael ei ddyfeisio drwy orchymyn lleol – neu broses hysbysu ymlaen llaw), neu dechnegau eraill ac arweiniadau arfer i sicrhau nad yw ceisiadau llai o faint yn llyncu adnoddau anghymesur.
12. Cyfuno hyn â phrotocolau ar gyfer awdurdodau cynllunio ar y diwygiadau mân neu heb fod yn berthnasol i gynlluniau na fyddant

yn sbarduno'r angen am geisiadau neu ganiatadau newydd. Amheuwyd dilyn ymagwedd Lloegr yn syml (gan fod hon eisoes yn peri peth anhawster).

13. Adolygiad o ddefnydd amodau cynllunio. Yn ôl pob golwg roedd ymarferwyr wrthi'n gyson yn dal i fyny â gofynion newydd, ystyriaethau newydd a chasgliadau cyfreithiol am gwmpas amodau ac effaith eu gweithredu. Ystyriwyd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ffynhonnell ddefnyddiol bosibl cyngor am amodau cynllunio, er y byddai angen cynnal adolygiad ehangach a gynhwysai gysyniadau sylfaenol (gan gynnwys darparu ar gyfer diwygio) ac ystyriaethau manylach (er enghraifft defnydd amodau i fynnu cytundebau adran 106 / rhwymedigaethau) (ond gallai fanteisio ar brofiad sy'n cael ei ddatblygu mewn manau eraill).
14. Gwnaed sawl pwynt ynghylch proffil, statws ac enw'r proffesiwn cynllunio. Roedd gwell hyfforddiant ac addysg i swyddogion yn hanfodol, a phwysleisiwyd datguddiad cynnar i benderfynu priodol a chymodi materion ar gyfer swyddogion iau. Rhaid dechrau gwaith ar fyrder ar ymgyrch hyrwyddo fwy cyffredinol ar gyfer y proffesiwn a thema gyson oedd yr angen am gysylltiad mwy rheolaidd rhwng awdurdodau a rhwng asiantaethau ar y materion sy'n wynebu'r system a goblygiadau hyn ar gyfer y broses ceisiadau cynllunio.
15. Hefyd codwyd nifer o bwyntiau mwy penodol am:
 - a) Defnyddio'r porth cynllunio yn fwy a/neu yn well.
 - b) Y sefyllfa o ran y Doll Isadeiledd Cymunedol yng Nghymru. Codwyd pryderon am y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda'r LDPs (fel sbardun am ddefnydd CIL) a phriodoldeb CIL ac arweiniad mwy cyffredinol am rwymedigaethau cynllunio dan yr amgylchiadau presennol (a allai ddenu datblygiad i Gymru).
 - c) Hyfforddiant gwell a mwy rheolaidd i aelodau – ynghyd ag arweiniad mwy cyson am ddirprwyo (i wella cysondeb) ac arweiniad mwy cadarn am ganlyniadau aelodau yn ymadael a'r darpariaethau i leihau'r rhain.

4.0 Themâu Allweddol ar Gyfer Diwygio a Newid

- 4.1 Mae canfyddiadau holiadur yr awdurdodau cynllunio lleol a'r grwpiau ffocws yn dangos proses ceisiadau cynllunio sydd dan bwysau amlwg. Er ei bod yn parhau i wneud penderfyniadau ar geisiadau, mae'n amlwg bod diffygion yn bodoli a bod angen newid.
- 4.2 Rhan o'r rheswm am hyn yw bod y system wedi cael cymaint o gyfrifoldeb, ar adeg pan fo diddordeb a chraffu yn dod yn llawer cryfach. O ganlyniad, mae'r broses yn dod yn fwyfwy cymhleth, yn llyncu mwy o amser ac (i rai) yn anghymesur o ddrud ac anodd. Mae hyn yn creu ansicrwydd i bawb sy'n ymwneud â'r broses. Gall y canlyniadau posibl, y gofynion ymgeisio, a'r amserlenni amrywio mor sylweddol a newid mor gyflym ei bod yn anodd iawn mewn rhai achosion i fuddsoddwyr, ymgeiswyr, busnesau, y gymuned leol, grwpiau diddordeb amgylcheddol ac awdurdodau cynllunio wybod yn union sut y dylai neu sut y bydd ceisiadau'n cael eu hystyried, faint o amser a gymer, pa ystyriaethau a fydd yn hanfodol a beth fydd y canlyniad terfynol (a sut y daw a beth fydd yn ei olygu).
- 4.3 Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Gymru, er bod heriau penodol yn cael eu cyflwyno gan amgylchedd y genedl, a hyd yn oed lle bo polisi cynllunio yn gadarnhaol, gall ceisiadau gael eu hoedi. Daw llawer o'r heriau hyn o bolisi amgylcheddol cynyddol sydd wedi gweld twf cyflym yn nifer ac amrediad y ffactorau y mae angen eu hystyried a'r cymhlethdod sydd ynghlwm wrthynt. Mae cynllunio yn cael ei weld fel mecanwaith allweddol ar gyfer cyflwyno rheolaeth newydd, ac mae'r cyfrifoldeb hwn yn peri cryn bryder, anhawster, oedi ac ansicrwydd. Tanlinellwyd hyn gan y dystiolaeth a gasglwyd o holiaduron yr ACLI a sesiynau'r Grwpiau Ffocws. Ar yr un pryd ag y mae'r lefel gyfrifoldeb yn cynyddu, mae'n amlwg hefyd nad yw proffil y swyddogaeth gynllunio yn cael ei gydnabod na'i ddeall ac mae i hyn oblygiadau difrifol ar gyfer datblygiad a pherfformiad proffesiynol.
- 4.4 Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad cymhlethdod yw unig achos anhawster, oedi neu benderfyniadau gwael neu anragweladwy. Mae rhesymau eraill yn bodoli y ceir mwy o reolaeth drostynt ac i rai fe allai fod o ganlyniad i fethiant i gydnabod neu weithredu canllawiau cenedlaethol.
- 4.5 Un enghraifft a amlygwyd gan un cyfrannwr at yr adolygiad oedd amharoddrwydd rhai awdurdodau priffyrdd lleol i weithredu meddwl, canfyddiadau ac argymhellion "Y Llawlyfr Strydoedd"⁴. Roedd hyn yn peri anawsterau penodol wrth gyflawni dylunio da a modern (yr oedd ymgeiswyr yn fras yn deall yr angen amdano).

⁴ Disodlodd "Y Llawlyfr Strydoedd" Fwletin Dylunio 32, "Layout of Residential Roads and Footpaths".

- 4.6 Eir i'r afael â'r amharodrwydd hwn ac, er na fydd y canlyniadau'n hysbys mewn pryd am gasgliad yr astudiaeth hon, mae'r fenter hyfforddi (gweler isod) yn cynnig cyfeiriad pwysig o ran sut y gellir datrys rhai materion ymarferol heb deddfwriaeth nac ymyrraeth y llywodraeth.

Cyngor Ymarferol 1: Y Llawlyfr Strydoedd – Menter Hyfforddi

Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Comisiwn Dylunio Cymru, RTPI Cymru, Sefydliad Siartredig Logisteg a Thrafnidiaeth, a Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth, wahoddiad i dendro i ddarparu hyfforddiant i hyrwyddo dylunio trafndiaeth integredig. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys gweithredu dyheadau'r Llawlyfr Strydoedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007. Yr awgrym clir yw nad yw hyn yn digwydd, fel y dywed y tendr yn ddiplomataidd:

“Mae'r polisi yn ei le i gyflwyno (lleoedd llwyddiannus a datblygiad cynaliadwy). Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod pob partner yn parhau i weithio gyda'i gilydd i greu manau gwych i fyw”

Disgwylir i'r hyfforddiant ddigwydd ym Mai a Mehefin 2010 (os bodlonir yr amserlen). Disgwylir i'r canlyniadau a'r adborth gael eu cyhoeddi ym mis Awst 2010.

- 4.7 Mae'r math hwn o fenter sydd eisoes wedi ei hailadrodd ar gyfer amrywiaeth o bynciau gwahanol yn ffordd werthfawr o gyflawni diwygiad ymarferol y broses ymgeisio - yn enwedig lle bo deddfwriaeth a newid eisoes wedi digwydd ond lle bo arfer yn methu â symud ar yr un cyflymder â'u gofynion.

Amcanion Newid

- 4.8 Er nad oes angen system gwbl newydd o reoli cynllunio, mae angen newid mawr ar fyrder i'r broses bresennol. Mae'n amlwg bod angen cyflawni hyn mewn modd ymarferol a chost-effeithiol sy'n gwneud y defnydd gorau ar adnoddau prin, ymrwymiad gwleidyddol ac amser deddfwriaethol. Hefyd mae angen i'r adolygiad sicrhau bod y broses yn dechrau o'r man cywir hefyd.
- 4.9 Mae'r holiadur a sesiynau'r grwpiau ffocws fel ei gilydd yn awgrymu'n gryf y dylai newid ganolbwyntio ar dri phrif amcan:
- rheoli cymhlethdod - mewn rhai achosion mae'r system wedi ei gorlwytho ag ystyriaethau a materion, deddfwriaeth, canllawiau, buddiannau cystadleuol neu wrthdrawiadol, cyfranogiad cyhoeddus, ymyrraeth gyfreithiol a chyflymder newid economaidd, technolegol, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- b) lleihau ansicrwydd - er gwaethaf system sy'n honni ei bod yn cymryd y cynllun datblygu yn brif ystyriaeth, hyd yn oed lle bo cynllun yn bodoli nid oes unrhyw sicrwydd y caiff cynigion sy'n cydymffurfio ag ef eu trin yn ffafriol. Lle nad oes cynllun neu bolisi, mae pethau'n llai clir byth. O safbwynt gweithredol, mae'r ansicrwydd hwn ynghylch rhagolygon yn cael ei waethygu gan wahaniaethau arwyddocaol o ran yr hyn sydd ei angen a sut caiff penderfyniadau eu gwneud rhwng awdurdodau (cyffiniol weithiau).
- c) ymatebolrwydd cynyddol (gan bob parti ac ar eu rhan) – i amcanion a gofynion cenedlaethol a lleol ac i ganiatáu cyflwyno ymagweddau hyblyg heb yr angen i ddiweddarau arweiniad neu bolisi (ar hyn o bryd mae'r cyfnod dal i fyny rhwng yr angen am newid yn codi a'r ymateb yn rhy hir).

4.10 Rhoddodd yr amcanion hyn dair thema sylfaenol i'r adolygiad

- a) datblygu **dealltwriaeth** well am sefyllfaoedd cyrff allweddol, eu cyfrifoldebau a'u hamcanion ac effaith penderfyniadau, arweiniad, polisi a gofynion
- b) addasu **diwylliant** neu fan cychwyn cynigion datblygu a'r swyddogaeth rheolaeth neu ofalaeth datblygiad
- c) gwella **gweithrediad** y system (ac o bosibl) gwella perfformiad ar y llawr yn sylweddol (gan gydnabod bod angen i bawb o dan sylw wneud gwelliannau).

4.11 Mae gan y themâu hyn oblygiadau a dibenion gwahanol. Fodd bynnag, maent i gyd yn deillio o'r un man cychwyn neu bryder sylfaenol – sef yr awydd am system fwy sicr a dibynadwy a system fwy *cymesur* - ac o ganlyniad maent yn gysylltiedig yn y bôn. Mae'n amlwg y bydd dealltwriaeth yn llywio diwylliant a fydd yn arwain gweithrediad. Ond bydd profiad gyda gweithrediad hefyd yn help i fireinio dealltwriaeth. Mae'r tri pheth yn rhan o gylch.

4.12 Mae'r themâu felly'n dod yn fwy strwythurol – ac yn ymwneud nid yn unig â gweithrediad y system ond sut mae mynd ati ac ar ba egwyddorion mae wedi ei seilio. Mae angen canolbwyntio ar swyddogaeth rheoli neu gynnig datblygiad ond gwneud hyn o safbwynt sy'n cydnabod y rheswm y tu ôl i'r cais yn ogystal â'r angen am reolaeth a sut mae'r ddau yn adlewyrchu anghenion a gofynion cenedlaethol a lleol. Mae angen i'r broses ymgeisio fod yn holistig, cydnabod ei sefyllfa, ei phwysigrwydd a'i photensial unigryw ond gweld hyn yn gyfle i wneud pethau'n gywir a gwneud cyfraniad positif, yn hytrach nag yn achos paralysis rhagofalus ymhlith y sawl sy'n gwneud penderfyniadau (o ofn gwneud pethau'n anghywir).

- 4.13 Dyma'r rheswm sylfaenol pam mae angen i ddealltwriaeth a diwylliant newid. Fodd bynnag, mae angen i'r newid diwylliannol hwn ddod o ymgeiswyr ac ymgynghoreion (statudol ac anstatudol), o LICC ac o bartïon eraill sydd â buddiant, yn ogystal ag o'r awdurdod cynllunio. Dyma'r rheswm y mae'r amcanion a'r themâu a nodir uchod yn gymwys i bawb sy'n rhan o'r broses ddatblygu, hyd yn oed pan fydd yr argymhellion mwy ymarferol sy'n dilyn wedi eu cyfeirio'n glir at rai cyrff yn benodol.

Ynghylch yr Argymhellion

- 4.14 O'r pwynt hwn ymlaen mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar gyfres o argymhellion. Mae'r rhain yn ymrannu o dan y tair thema a nodir yn yr adran hon ac mae llawer yn deillio o ganfyddiadau'r holiadur a sesiynau grŵp ffocws (a/neu'r cyflwyniadau gan y rhai a fynychodd neu a oedd yn methu mynychu). Mae'r argymhellion hefyd yn adlewyrchu'n bwysig yr adolygiad o ddeunydd cyhoeddedig am brofiad, arfer ac ymchwil o fannau eraill. Mae hyn yn cynnig dau wiriad defnyddiol ar gyfer yr adolygiad:
- a) mae'n darganfod a yw'r mater yn cael ei rannu neu'n unigryw;
 - b) o'i rannu, mae'n helpu i lywio arfer.
- 4.15 Disgrifir yr argymhellion yn gryno a'u hategu gan gynghorion ymarferol. Cymerir y rhain yn bennaf o'r adolygiad o ddeunydd cyhoeddedig ac o argymhellion a wnaed gan y grŵp llywio, o'n profiad ein hunain ac o'r grwpiau ffocws a holiaduron. Mewn ffordd real iawn mae'r cynghorion yn bont rhwng canfyddiadau'r adolygiad a'i argymhellion. Maent yn dangos yr hyn y bwriedir i'r argymhellion fynd i'r afael ag ef, sut mae wedi cael ei wneud mewn llefydd eraill (lle bo hyn yn berthnasol), a/neu sut y gellid cael ei wneud yng Nghymru. Mae'r cynghorion hyn wedi eu hamlygu mewn paneli llwyd, tra bod yr argymhellion yn ymddangos yn las.
- 4.16 Yn olaf, a chyn symud i'r argymhellion, mae'n bwysig cofio'r cyd-destun economaidd, ariannol a deddfwriaethol y cânt eu hystyried a'u gweithredu ynddo. Bydd gan y rhain oblygiadau pwysig ar gyfer yr adolygiad ac mae'r priif benawdau fel a ganlyn:
- a) ffocws diwygio ar ble y gall helpu i gefnogi twf economaidd ac adfywiad cynaliadwy;
 - b) y brys canfyddedig sydd ynghlwm wrth yr angen i ddiwygio (a'r cyfle cyfyngedig am gyfnodau ymgynghori hir);
 - d) cyfyngiadau gweithdrefniadol ar yr hyn a all gael ei wneud;
 - e) cyfyngiadau ariannol;

- e) y safbwynt ymarferol tuag at yr adolygiad;
- f) ymrwymïadau cenedlaethol a'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo – cyfeiriad teithio;
- g) y ddeddfwriaeth a'r gofynion sy'n benodedig.

4.17 Yn y cyd-destun hwn ac i adlewyrchu'r ymagwedd gyfunol a chydweithredol at newid sy'n rhedeg drwy'r adolygiad, mae cyfres o gyrff neu bartnerïaid wedi cael eu nodi neu eu cysylltu â chyflwyno pob un o'r argymhellion a wneir. Er na ofynnwyd i'r gyrff hyn helpu i gefnogi gweithrediad yr argymhellion (ac nid ydynt yn eu noddï mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd), maent i gyd wedi dangos diddordeb mewn diwygio'r broses ceisiadau cynllunio ac yn cynnig cryn arbenigedd a phrofiad. LICC wrth gwrs a fydd yn bennaf gyfrifol am yrru unrhyw newidiadau.

5.0 Argymhellion Thema 1: Gwella Dealltwriaeth

Cyflwyniad

- 5.1 Mae cyfres o berthnasoedd hanfodol yn y broses ceisiadau cynllunio. Mae rhai perthnasoedd yn dda neu'n gwella - mae'n amlwg bod llawer o waith (er yn anffurfiol) yn mynd rhagddo rhwng yr ymgynghoreion statudol a'r awdurdodau cynllunio ar ddeall eu buddiannau a'u cyfrifoldebau amgylcheddol neu ffisegol a'r ddeddfwriaeth neu'r gyfraith achosion gysylltiedig. Croesewir hyn ac mae'n broses barhaus. Hefyd mae gan rai buddiannau datblygu - er enghraifft adeiladwyr tai - fynediad gwell yn gyffredinol i lywodraeth leol a chenedlaethol ynghylch materion cynllunio hyd yn oed os ydynt, yn ôl awgrym y grŵp ffocws, o'r farn bod eu llais yn cael ei anwybyddu weithiau. Cyfrifoldeb y diwydiant datblygu yw hwn llawn gymaint â'r awdurdodau cynllunio leol.
- 5.2 Ond yn anochel, gall rhai safbwyntiau, ystyriaethau a pherthnasoedd gael eu camddeall, neu ddod yn estynedig neu'n dynn – sydd wedyn yn dod yn achos cwyno, ansicrwydd a gwastraff.
- 5.3 Gyda chynifer o berthnasoedd i'w hystyried, yr her i'r adolygiad oedd canolbwyntio ar ble mae canlyniadau dealltwriaeth wael yn fwyaf difrifol neu gritigol, ond sy'n annhebygol o gael eu trafod gan fentrau, fforymau neu asiantaethau eraill.
- 5.4 Mae'r adolygiad wedi nodi dwy berthynas glir lle mae angen mynd i'r afael â'r tyndra hwn ar fyrder er mwyn i amcanion cenedlaethol gael eu bodloni. Yr un gyntaf yw'r berthynas rhwng cyflwyno datblygiad economaidd cynaliadwy a'r broses gynllunio a'r ail yw rhwng LICC (ar lawer ffurf) ac ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio fel ei gilydd.

Datblygiad Economaidd a'r Broses Ceisiadau Cynllunio

- 5.5 Mae'r i'r berthynas rhwng datblygiad economaidd a'r broses ceisiadau cynllunio ddau ddimensiwn allweddol. Yr un cyntaf yw sut mae awdurdodau cynllunio yn cael eu harwain ar faterion a blaenoriaethau economaidd (wrth ddod i'w penderfyniadau am reoli datblygiad). Yr ail yw pa mor ymatebol y mae'r broses i anghenion busnes ac yn arbennig i ymgeiswyr cynllunio am brosiectau datblygiad economaidd prif ffrwd⁵ (nad ydynt yn cael profiad o'r system gynllunio yn rheolaidd o bosibl). Yma mae'n ymddangos bod diffyg dealltwriaeth yn rhedeg yn y ddau gyfeiriad – gyda'r ymgeiswyr yn honni diffyg dealltwriaeth o du

⁵ Sy'n golygu'r math o ddatblygiadau bach i ganolig sy'n gysylltiedig ag SME's yn hytrach nag (er enghraifft) prosiectau mawr buddsoddiad o'r tu allan, datblygiadau manwerthu graddfa fawr neu barciau busnes. Yn aml mae'r system ymgeisio mewn sefyllfa dda i ddelio â'r prosiectau mwy o faint hyn, er y gall hyn ddwysáu'r effaith ar brosiectau llai – gweler astudiaeth achos 1 yn Atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

awdurdodau am y rhesymeg dros eu prosiectau a goblygiadau oedi neu wrthod, a'r awdurdodau yn honni nad yw ymgeiswyr yn deall eu gofynion a'u cyfrifoldebau eu hun.

- 5.6 Ar un lefel bydd pawb y mae'n rhaid iddynt ofyn am ganiatâd i wneud rhywbeth yn honni diffyg dealltwriaeth oddi wrth reoleiddiwr. Dyma un o'r negeseuon allweddol sy'n dod o Holiaduron yr ACLI a'r Grwpiau Ffocws.
- 5.7 I rai prosiectau datblygiad economaidd, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod datgysylltiad mwy sylfaenol rhwng ymgeiswyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Nid dyma'r unig berthynas yn y broses ceisiadau cynllunio ond dyma'r un sylfaenol. Os na fydd swyddogion a/neu aelodau yn deall y rheswm pam mae cais yn cael ei wneud, yr hyn mae'n bwriadu ei wneud neu sut y bydd yn perfformio, yna mae penderfyniad yn annhebygol o fod yn gyflym neu'n gadarnhaol. Yn yr un modd os na fydd yr ymgeisydd yn deall beth yw prif gyfrifoldebau, polisiâu a phrosesau'r awdurdod cynllunio, yna gall y cais fod wedi ei lunio'n wael, ei amseru'n wael a'i esbonio'n wael.
- 5.8 Nid beirniadaeth ar y naill barti na'r llall yw hon. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae ACLI wedi bod dan bwysau cynyddol i ystyried nifer cynyddol o faterion ac effeithiau amgylcheddol a thechnegol. Ochr yn ochr â hyn ni fu unrhyw ofyniad cyfatebol i ystyried ffactorau economaidd na chymdeithasol. Adlewyrchir hyn yn y gofynion dilysu sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â cheisiadau cynllunio ac â'r rhestr, cylch gorchwyl neu ddiben yr ymgynghoreion statudol. O'i roi yn syml, nid oes gan ACLI ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy am rinweddau cynigion o safbwynt economaidd gwrthrychol. Yn yr un modd, ychydig o gyngor penodol sydd i fusnes am ddiben a rhwymedigaethau cyffredinol y system gynllunio yn 2010.
- 5.9 Nid yw'n syndod felly i grwpiau ffocws busnes ac adeiladwyr tai ddarganfod bod llawer llai o ddealltwriaeth am effaith economaidd rheoli datblygiad ar fuddiannau busnes a pherfformiad busnes. Cadarnhaodd gwaith a gomisiynwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach a'r CBI yng Nghymru (gweler y Cyngor Ymarferol isod) fod hyn yn arbennig o bwysig i fentrau busnes bach a chanolig (gyda'r cynlluniau mawr iawn ac uwch eu proffil fel arfer yn derbyn mwy o sylw oddi wrth yr awdurdod cynllunio lleol ac yn mwynhau mwy o ddiddordeb a dealltwriaeth).

Cyngor Ymarferol 2: Busnes a'r System Gynllunio yng Nghymru

Cynhaliodd y Ffederasiwn Busnesau Bach, gan weithio ochr yn ochr ag Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd, brosiect ymchwil yn ystod 2008 a 2009, a edrychodd ar bwnc Busnesau Bach a'r System Gynllunio yng Nghymru. Cyhoeddwyd y brosiect ymchwil mewn dwy ran, y rhan gyntaf yn canolbwyntio ar y broses ceisiadau

cynllunio a'r ail yn edrych ar bolisi cynllunio. Hefyd ystyriodd adroddiad Cyfnod Un sut y gallai'r system gynllunio weithredu'n fwy effeithiol wrth alluogi twf busnes.

Gwnaeth y Ffederasiwn gyfres o argymhellion ynghylch sut y gallai'r system gynllunio yng Nghymru gael ei diwygio er mwyn gwneud y system yn fwy ymatebol i fusnesau bach. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Cyhoeddi cyfres o ganllawiau i helpu busnesau bach drwy'r broses ceisiadau cynllunio ar gyfer mathau gwahanol o ddatblygiad, ynghyd ag arweiniad i bryd y mae angen caniatâd cynllunio.
- Dylai ACLI adolygu eu gweithdrefnau ar gyfer darparu cyngor cyn-ymgeisio ac edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu'r cyngor hwnnw i fusnesau.
- Dylai ACLI fod yn fwy rhagweithiol wrth nodi ceisiadau sydd wedi eu gwneud gan fusnesau bach a sicrhau eu bod yn cael eu helpu drwy'r broses, gydag arweiniad a chyngor addas yn cael eu rhoi yn gynnar.
- Dylai ACLI ystyried sefydlu "Timau Busnes Bach" dynodedig sy'n cynnwys swyddogion sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig i ddeall anghenion y gymuned fusnes.
- Dylai ymgeiswyr gael cynnig y cyfle i fynychu ymweliadau safle a dylai hawliau siarad cyhoeddus yn y pwyllgor cynllunio gael eu hyrwyddo ymhellach.
- Dylai ACLI gael eu hannog i roi arweiniad cliriach i ymgeiswyr am y rhesymau dros ofyn am ddiwygiadau i geisiadau cynllunio a gyflwynir gyda'r awdurdodau'n bod yn glir a yw caniatâd cynllunio yn debygol heb newidiadau i'r cais fel y'i cyflwynwyd.
- Dylai fod trafodaeth gynnar rhwng ACLI ac ymgeiswyr ynghylch unrhyw amodau a all fod ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio.
- Dylai ACLI fod yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd am drafodaethau adeiladol â busnesau bach am ailgyflwyno ceisiadau sydd wedi eu gwrthod.

Mae'r CBI hefyd wedi cyhoeddi papur sy'n edrych ar weithrediad y system gynllunio yng Nghymru⁶ ac wedi galw'n ddiweddar i'r system gael ei diwygio er mwyn helpu i annog buddsoddiad a gwneud y system gynllunio "yn alluogwr yn hytrach nag yn rhwystrwr" ar gyfer buddsoddiad preifat a datblygiad isadeiledd cyhoeddus fel ei gilydd.

⁶ Planning Reform in Wales: the business case. (Heb ei ddyddio).

Elfen hanfodol o hyn yw agwedd awdurdodau cynllunio a'r angen am ymagwedd gadarnhaol at ddatblygiad.

Mae'r CBI yn dadlau bod y system gynllunio ar hyn o bryd yn gosod ansicrwydd diangen ar ymgeiswyr ac wedi galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddiwygio'r system gynllunio gyda golwg ar:

- Gyflwyno penderfyniadau sy'n deg ac yn gytbwys.
- Rhoi gwerth am arian i ddefnyddwyr y system.
- Sicrhau bod gan asiantaethau statudol allweddol adnoddau digonol i allu ymateb yn gyflym i ymgynghoriadau;
- Creu system sy'n ymarferol, yn effeithlon, yn canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n hyblyg ac yn gymesur.
- Gwella ansawdd cyngor cyn ymgeisio a'r adborth a roddir i ymgeiswyr.

Mae'r CBI hefyd wedi galw'n ddiweddar am i'r broses gynllunio gael ei symleiddio er mwyn caniatáu adeiladu mwy o dai yng Nghymru i wella ansawdd stoc dai'r wlad a helpu i gefnogi adferiad economaidd.

- 5.10 Yng ngoleuni'r ymchwil uchod a chanfyddiadau sesiynau allweddol y grwpiau ffocws, mae hyrwyddo dealltwriaeth well o faterion datblygiad economaidd felly yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer yr adolygiad⁷. Mae dimensiynau cenedlaethol a lleol fel ei gilydd yn haeddu sylw - gydag angen adolygiad o ganllawiau cenedlaethol i ddatgan yn glir sut i fynd at ddatblygiad economaidd cynaliadwy, ynghyd ag arweiniad ymarferol lleol ar sut i'w gyflawni. Mae cynnydd ystyrion yn ôl pob golwg yn dibynnu ar ddau brif gam (sydd gyda'i gilydd yn ffurfio argymhellion cyntaf yr adolygiad).

Argymhelliad 1: Datganiad Polisi ar Bwysigrwydd Datblygiad Economaidd

Yr argymhelliad cyntaf yw i Lywodraeth Cynulliad Cymru baratoi datganiad polisi newydd am y flaenoriaeth sydd i'w rhoi i ddatblygiad economaidd. Gallai'r cyfryw ddatganiad ddiweddar ac ehangu adrannau Polisi Cynllunio Cymru ar ddatblygiad economaidd a chynnig cyfeiriad clir ar y pwysau sydd i'w rhoi i sectorau a mentrau economaidd allweddol fel y'u diffinnir yn y strategaeth economaidd genedlaethol neu yng Nghynllun Gofodol Cymru. Dylai roi arweiniad penodol am bwysigrwydd menter fach a chanolig.

⁷ Bydd angen i hyn gydymffurfio wrth gwrs ag amcanion polisi a datblygiad cynaliadwy eraill. Beth bynnag y manteision neu'r gefnogaeth leol, bydd angen archwilio cynlluniau'n ofalus (weithiau ar lefel genedlaethol – gweler astudiaeth 2 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn).

Partneriaid Argymhelliad 1: Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref Cymru (RPTI), CBI ac Ysgol Fusnes Caerdydd

Argymhelliad 2: Gwneud y System Gynllunio yn Fwy Ymatebol i Fusnes

Yr ail argymhelliad yw i gyflwyno cyfres o fesurau i wella ymatebolrwydd y system gynllunio i anghenion busnes

2a yw sefydlu mecanweithiau syml ar gyfer **cyfnewidfeydd gwell rhwng sefydliadau busnes ac awdurdodau cynllunio** am eu priod anghenion a gofynion. Mae angen rhoi ystyriaeth i fforwm rheolaidd.

Partneriaid Argymhelliad 2a: CBI, Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru (PoSW)

2b yw i adnewyddu neu ddarparu fersiwn newydd o'r **llawlyfr neu arweiniad i fusnesau am y system gynllunio**. Gallai arweiniad tebyg neu gyfatebol gael ei gynhyrchu i ffermwyr a'r sawl sy'n ymwneud â gweithgareddau cefn gwlad neu amaethyddol

Partneriaid Argymhelliad 2b: Ffederasiwn Busnesau Bach (gydag Undeb Amaethwyr Cymru/NFUC a PAW)

2c yw i ystyried **statws anffurfiol neu ffurfiol fel cynghorwyr neu ymgynghoreion i sefydliadau busnes**, adrannau datblygiad economaidd a buddiannau (neu roi pwysau uwch neu gyfartal i'w pryderon). Lle bo'n briodol, gallai meysydd arbennig gael eu nodi lle dylai mwy o bwysau gael eu rhoi i berfformiad economaidd.

Partner Argymhelliad 2c: Y Sefydliad Datblygiad Economaidd

2d yw integreiddio anghenion busnes bach a chanolig yn well mewn polisi cynllunio (ar lefel genedlaethol fel estyniad i'r Datganiad Polisi newydd ar ddatblygiad economaidd a argymhellir uchod) ac ar lefel leol yn y cylch o gynlluniau datblygu lleol sydd ar y gweill.

Partner Argymhelliad 2d: Y Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig

- 5.11 Gellir mabwysiadu safbwynt tebyg o ran ffurfiau canolig eraill o ddatblygiad sy'n debygol o yrru'r adferiad economaidd a ffyniant economaidd cynaliadwy – er enghraifft datblygiadau tai maint canolig, cynlluniau ynni adnewyddadwy a chyfleusterau menter gymunedol. O ran cynnwys y datganiad polisi, mae menter “Economic Renewal – Have your say on the way ahead for Wales” Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhedeg ochr yn ochr â'r adolygiad hwn. Mae'n edrych ar sut y gall LICC ddarparu'r gefnogaeth orau i fusnesau a ffyniant ledled Cymru er mwyn hybu economi cyfrannu at yr adolygiad o'r broses ceisiadau cynllunio ac yn helpu i lywio manylion y datganiad polisi cynllunio arfaethedig.

- 5.12 Ceir argymhellion ategol ac atodol o dan y thema hon o dan y drydedd thema (gweithrediad). Mae'r rhain yn cynnwys nodi trothwyon ymgeisio gwahanol y mae modd eu defnyddio i lywio dilysu cais a gofynion amseru, estyn hawliau datblygiad a ganiateir ar gyfer busnes a chyflwyno categori ar gyfer swyddfeydd neu eiddo bach a chanolig (a allai gael eu diffinio).

Tasgau Hanfodol i LICC

- 5.13 Yr ail faes allweddol (i'r adolygiad o leiaf) lle mae angen gwella dealltwriaeth yw yng nghamau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dwy berthynas bwysig yn bodoli yma sy'n ymddangos dan straen ar hyn o bryd, sef yn gyntaf rhwng LICC ac awdurdodau cynllunio ac yn ail rhwng LICC ac ymgeiswyr a/neu eu hasiantau.
- 5.14 Yn y ddwy berthynas mae cyflymder, afreoleidd-dra a'r weithdrefn ar gyfer rhoi arweiniad wedi eu tanlinellu fel problem o bwys. Yn y pum mlynedd diwethaf gwelwyd newid arwyddocaol mewn deddfwriaeth gynllunio a fframweithiau statudol eraill, ac mae hyn wedi sbarduno cryn dipyn o arweiniad. Er bod hyn yn anochel, mae'n peri tyndra a straen sylweddol o fewn rhai awdurdodau sy'n mynegi pryder am faint yr arweiniad a'r newid. Mae hyn yn estyn o'r arweiniad a gyhoeddwyd gyda'r gofyniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad, i newidiadau i reoliadau (er enghraifft diwygio Rheoliadau EIA a'u cymhwysiad i brosiectau aml-gam). Mae'n golygu hefyd y gall fod peth dryswch rhwng y polisi lleol a'r arweiniad cenedlaethol – yn enwedig lle bydd yr olaf wedi ei gyhoeddi'n ddiweddarach⁸.
- 5.15 Lleisiwyd pryder tebyg gan yr ymgeiswyr a'u hasiantau. Mae maint a chyflymder newid ac arweiniad newydd wedi gadael rhai asiantau a datblygwyr ar ei hôl – ac mae'n ymddangos bod risg y bydd rhai ymarferwyr gwirioneddol dda cyn hir yn methu gwasanaethu cleientiaid neu y bydd rhai datblygwyr yn methu neu'n anfodlon buddsoddi mewn system (ac felly gwlad) lle bo'r tir yn symud mor gyflym. Un ystyriaeth benodol (sydd wedi ei chodi gan swyddogion cynllunio, ymgynghorwyr a rhannau o'r sectorau cyhoeddus a busnes) yw'r arfer presennol o alw ceisiadau i mewn (sef lle bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb dros benderfynu i ffwrdd o'r awdurdod cynllunio lleol). Mae'r arfer presennol yn peri ansicrwydd yn nhermau'r tebygolrwydd o alw i mewn a'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau pan fydd ceisiadau wedi eu hadfer.
- 5.16 Ym mhob achos, nid cymhellion LICC sydd dan feirniadaeth – mae ganddi gyfrifoldebau clir a gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid iddi eu dilyn a'u gweithredu neu gymhwyso. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn cynnig cyfle i ystyried lle gallai a lle dylai gamau ganolbwyntio er mwyn

⁸ Un enghraifft o hyn yw ynni adnewyddadwy – gweler astudiaeth achos 3 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn

gwella'r ddealltwriaeth o'r cyfrifoldebau hyn (a fydd yn ei thro yn helpu eu cymhwyso).

- 5.17 Daw enghraifft glir o hyn o brofiad diweddar gyda'r gofyniad statudol am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae'r adolygiad wedi darganfod – drwy'r holiadur i awdurdodau cynllunio lleol a grwpiau ffocws busnes, adeiladwyr tai ac RTPI/ymgyngorwyr cynllunio a chorff cynyddol o brofiad ar ddau brif fater – y math o gynllun a ddylai sbarduno'r angen am Ddatganiad Dylunio a Mynediad a beth ddylai cynnwys y Datganiadau fod. Mae'r profiad a roddodd yr awdurdodau yn eu hymatebion yn rhoi peth arweiniad ar y mater cyntaf (yr edrychir arno yn nes ymlaen hefyd yn argymhellion gweithredol yr adolygiad ar ddilysu ceisiadau). Mae ymatebion yr awdurdodau hefyd yn amlygu'r angen am ateb cyflym (fel a welir yn y cyngor ymarferol isod).

Cyngor Ymarferol 3: Datganiadau Dylunio a Mynediad – Tystiolaeth o Holiaduron yr ACLI

Datganiadau Dylunio a Mynediad oedd y rheswm a enwyd amlaf o fewn yr holiadur i Awdurdodau Cynllunio Leol wrthod dilysu ceisiadau cynllunio. Roedd hyn naill ai am fod Datganiad wedi cael ei gyflwyno ond barnwyd ei fod yn annigonol neu am nad oedd un wedi cael ei gyflwyno o gwbl. Amcangyfrifodd un ACLI eu bod ar hyn o bryd yn dychwelyd dros 70% o geisiadau cynllunio heb eu cofrestru gan ddatgan mai'r prif reswm am hyn oedd gofynion y Datganiad. Adroddodd ACLI arall fod nifer y ceisiadau sy'n cael eu dychwelyd heb eu cofrestru wedi codi o 25% i 45% yn dilyn cyflwyno'r DAS ac adroddodd trydydd ACLI fod y ganran o geisiadau sy'n cael eu dychwelyd heb eu cofrestru wedi codi o 35% cyn cyflwyno'r gofyniad am Ddatganiad i 60% ar ôl eu cyflwyno. Fodd bynnag, adroddodd yr ACLI hwn hefyd fod y ffigur hwn yn gostwng eto erbyn hyn (wrth i ymgeiswyr ac asiantau ddod i arfer â'r gofyniad newydd mae'n debyg).

Pan holwyd beth ddylai blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru fod ar gyfer diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr i holiadur yr ACLI at Ddatganiadau Dylunio a Mynediad. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r gofyniad amdanynt gael ei ddileu ac eithrio yn achos ceisiadau mawr neu rai a allai effeithio ar faterion sensitif fel Adeiladau Rhestredig neu Ardaloedd Cadwraeth. Canolbwyntiodd ymatebion eraill ar yr angen am gyngor safonol am baratoi Datganiadau Dylunio a Mynediad a'r angen am hyfforddiant staff arbenigol ar faterion cysylltiedig â Datganiad.

Adroddodd un Awdurdod, er i Ddatganiadau Dylunio a Mynediad gynrychioli arf defnyddiol posibl, yn rhy aml roeddent yn cael eu cymhwyso'n ôl-syllol i gyfiawnhau dyluniadau a oedd wedi eu rhagbaratoi, gyda'r ymgeiswyr yn rhoi sylwadau ar y pwyntiau da yn unig, yn hytrach na'u defnyddio'n fecanwaith dilys i gyflwyno dyluniad

da. Disgrifiodd ymatebydd arall Ddatganiadau Dylunio a Mynediad fel “offeryn di-fin” a oedd wedi methu â gwella ansawdd trefniadau dylunio a mynediad ar gyfer datblygiadau newydd ar yr un pryd â gwneud y system yn fwy cymhleth i ymgeiswyr a llyncu mwy o amser i ACLI.

Ni alwodd yr un o'r Awdurdodau Cynllunio Leol a ymatebodd i'r holiadur am eu dileu yn blwmp ac yn blaen. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cryn dipyn o anffodlonrwydd ar y system fel y mae'n gweithredu ar hyn o bryd a bod llawer o ACLI o'r farn y gallai'r system fod yn llawer mwy effeithiol nag y mae ar hyn o bryd.

- 5.18 Ar yr ail bwynt (cwmpas, fformat a chynnwys), mae'r arweiniad a ddarperir gan rai awdurdodau yn dangos sut mae'r arfer eisoes yn amrywio a sut mae rhai awdurdodau yn dechrau ymdrin â'r materion a godir gan y gofyniad mandadol am ddatganiadau yn achos pob cais.

Cyngor Ymarferol 4: Arweiniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad

O edrych ar wefannau nifer o Awdurdodau Lleol Cymru, mae'n amlwg bod amrywiaeth eang yn lefel yr arweiniad a ddarperir i ymgeiswyr yn nhermau'r gofynion am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad y mae eu hangen i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio ers 1 Mehefin 2009. Nodir nad oes gan nifer o ACLI yng Nghymru eu harweiniad unigol eu hun am gynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad, ond yn cyfeirio ymgeiswyr at yr arweiniad a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Gwynedd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr a Blaenau Gwent (ymhlith Awdurdodau eraill) yn gwneud hynny ac yn cynnig dolenni ar eu gwefan ag arweiniad generig LICC am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad. Fodd bynnag, mae nifer o Awdurdodau Lleol wedi bod yn fwy rhagweithiol o ran cyhoeddi eu harweiniad pwrpasol eu hun er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gwblhau Datganiadau Dylunio a Mynediad. Darperir trosolwg o'r arweiniad a ddarperir gan Gyngorau Ceredigion, Casnewydd ac Abertawe isod.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion

Mae'r arweiniad a gynhyrchwyd gan Geredigion yn fyr iawn ac ond yn dyblygu'r arweiniad cenedlaethol a gynhyrchir gan LICC. Mae'r ddogfen arweiniad yn dechrau drwy esbonio'r rhesymeg tu ôl i'r gofyniad am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad cyn darparu trosolwg byr o'r penawdau y mae angen i ymgeiswyr eu cynnwys. At ei gilydd, mae'r arweiniad yn fyr iawn ac nid yw'n cynnig unrhyw enghreifftiau o'r hyn a ddylai gael ei gynnwys neu unrhyw gyfeiriad penodol at y cyd-destun lleol. Nid yw'r arweiniad yn gwahaniaethu o ran graddfa gymharol cynigion datblygu, ond yn cynnig rhestr o benawdau safonol y dylid cyfeirio atynt o fewn unrhyw Ddatganiad. Nodir y caiff yr

arweiniad ei ddiweddarau maes o law, a fydd efallai'n gwella ei ddefnyddioldeb i ymgeiswyr.

Cyngor Dinas Casnewydd

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu nodyn cyngorol i ymgeiswyr am Ddatganiadau Dylunio a Mynediad. Mae'r nodyn hwn yn cynnig manylion beth yw Datganiadau Dylunio a Mynediad, yn ogystal ag esbonio pam maent yn angenrheidiol a phryd maent yn ofynnol. Yn ogystal, mae'r nodyn cyngorol yn rhoi manylion pellach beth mae ei angen mewn Datganiad er mwyn iddo gael ei ddilysu. Mae'r nodyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â dylunio a mynediad ill dau, yn ogystal â nodi manylion y gofynion i'r ddwy elfen hyn gael eu cynnwys mewn ceisiadau cyffredinol a cheisiadau sy'n ymwneud â chaniatâd adeilad rhestredig.

Mae'r nodyn cyngor yn cynnwys trosolwg o beth fyddai'n gyfrif yn Ddatganiad Dylunio a Mynediad da ym marn y Cyngor. Yn hyn o beth, mae'r arweiniad yn cynnwys nifer o benawdau a phynciau manwl, ynghyd â chyfres o bwyntiau bwled cyfatebol a chwestiynau o dan bob pennawd y gofynnir i ymgeiswyr eu hystyried wrth baratoi eu datganiadau. Mae'r nodyn cyngor hefyd yn rhoi manylion sut dylai'r Datganiad gael ei weld yn ddogfen fyw sy'n gallu tyfu gyda chynllun wrth iddo ddatblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer ceisiadau amlinell lle mae'r nodyn cyngor yn datgan y dylai DAS a gyflwynir i ategu cais amlinell barhau i esblygu drwy'r cyfnod Materion Cadwedig. Mae'r nodyn cyngor yn diweddu drwy gynnig trosolwg o amcanion dyluniad da, cyn gorffen gyda dolenni ag arweiniad pellach am faterion Datganiadau (gan gynnwys LICC, CABA a DCFW).

Er gwaethaf darparu trosolwg eithaf manwl o'r gofynion ar gyfer Datganiadau Dylunio a Mynediad, nid yw'r arweiniad yn gwahaniaethu rhwng cynigion datblygu o raddfeydd gwahanol. Yn unol â hynny, ystyrir bod y nodyn cyngor yn rhy ragnodol gan ei fod yn awgrymu y dylai pob cais (beth bynnag ei raddfa, maint ac effaith) ystyried yn gyfartal y pynciau a fanylir yn y nodyn cyngor.

Abertawe

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys arweiniad ar DAS. Mae arweiniad ar wahân ar gael ar gyfer ceisiadau cynllunio llawn, ceisiadau amlinell a cheisiadau adeilad rhestredig yn y drefn honno. Mae cynnwys pob un o'r nodiadau arweiniad hwn yn debyg yn fras, er ei fod wedi ei deilwra ar gyfer pob math gwahanol o gais. Mae'r arweiniad yn darparu cyngor i ymgeiswyr ar y strwythur gofynnol ar gyfer DAS ac yn gosod nifer o benawdau allweddol y mae'n rhaid eu cynnwys mewn DAS, yn ogystal â rhoi cyd-destun pellach a ddylai gael ei gynnwys o dan bob pennawd gwahanol. Yn gyffredinol, mae'r arweiniad yn fyr ond yn effeithiol ac yn

darparu cyfres o benawdau bwletin sy'n rhoi man cychwyn i ymgeiswyr o ran gofynion cyffredinol DAS.

Ond unwaith eto, nid yw'r arweiniad yn gwahaniaethu rhwng graddfeydd gwahanol cynigion datblygu, ond yn ôl pob golwg yn cyflwyno rhestr o benawdau a phwyntiau bwled y mae'n rhaid eu hystyried. Mae'r arweiniad felly yn ymddangos yn rhagnodol iawn gan nad yw'n cyfrif am amrywiaethau yng ngraddfa a natur cynigion datblygu.

Caerffili

Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu dogfen arweiniad gyfeillgar sy'n rhoi trosolwg o'r broses a gofynion Datganiadau Dylunio a Mynediad. Mae'r ddogfen hon yn dechrau drwy amlinell o'r cefndir deddfwriaethol i ddatganiadau o'r fath, cyn darparu cyfres o benawdau ac amcanion cyfatebol a ddylai gael eu cynnwys o fewn y Datganiad. O dan bob prif bennawd, mae'r arweiniad yn rhoi pynciau pellach y dylai'r broses ddylunio eu cynnwys a beth ddylai gael ei fanylu yn y Datganiad. Mae'r arweiniad yn dod i ben gyda thempled i ymgeiswyr ei ddilyn er mwyn sicrhau bod pob mater perthnasol yn cael ei ystyried fel rhan o gynhyrchu'r Datganiad.

Yn bwysig, mae tudalen gyntaf yr arweiniad yn gosod cyd-destun Datganiadau Dylunio a Mynediad yn manylu i ba raddau y dylai pob DAS adlewyrchu natur a chymhlethdod y cais cysylltiedig a dylid ymdrin â'r holl faterion a godir ynddo. Mae hon yn elfen bwysig o'r arweiniad sy'n ei gwneud yn glir ar y cychwyn y dylai cynnwys Datganiad fod yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig. Mae hon yn enghraifft dda o ymagwedd synnwyr cyffredin nad yw'n gosod baich amhriodol ar ymgeiswyr am gynlluniau llai o faint i baratoi Datganiadau hirfaith.

- 5.19 Ym mhob achos, nid amheuir cysyniad cyffredinol y Datganiad Dylunio a Mynediad. Yn yr un modd, fel gyda phob gofyniad newydd, mae cyfnod ymsefydlu lle caiff ei brofi a'i gymhwyso a'i addasu. Serch hynny, mae'r drefn bresennol yn peri cryn anhawster i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio fel ei gilydd, yn bennaf pryderon ynghylch dilysu, cymesuredd a'r fantais a ddaw ohoni. I eraill mae pryder nad yw Datganiadau yn ymdrin ô materion allweddol yn briodol - gyda diogelwch cymunedol yn enghraifft a godwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru.
- 5.20 Y profiad hwn, ynghyd â'r pryderon a fynegir ar ddechrau'r adran hon, sy'n llywio'r tri argymhelliad i LICC ei hun eu hystyried (sy'n ffurfio trydydd, pedwerydd a phumed argymhelliad yr adolygiad).

Argymhelliad 3: Datganiadau Dylunio a Mynediad

Argymhelliad 3 yw egluro cwrpas a chynnwys Datganiadau Dylunio a Mynediad, a'r gofyniad sy'n eu sbarduno (drwy lythyr neu ddatganiad gan y Gweinidog os oes angen). Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i lacio'r sbardun am y gofyniad a rhoi arweiniad llai llym am fformat a chynnwys (er mwyn adlewyrchu graddfa'r cynigion, eu lleoliad a'r ystyriaethau maent yn eu codi).

Partneriaid Argymhelliad 3: RSAW, RTPI, HBF a DCfW

Argymhelliad 4: Arweiniad i'r Broses

Y pedwerydd argymhelliad yw i LICC ystyried sut y gall wella cyhoeddi a hysbysebu arweiniad. A derbyn yr amrediad cymharol fach o ymarferwyr yng Nghymru, dylid mynd ar drywydd ymagwedd fwy cynhwysol gyda chyrrff ar ddwy ochr y broses ymgeisio cyn awgrymu neu wneud gofynion yn y dyfodol. Byddai hyn yn helpu i roi ffocws ymarferol llymach i arweiniad.

Partneriaid Argymhelliad 4: Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd

Argymhelliad 5: Atal Arweiniad Newydd ("Amnest" Arweiniad)

Y pumed argymhelliad yw cyfyngu neu atal (ac eithrio'r argymhellion a wneir yn yr adolygiad hwn) gofynion neu areiniad sylweddol pellach nes bod angen deddfwriaethol neu fethiant amlwg yn yr arfer presennol. Gallai hyn gael ei ategu gan gulhau'r mathau o gyngor y cyhoeddir arweiniad ynddo. Un maes penodol lle gallai fod angen arweiniad ychwanegol yw'r meini prawf ar gyfer y broses galw i mewn a'u gweithrediad. Dewis arall yn lle'r argymhelliad hwn fyddai cytuno a blaenoriaethu rhaglen flaen o gyngor ac arweiniad wedi eu hadolygu, newydd neu ddiwygiedig. Byddai hyn yn rhoi rhybudd cynnar ac yn caniatáu paratoi ar gyfer ystyried a gweithredu'r newidiadau a gynigir.

5.21 O ran argymhelliad 5, mae cysylltiad pwysig â'r cynnig i gyhoeddi fersiwn cyfunol o Bolisi Cynllunio Cymru. Er nad oes angen gohirio hyn (ar y sail y caiff y fersiwn newydd hwn ei gyhoeddi ar ffurf electronig yn unig ac na fydd yn arwain at wastraffu adnoddau), mae pwynt ehangach o ran yr angen i rannau o'r Polisi gael eu diwygio neu eu hadnewyddu. Dylai'r blaenoriaethau gynnwys:

- a) y datganiad neu'r arweiniad a argymhellir ar rôl cynllunio mewn hybu a galluogi datblygiad economaidd;
- b) y sefyllfa o ran galw i mewn; a

- c) rhai o'r argymhellion eraill a wneir yn yr adolygiad (yn fwyaf arwyddocaol yr ymagwedd at ofalaeth datblygiad yn hytrach na rheolaeth sy'n cael ei thrafod yn adran nesaf yr adroddiad).

6.0 Argymhellion Thema 2: Diwylliant

Cyflwyniad

- 6.1 Mae diwylliant o reoli datblygiad wedi adlewyrchu'r teitl sydd wedi ei roi iddo. Mae gan reolaeth oblygiad negyddol neu mae wedi cael cymhwysiad negyddol. Yn Lloegr, mae ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ar newid mewn ymagwedd gyffredinol at ddiwylliant rheoli datblygiad a newid i reolaeth datblygu sydd eisoes wedi denu dilynwyr yng Nghymru. Mae hyn yn gweld ymagwedd a rôl lawer mwy cadarnhaol i'r broses ceisiadau cynllunio a bydd yn berthnasol am ddau reswm yng Nghymru. Yn gyntaf daw o'r KPR sydd wedi asesu system debyg yn fras (ac mae ei wersi yn gyffredinol drosglwyddadwy), ac yn ail mae angen i bwyslais gweithredol fod yn gyffredinol gyson i Gymru gael ei gweld yn genedl gadarnhaol, sy'n mynd ati i geisio rheolaeth briodol ceisiadau cynllunio yn hytrach na'u rheoli'n syml (ac yn gyffredinol negyddol).
- 6.2 O ran diwylliant, mae nifer o ddimensiynau i'w hystyried:
- man cychwyn y system a sut yr eir ati
 - yr ymagwedd at ymgynghori
 - trefniant y swyddogaeth rheoli datblygiad

Man Cychwyn

- 6.3 Mae'n amlwg o sesiynau'r grŵp ffocws, mae'r materion amgylcheddol a ffisegol yn cael eu trafod yn dda gan gyfres o ymgynghoreion a buddiannau hynod brofiadol ac yn aml statudol. Mae'n glir hefyd o'r sesiynau busnes mai'r canfyddiad yw bod ceisiadau'n cael eu trin yn negyddol neu'n ataliol yn aml, ac mai dyma'r man cychwyn yn ôl pob golwg i rai swyddogion, rhai timau neu rai adrannau. Cyffredinoliad difrifol yw hwn, mae'n amlwg, ond gan i'r neges ddod yn fwyaf clir o sesiwn y grŵp ffocws gydag ymgynghorwyr cynllunio cymwys a phrofiadol (a ddylai fod yn gytbwys eu hymagwedd), ni ellir anwybyddu'r neges honno.
- 6.4 I raddau, mae LICC eisoes wedi cydnabod y pryderon hyn. Yn 2007, cafodd ymarfer ymgynghori ei gynnal ar Nodyn Cyngor Technegol drafft (17: Cynllunio a Rheoli Datblygiad). Cododd a thrafododd y ddogfen hon amrediad o faterion mewn perthynas â rheoli datblygiad ac mae'n cynnig arweiniad ar y broses gynllunio i'r sawl sy'n defnyddio, yn darparu ac yn dod dan effaith y gwasanaeth. Nod y TAN Drafft oedd gwella ansawdd deilliannau, gwella boddhad cwsmeriaid yn y system a gwella ansawdd datblygiad.

- 6.5 Roedd y TAN drafft yn eang ei gwmpas ac ymdriniodd â rôl gwahanol actorion o fewn y system gan gynnwys ACLI, ymgeiswyr, y cyhoedd, ymgynghoreion, yr Arolygiaeth Gynllunio, Cyngorau Tref a Chymuned a grwpiau a chyrrff eraill yn y sectorau gwirfoddol a phreifat. Mae'r ddogfen yn pwysleisio y dylai'r holl grwpiau hyn gael cyfrannu'n effeithiol at y broses gynllunio.
- 6.6 Mae'r materion allweddol a drafodir yn y ddogfen yn cynnwys:
- Sut mae ceisiadau cynllunio yn cael eu prosesu a'r angen i benderfyniadau fod yn dryloyw a chael eu cymryd yn unol ag Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
 - Yr angen i ACLI sicrhau'r sgiliau a'r wybodaeth arbenigol mae eu hangen i brosesu cais ar gael a'r potensial i rannu adnoddau rhwng ACLI a (lle bo angen) defnydd arbenigedd y sector preifat i gynorthwyo yn hyn o beth.
 - Sut dylai perfformiad y system gael i fesur.
 - Pwysigrwydd trafodaethau cyn ymgeisio ystyrlon.
 - Dilysu a chofrestru ceisiadau.
 - Gweithrediad y pwyllgor cynllunio.
 - Y potensial i Gynlluniau Cyflwyno Gwasanaeth gael eu defnyddio yn fecanwaith ar gyfer gwella perfformiad ACLI.
- 6.7 Edrychodd y TAN drafft ar sut mae'r broses ceisiadau cynllunio yn cael ei rheoli a phwysleisiodd yr angen i reolwyr feddu ar ymagwedd gadarnhaol at gyflwyno'r gwasanaeth gyda phwyslais ar y cwsmer, gan sicrhau defnyddio adnoddau'n effeithiol a bod cyfleoedd i wella'r gwasanaeth yn cael sylw. Hefyd pwysleisir pwysigrwydd cysylltiadau cryf rhwng adrannau strategol, blaengynllunio a chynllunio datblygiad yn ogystal ag adrannau eraill fel rheoli adeiladu, datblygiad economaidd, iechyd amgylcheddol, trafnidiaeth, tai a hamdden a chyrrff allanol gan gynnwys LICC a'r Ymgynghoreion Statudol.
- 6.8 Cafodd y neges hon ei rhannu hefyd â neu gan y KPR a llywiodd ymarfer ymgynghori ar ymgynghori ynghylch Rheoli Datblygiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ar ddiwedd y llynedd. Mae hyn yn arwydd o newid sylfaenol yn yr ymagwedd at arfer cynllunio ac ailadroddir ei negeseuon allweddol yn y panel isod.

Cyngor Ymarferol 5: Ymgynghoriad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol – Rheoli Datblygiad.

Mae'r ddogfen yn nodi'r angen am newid sylfaenol mewn diwylliant o ethos o reoli datblygiad i un o ofalaeth datblygiad mewn perthynas â'r ffordd y mae cynigion datblygu yn cael eu llunio, eu hystyried, eu penderfynu a'u cyflwyno. Fel y cyfryw, byddai disgwyl i ACLI ddod yn fwy rhagweithiol wrth gynorthwyo datblygwyr, mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol, datrys problemau at faterion cyflwyno. Mae'r Datganiad Polisi Cynllunio drafft yn datgan y dylai gofalaeth datblygiad hybu datblygid amserol, buddiol a chynaliadwy ac y dylai ACLI gael eu gyrru'n fwy gan ganlyniadau a llai gan y broses.

Mae'r PPS drafft yn gosod saith polisi rheoli datblygiad drafft, sy'n ymdrin â phynciau:

- Ymagwedd ragweithiol at siapio lle;
- Rhoi polisi cynllunio ar waith;
- Blaen-lwytho;
- Cymryd ymagwedd gymesur;
- Ymgysylltu effeithiol;
- Cyflwyno rhagweithiol; a
- Monitro ac adolygu deilliannau rheoli datblygiad.

Hefyd mae pwysigrwydd rhoi cyngor clir yn ystod ymwneud cyn ymgeisio, gan gynnwys atal cynigion sy'n annerbyniol, yn cael ei bwysleisio o fewn y ddogfen. Mae pwyslais yn ogystal ar yr angen i ACLI fod yn gymesur yn delio â chynigion datblygu gan wahodd Awdurdodau i archwilio cyfleoedd i gyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol sy'n ehangu hawliau datblygiad a ganiateir, yn ogystal â cheisio uchafu cyfraddau dirprwyo a sicrhau bod unrhyw geisiadau am wybodaeth bellach oddi wrth ymgeiswyr yn glir, yn rhesymol ac yn gymesur.

- 6.9 Mae'r TAN drafft a dogfen ymgynghori DCLG am Ofalaeth Datblygiad yn ymgais ddifrifol a hynod ddefnyddiol i geisio esbonio cysyniad gofalaeth datblygiad ac ystyriaethau ymarferol rhoi'r ymagwedd gyffredinol hon ar waith.
- 6.10 Mae'r ddau hefyd yn ymdrin â rheoli a chydbwysu materion, ac asesu effeithiau a pherfformiad cynllun (a sut mae dylanwadu, siapio a gwella hyn i "sicrhau ansawdd" datblygiad yn hytrach na'i reoleiddio yn unig). Mae neges bwysig yma am eglurdeb ac ansawdd adroddiadau

pwyllgor a'r angen i fod yn dryloyw o ran sut a pham mae penderfyniad wedi ei gyrraedd. Mae enghraifft dda o gymhwyso'r ymagwedd hon at benderfyniad allweddol (ar bwnc pwysig) wedi ei chynnwys isod. Daw hon o awdurdod (Castell-nedd Port Talbot) sydd wedi rhoi cyfres o newidiadau ar waith yn ddiweddar i'r ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaeth gofalaeth datblygiad.

Cyngor Ymarferol 6: Fferm Wynt Maesgwyn, Glyn-nedd (Cyfeirnod y Cais: P/2006/1261)

Mae'r cais hwn yn ymwneud â datblygu fferm wynt 45MW sy'n cynnwys 15 tyrbîn gwynt 3MW gyda mastiau, is-orsaf ac isadeiledd cysylltiedig ynghyd â gwella mynediad presennol i'r A4109 a thraciau mynediad mewnol ac ati.

Lleolir safle'r cais o fewn ardal weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gan hynny, cafodd y cais ei gyflwyno i'r cyngor hwnnw a'i benderfynu ganddo. Fodd bynnag, oherwydd lleoliad safle'r cais a'i effaith weledol ganfyddedig dros ardal eang, ymgynghorodd CBS CNPT fel yr Awdurdod penderfynu â nifer o ACLI cyffiniol fel rhan o'r broses ymgeisio. Yr ACLI yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses ymgeisio yw:

- Cyngor Sir Powys;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; ac
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Yn ymarferol, y tri ACLI hyn oedd yr Ymgynghoreion Statudol at ddiben y cais cynllunio. Ceisiwyd barn yr ACLI hyn er mwyn helpu i lywio'r sawl a wnaeth y penderfyniad yn CBS CNPT. Yn unol â hynny, aeth pob un o'r ACLI cyffiniol hyn ati i ystyried y datblygiad arfaethedig cyn bwydo eu sylwadau ymlaen i'r Awdurdod penderfynu.

O'r Awdurdodau cyffiniol, ni chododd Cyngor Sir Powys unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ond cododd Rhondda Cynon Taf a'r Awdurdod Parc cenedlaethol wrthwynebiadau iddo. Cafodd y gwrthwynebiadau hyn eu llunio ar wahân hân y ddau Awdurdod a'u hanfon i Gastell-nedd Port Talbot am eu hystyriaeth fel rhan o'r gwaith penderfynu'r cais cynllunio.

Triniodd CBS CNPT ymatebion yr ACLI yn yr un modd ag ymatebion a gafwyd gan ymgynghoreion statudol fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Dŵr Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Felly rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i'r gwrthwynebiadau a'r rhesymeg tu ôl i'r gwrthwynebiadau o fewn adroddiad pwyllgor cynllunio'r Cyngor.

Codwyd y gwrthwynebiadau cryfaf gan y parc cenedlaethol a oedd o'r farn y byddai'r datblygiad yn effeithio'n sylweddol ac yn andwyol ar rinweddau arbennig Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mater i Gastell-nedd Port Talbot felly fel yr Awdurdod penderfynu oedd ystyried pa bwysau y dylai eu rhoi i'r gwrthwynebiadau hyn ac a oedd y gwrthwynebiadau yn ddigon i arwain at wrthod y cais, o'u hystyried yn erbyn pob ystyriaeth gynllunio berthnasol arall.

Cafodd y gwrthwynebiadau a godwyd gan y Parc Cenedlaethol eu hadlewyrchu hefyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a ystyriodd nad oedd yr arfarniad tirlun a gweledol a gyflwynwyd gyda'r cais yn ddigonol i benderfynu'r cais. Gan hynny argymhellodd CCW y dylai'r cais gael ei ohirio wrth ddisgwyl gwybodaeth ychwanegol, ar yr un pryd â chynghori gwrthod y cais os oedd yr Awdurdod yn ei benderfynu.

Fel yr Awdurdod penderfynu, esboniodd adroddiad pwyllgor cynllunio Castell-nedd Port Talbot yn fanwl iawn effaith y datblygiad arfaethedig ar y Parc Cenedlaethol. Casgliad y Cyngor ar y pwynt hwn oedd er y byddai'r datblygiad yn weledol o'r tu fewn i'r Parc Cenedlaethol, ni fyddai'r effaith weledol mor arwyddocaol ei fod yn haeddu gwrthod y cais. Ystyriodd y Cyngor bob mater arall mewn perthynas â'r cais wrth ddod i benderfyniad i gymeradwyo'r cais, gan gynnwys gwrthwynebiadau a godwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru mewn perthynas â'r ffaith bod yr wybodaeth yn annigonol i asesu effaith weledol y datblygiad. Ar y mater hwn, nododd yr Awdurdod penderfynu fod yr wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais yn ddigonol i'r Awdurdod asesu'r effaith weledol.

Gwnaeth adroddiad y pwyllgor cynllunio ar gyfer y cais yn glir bod Castell-nedd Port Talbot yn ymwybodol y câi'r datblygiad effaith weledol ar y tirlun, a hynny o aneddiadau lleol, ardaloedd cyffiniol ac o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, daeth adroddiad y pwyllgor i'r casgliad nad yw'r ffaith bod y datblygiad yn weledol, ynnddi ei hun, yn rheswm dros wrthod ac yn bwysig bod y datblygiad yn cydymffurfio â'r polisi cynllunio cenedlaethol ar ynni adnewyddadwy.

Mae'r astudiaeth achos hon un tanlinellu'r ffaith y gall fod safbwyntiau a barn gyferbyniol rhwng ACLI (ac ymgynghoreion statudol) ar gynigion datblygu y bydd ganddynt effaith drawsffiniol. Dan amgylchiadau o'r fath, mater i'r Awdurdod penderfynu yn y pen draw (y mae'r safle o dan ei reolaeth weinyddol) yw ystyried pob barn berthnasol ac ymateb ymgynghori er mwyn dod i benderfyniad gwybodus. Mae hyn hefyd yn tanlinellu y gall ACLI cyffiniol osod mwy o bwyslais ar rai effeithiau, fel effaith weledol, tra bydd eraill o'r farn bod polisi cenedlaethol yn fwy arwyddocaol. Yn yr un modd, yr Awdurdod penderfynu sy'n gyfrifol am ystyried a yw'r ymatebion a roddir gan ymgynghoreion statudol yn berthnasol ac yn gymwys. Yn amlwg yn yr achos hwn ni chytunodd yr Awdurdod penderfynu â CCW ac roedd o'r farn bod yr wybodaeth a

gyflwynwyd gyda'r cais yn ddigon i ganiatáu ei benderfynu'n gadarnhaol.

Strwythur yr Adroddiad

Bu'n rhaid i Gyngor Castell-nedd Port Talbot gydbwysu nifer o faterion pwysig wrth benderfynu'r cais cynllunio hwn. Roedd yn hanfodol felly bod adroddiad y pwyllgor yn cael ei strwythuro mewn ffordd a drafododd yn llawn bob un o'r prif ystyriaethau ynghlwm wrth y cais yn ei thro. Yn hyn o beth bernir bod adroddiad y pwyllgor yn enghraifft o ddogfen wedi ei strwythuro'n dda sy'n ymdrin â phob un o'r prif ystyriaethau sydd ynghlwm wrth y cais. Mae adroddiad y pwyllgor yn dechrau drwy edrych ar y cyd-destun polisi cynllunio perthnasol a'r hanes, cyn rhestru'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghori. Yna mae prif ran yr adroddiad yn dilyn hyn ac yn cynnwys adran arfarnu'r adroddiad. Mae'r arfarniad yn dechrau gyda throsolwg o'r cynigion a disgrifiad o'r safle, cyn ymdrin yn fanwl â'r polisi cynllunio perthnasol. Yna mae'r adroddiad yn ystyried y prif faterion penderfynu sydd ynghlwm wrth y datblygiad (yn unol â'r dystiolaeth o'r trosolwg o bolisi cynllunio ac ymatebion ymgynghori). Mae'r adroddiad felly'n ymdrin yn eithaf manwl â'r materion canlynol:

- Effaith weledol;
- Effaith ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- Ymateb Cyngor Cefn Gwlad Cymru;
- Effeithiau cronol (datblygiad ffermydd gwynt eraill);
- Twristiaeth;
- Ecoleg;
- Daeareg, Hydro-ddaeareg a Hydroleg;
- Sŵn;
- Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol;
- Trafnidiaeth;
- Ymyrraeth Electromagnetig, Cryndod Cysgodion a Diogelwch;
- Gwrthwynebiadau; a Manteision Cymunedol.

Daw'r adroddiad i ben gydag adran gasgliadol sy'n tynnu ynghyd y prif ystyriaethau sydd ym marn yr Awdurdod yn berthnasol wrth benderfynu'r cais – sef effaith weledol a pholisi cynllunio sy'n annog ynni adnewyddadwy. Wrth gydbwysu'r materion hyn, mae'r adroddiad

yn glir na fernir bod yr effaith weledol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn ddigon i haeddu gwrthod y cais. Mae'r adroddiad yn cloi gyda throsolwg byr pellach sy'n amlinellu'r rhesymau dros ddod i'r penderfyniad i argymhell cymeradwyo'r cais. Mae prif gorff yr adroddiad (heb gynnwys yr amodau) yn ddim ond 25 tudalen o hyd ac nid yw'r penderfyniad wedi cael ei herio.

- 6.11 Mae'n amlwg bod llawer o arfer da arall yn bodoli eisoes ynghylch gwneud penderfyniadau cytbwys a diogel ar geisiadau cynllunio yng Nghymru (gweler, er enghraifft, astudiaeth achos 4 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn). Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd nad oes unrhyw fframwaith modern ar gyfer gofalaeth datblygiad yng Nghymru, ac y gallai'r broses ymgeisio elwa (yn sylweddol o bosibl) ar esboniad o'r ymagwedd a ddisgwylir oddi wrth ei phrif lywodraethwyr.

Argymhelliad 6: Egwyddorion Gofalaeth Datblygiad

Argymhelliad 6 yw mabwysiadu egwyddorion allweddol gofalaeth datblygiad yn ddatganiad polisi newydd (neu gwblhau Nodyn Cyngor Technegol 17⁹ newydd). Tasg bennaf yr adran/fersiwn newydd fydd pwysleisio rôl gadarnhaol y broses ceisiadau cynllunio mewn:

- a) cyflawni deilliannau ac amcanion cenedlaethol a lleol penodedig;
- b) annog (a mynnu) cydweithrediad rhwng partïon allweddol ar y cyfle cynharaf posibl;
- c) bod yn ymatebol i bawb sy'n ymwneud â'r broses ceisiadau cynllunio sy'n sy'n dod o dan ei dylanwad;
- d) cymryd barn ehangach ar y profion y dylai datblygiad newydd eu pasio (i ddisodli'r ymagwedd or-fecanistig at wneud penderfyniadau) a all fod yn fwy ymatebol i'r polisi cynllunio cenedlaethol;
- e) mireinio'r prawf fod yn rhaid i benderfyniadau ddilyn cynlluniau datblygu, fel ei fod yn gymwys *yn arbennig* i gynlluniau a fabwysiadwyd yn ddiweddar, ond yn *fwy llac* at gynlluniau hŷn nad ydynt yn ymateb i amgylchiadau neu anghenion, y gyfraith, arfer neu arweiniad presennol;
- f) sicrhau bod gofynion ceisiadau'n gymesur i'r datblygiad arfaethedig;

⁹ Gohiriwyd paratoi TAN 17 wrth ddisgwyl canlyniad yr adolygiad hwn o'r broses ceisiadau cynllunio. Gallai'r adolygiad gynnig cyfle i LICC archwilio cwmpas y cyngor a geir o fewn y ddogfen drafft a sicrhau ei fod yn gwbl gyfredol ac yn adeiladu ar arfer gorau presennol.

- g) sicrhau bod hyn ar waith drwy gydol y broses ymgeisio gyda ffocws arbennig ar gyflwyniad.

Yn bwysig, dylai'r fersiwn newydd bwysleisio bod y cyfrifoldeb dros wneud y newidiadau hyn gymaint yn nwylo'r ymgeiswyr ag y mae yn nwylo awdurdodau cynllunio, ymgynghoreion statudol ac eraill a LICC

Partneriaid Argymhelliad 6: RTPI, CBI a Chymorth Cynllunio/ Un Llais Cymru

Ymgynghori

- 6.12 Un maes penodol i'r datganiad polisi neu TAN newydd ymdrin ag ef yw ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys gwaith yr ymgynghoreion statudol a chyfranogiad y cyhoedd neu grwpiau cymunedol. Yn y ddau faes mae corff cryf o waith sydd naill ai eisoes yn bodoli neu sydd wrthi'n cael ei baratoi. Mae Chymorth Cynllunio Cymru a Chyngor Sir Gaerfyrddin wedi gweithio gyda'i gilydd ar gyfres o weithdai gyda'r nod o ddiddori rhanddeiliaid yn y broses cynllunio datblygiad drwy wella eu gallu i ddeall a chymryd rhan mewn paratoi cynlluniau, yn enwedig yn ystod cyfnodau cynnar pan fydd strategaethau'n cael eu sefydlu. Gallai'r gwaith hwn ynghyd â gwaith tebyg gan Gymorth Cynllunio Cymru gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gynnig rhai gwersi sylfaenol ar gyfer gwella cyfranogiad y cyhoedd yn y broses ceisiadau cynllunio. Treuliodd TAN 17 drafft gryn amser (yng nghyd-destun y llawer o faterion y ceisiodd eu trafod) ar ymgynghori. Mewn manau eraill mae ymgynghoreion penodol sy'n wynebu materion neu bwysau penodol wedi cymryd camau eu hunain, ac enghraifft nodedig yw paratoi memorandwm dealltwriaeth rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Ynni Gwynt Prydain (gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd). Mae yr un mor amlwg bod rhai cyrff yn ceisio statws ymgynghorai statudol (ac eisoes yn cael eu trin felly gan rai awdurdodau).
- 6.13 Yn yr un modd â chyda'r egwyddorion tu ôl i ofalaeth datblygiad, nodwyd ymgynghori yn ystyriaeth yn ystod Adolygiad Killian Pretty ac ar ddiwedd y llynedd, cynhyrchoedd CLG ddogfen ymgynghori ar y pwnc hwn (gweler isod).

Cyngor Ymarferol 7: Gwella Cyfranogiad gan Ymgynghoreion Statudol ac Anstatudol

Yn dilyn Adolygiad Killian Pretty, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ddogfen ymgynghori ym mis Rhagfyr 2009 a nododd gynigion i newid y trefniadau ar gyfer ymgynghori ag ymgynghoreion statudol ac anstatudol.

Roedd Killian Pretty wedi argymhell y dylai'r llywodraeth egluro a gwella'r broses ymgynghori a rhoi eglurdeb am ba gyrff yr oedd angen

ymgynggori â hwy, pryd mae'n rhaid gwneud, pa ymateb sy'n ofynnol a sut dylai'r ymateb hwnnw gael ei gymryd i ystyriaeth gan yr ACLI. Mewn ymateb, mae'r ddogfen yn cynnig newid trefniadau ymgynghori yn sylfaenol, gan anelu at eu gwneud yn fwy effeithiol a sicrhau yr ymgynghorir â'r cyrff cywir ar y materion perthnasol a hynny mewn modd amserol a chymesur¹⁰.

Cynigir diweddariad i'r polisi cenedlaethol ar ymgynghoreion statudol ac anstatudol a bydd hwn ynghlwm wrth y Datganiad Polisi Cynllunio (Saesneg) perthnasol ar Ofalaeth Datblygiad. Byddai hyn yn cynnwys cyngor ar:

- diffinio pa ymgynghori sy'n angenrheidiol;
- ymgynghori effeithiol gan Awdurdodau cynllunio lleol;
- fframwaith clir a chymesur ar gyfer ymgynghori;
- ymateb i ymgynghori a chynnig cyngor clir a chyson;
- ymatebion gan ymgynghoreion anstatudol;
- sut dylai ymatebion ymgynghori gael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ceisiadau; a
- defnydd amodau a rhwymedigaethau cynllunio.

Hefyd cynigir cod ymarfer drafft ar ymgynghori statudol, a fyddai'n atgyfnerthu'r datganiad polisi drwy nodi beth ddylai ACLI ei ddisgwyl gan ymgynghoreion statudol. Cod gwirfoddol fyddai hwn ond byddai disgwyl i bob ACLI ac ymgynghorai statudol ei fabwysiadu maes o law. Byddai'r cod yn canolbwyntio ar:

- cyflawni mwy o gysondeb mewn ymagweddau at ymgynghori;
- darparu mwy o eglurdeb i bob parti ynghylch prosesau ymgynghori;
- defnydd mwy effeithlon ar adnoddau a lleihau ceisiadau ymgynghori diangen;
- gwella ansawdd ymatebion a ddarperir gan ymgynghoreion statudol; a
- gwella'r driniaeth ar geisiadau ac ansawdd datblygiad.

Yn ogystal, mae'r ddogfen yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer ymgynghori statudol ac yn edrych ar feysydd lle gallai ymgynghori diangen gael ei ystwytho neu ei ddileu¹¹ (er enghraifft drwy gynyddu'r trothwyon daearyddol y dylai ymgynghori ddigwydd ynddynt ar sail statudol yn achos rhai mathau bod â rôl allweddol i'w chwarae wrth

¹⁰ Mae ystyriaethau ac amcanion tebyg wrth gwrs yn gymwys i geisiadau yng Nghymru lle gall cynlluniau gael eu gohirio gan gyrff a materion tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio. Gwelir un enghraifft yn astudiaeth achos 5 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

¹¹ Byddai hyn yn golygu diwygiad i erthygl 10 o'r GDPO. Cynigion dogfen ymgynghori DCLG y dylai pob diwygiad presennol a wnaed i'r GDPO ers 1995 gael eu cydategu mewn gorchymyn newydd i'w gyflwyno yn 2010.

wneud ymgynghori yn fwy effeithlon a thrafodir hyn yng Nghyngor Ymarferol 17.

Mae monitro mwy effeithiol perfformiad ymgynghoreion statudol hefyd yn elfen allweddol o'r cynigion ac awgrymir y dylai'r ymgynghoreion statudol gyhoeddi gwybodaeth am eu gwefannau am eu perfformiad. Y bwriad yw i hyn wella tryloywder a gwella safonau. Cynigir y dylai'r DCLG ei hun gyhoeddi tabl cryno blynyddol am berfformiad yr ymgynghoreion statudol.

- 6.14 Beth bynnag y dull a ddefnyddir, mae'n amlwg bod angen arweiniad mwy modern am rôl, potensial a pherfformiad ymgynghori ar geisiadau cynllunio (boed yn ymgynghori statudol neu'r cyfle mwy anffurfiol, ond llawn mor bwysig, i roi sylwadau ar gynigion). Y flaenoriaeth bennaf yw adolygu perfformiad presennol a nodi materion clir sydd angen sylw.

Argymhelliad 7: Gofalaeth Datblygiad – gwella ymgynghori

Dylai adolygiad o ymgynghori statudol ac anstatudol gael ei gynnal. Dylai'r adolygiad ymdrin â'r canlynol:

- a) yr ymagwedd i'w mabwysiadu yng Nghymru at y ddyletswydd i ymateb i ymgynghoreion statudol a'r cyfle am ymgynghori statudol mwy pwrpasol a safonedig (gan roi sylw i drothwyon/mathau o ddatblygiad na fyddant o bosibl yn sbarduno ymgynghori, yr amserlenni ar gyfer anfon gwybodaeth a'r amserlenni ar gyfer derbyn ymatebion a chategoreiddio'r cyngor a roddir);
- b) nifer yr ymgynghoreion statudol a'r cyfle i dynnu neu ychwanegu rhai (gan roi sylw penodol i ddarparwyr cyfleustodau, darparwyr gwasanaethau brys a buddiannau datblygiad economaidd neu fusnes). Gallai hyn olygu adolygu'r Gorchymyn Gweithdrefn Datblygiad Cyffredinol;
- c) sut mae cynnwys y cyhoedd a grwpiau lleol yn effeithiol yn y broses ceisiadau cynllunio a'r penderfyniadau mae'n eu gwneud;
- d) effaith arfer ymgynghori presennol ar wneud penderfyniadau ac amserlenni gwneud penderfyniadau (ac a yw'n gymesur), ynghyd â'r goblygiadau o ran adnoddau ymgynghori cyflymach a mwy effeithiol;
- e) goblygiadau methu â diwallu amserlenni ar gyfer ymateb;
- f) sut mae ymgynghori ar bob lefel yn cael ei adrodd;

- g) y cysylltiad rhwng ansawdd yr wybodaeth a gyflwynir gyda cheisiadau, yr amser a gymerir i ymateb ac effeithiolrwydd a gwerth yr ymateb;
- h) goblygiadau o ran adnoddau (a chostau a manteision) ymgynghori mwy effeithiol.

Gellid achub y blaen ar yr adolygiad hwn drwy gwblhau'r ymarfer ar TAN17 (argymhelliad 6) a all gynnwys cwestiynau am ymgynghori. Gellid darparu wedyn ar gyfer cynigion neu dechnegau allweddol yn y fersiwn derfynol o'r TAN. Fodd bynnag, os oes angen archwiliad mwy trylwyr a phenodol (sy'n wir yn ôl casgliadau'r adolygiad hwn), yna dylai canlyniadau'r archwiliad hwn gael eu hadlewyrchu mewn cod ymddygiad ar gyfer ymgynghoreion statudol ynghyd ag arweiniad cyfatebol i aelodau a'r cyhoedd a grwpiau cymunedol. Gallai cyrff sydd eisoes yn rhoi cynnig ar eu mesurau eu hun (gan gynnwys yr Awdurdod Glo, Asiantaeth yr Amgylchedd a CCW ac Un Llais Cymru) gychwyn hyn.

Partneriaid Argymhelliad 7: RTPI, Asiantaeth yr Amgylchedd, CCW, Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru

Trefniadaeth

- 6.15 Y trydydd dimensiwn i newid diwylliannol yw sut mae'r swyddogaeth rheoli datblygiad neu ofalaeth datblygiad yn cael ei threfnu a'i chyflwyno "ar y llawr". Mae hyn yn cyfeirio at sut mae'r broses yn cael ei gweld (neu ei dadagregu) gan yr amrywiol awdurdodau ac yna sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.
- 6.16 Dwy ran sydd i hyn. Y rhan gyntaf a phwysicaf yw'r ymagwedd *broffesiynol* at swyddogaeth gofalaeth datblygiad. Mae'r ail yn wleidyddol ac yn cydnabod pa ymagwedd bynnag a fabwysiedir, y bydd rhai penderfyniadau yn dal i gael eu cymryd gan wleidyddion lleol.

Trefniadaeth Broffesiynol

- 6.17 Mae'n amlwg bod swyddogaeth gofalaeth datblygiad yn cael ei threfnu mewn llawer o ffyrdd o fewn y 25 awdurdod cynllunio. Roedd hyn yn bryder clir gan bron pob un o'r grwpiau ffocws, ac yn bwynt arbennig yn y grŵp ffocws i gyrff cymunedol. Mae gwahaniaethau yn digwydd ar lawer o lefelau – o ba wasanaethau neu arbenigedd a geir o fewn swyddogaeth gofalaeth datblygiad, i'w berthynas â swyddogaethau cynllunio a chysylltiedig â chynllunio eraill, a sut mae'n cael ei harwain a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud. Mae gan y mwyafrif o awdurdodau dimau gofalaeth datblygiad ar sail ardaloedd (a thrafodir rhinweddau'r ymagwedd hon yn nes ymlaen o dan yr argymhellion

gweithredol). Yna caiff y timau hyn eu hategu gan amrediad o swyddogion y mae ganddynt naill ai gyfrifoldebau penodol neu arbenigeddau¹². Nid oes unrhyw restr gyffredin o'r rhain ac mae eu presenoldeb neu eu habsenoldeb yn amrywio rhwng awdurdodau cyffiniol yn aml. Dyma yn o achosion allweddol y profiad amrywiol sydd gan ymgeiswyr o'r system.

- 6.18 Mae hyn yn peri ansicrwydd, oedi a chwynion. Mae'n bosibl ei bod hefyd yn arwain at wastraff adnoddau prin ac mae darparu proses neu brofiad mwy unedig yn thema gyffredinol llawer o'r argymhellion. Mae arfer yn y maes hwn yn gyfyngedig ac hyd yma mae wedi cael ei wneud gan awdurdodau gan edrych ar eu systemau a'u prosesau eu hun.
- 6.19 Dwy brif enghraifft sydd wedi eu defnyddio gan yr adolygiad hwn – yr un gyntaf gan CBS Caerffili a gynhaliodd ei adolygiad ei hun o'r broses yn 2005 (Cyngor Ymarferol 8), a'r ail un gan CBS Castell-nedd Port Talbot (Cyngor Ymarferol 9).

Cyngor Ymarferol 8: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Gwella Proses Busnes


Yn 2005 cychwynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili adolygiad cynhwysfawr o'r ffordd roedd yn delio â cheisiadau cynllunio, o'u cyflwyno i gyhoeddi Hysbysiadau Penderfyniad. Cynhaliwyd yr adolygiad yng nghyd-destun cyflwyno system TG newydd i brosesu ceisiadau cynllunio (UNIFORM) a chafodd ei ddylunio i wella ac ystwytho gweithrediad y broses ymgeisio.

Man cychwyn yr adolygiad oedd edrych ar y gweithgareddau, pobl, offer, mewnbynnau, allbynnau, metreg a rheolaethau allweddol a oedd yn rhan o brosesu cais cynllunio a nodi cyfleoedd i wella cyflwyniad y gwasanaeth. Defnyddiwyd cyfweiliadau ag aelodau allweddol o staff am eu rolau o fewn y broses i helpu i roi trosolwg o sut roedd cyfnodau allweddol yn cael eu trin a nodi dulliau i wneud y system yn fwy effeithlon, gan gynnwys lle gellid dileu dyblygu. Cafodd y broses adolygu fod aelodau o staff o fewn adran gynllunio Caerffili yn wybodus ac yn ymrwymedig ond bod strwythurau a phrosesau presennol yn golygu bod perfformiad y system yn methu ag adlewyrchu eu proffesiynoliaeth. Gan hynny, cafodd y gweithdrefnau presennol eu hadolygu a nodwyd cyfleoedd i wella drwy gydol y broses.

¹² Roedd enghreifftiau mwy cyffredin yn cynnwys Rheolwyr Cyfraniadau (rhwymedigaethau cynllunio) ac mae gan lawer o awdurdodau fynediad i ecolegwyr mewnol. Yn ôl pob golwg nid oedd yr un awdurdod yn cynnig swyddogion rheoli datblygiad gydag arbenigedd mewn busnes neu ddatblygiad economaidd neu â chylch gwaith hyrwyddo penodol. Mae hyn yn arwain at achos gorau sydd yn aml yn cyflawni "dim gwrthwynebiad" fel ymateb oddi wrth ymgynghoreion neu swyddogion nad ydynt yn rhai craidd, yn hytrach na dangos cefnogaeth gadarnhaol (neu anghydbwysedd rhwng y ddau fath yma o ymateb neu bwysoliad sy'n dibynnu ar eu tarddle).

Gwnaeth yr Adroddiad Gwella Busnes canlyniadol argymhellion eang ar amrediad o faterion gan gynnwys gweithdrefnau gweinyddol, gofal cwsmeriaid, cyfathrebu mewnol ac allanol a rheoli gwybodaeth. Ymhlith y prif argymhellion sydd wedi eu rhoi ar waith ers hynny roedd:

- caniatáu i fwy o geisiadau gael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig;
- cyflwyno cyfarfod dyddiol ffurfiol rhwng y Swyddog Monitro, Arweinwyr Tîm a'r Rheolwr Rheoli Datblygiad i nodi ystyriaethau pwysig mewn perthynas â cheisiadau newydd a (lle bo'n bosibl) sianelu ceisiadau mawr i mewn i weithdrefnau carlam;
- defnyddio ymagwedd tîm prosiect i ddelio â cheisiadau am ddatblygiad mawr gyda chyfarfodydd tîm rheolaidd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn brydlon;
- ffurfioli'r broses ymgynghori, gan gynnwys cyflwyno gweithdrefnau i sefydliadau rhagweld yr amrediad o ymgynghoreion a mynd ar drywydd atebion angenrheidiol o fewn y terfyn amser;
- monitro perfformiad yn gyson a chyda'r nod o gyflwyno gwelliant parhaus i'r gwasanaeth cynllunio.



- 6.20 Yn fwy diweddar, ceir gwaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen sydd wedi penodi ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn "meddwl drwy systemau" a newid sefydliadol, i adolygu sut mae ei wasanaeth rheoli datblygiad yn gweithredu. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y gwasanaeth o safbwynt y cwsmer, gan edrych ar sut mae'r gwasanaeth yn ymateb i anghenion y cwsmer. Bydd yr ymgynghorwyr yn ystyried pa weithgareddau sy'n cyfrannu at fodloni anghenion y cwsmer a pha rai sy'n rhwystro ymatebolrwydd y gwasanaeth, a byddant yn ystyried sut allai'r gwasanaeth gael ei ail-ddylunio er mwyn gwella ei effeithiolrwydd.

Cyngor Ymarferol 9: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Adolygiad o Wasanaethau Rheoli Datblygiad

Yn ddiweddar mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal adolygiad o'u gwasanaeth Rheoli Datblygiad. Penodwyd ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn "meddwl drwy systemau" a newid sefydliadol i hwyluso'r adolygiad, a edrychodd ar gyflwyniad y gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd. Cafodd tîm o bedwar swyddog o'r adran Rheoli Datblygiad eu secondio o'u swyddi i weithio ochr yn ochr â'r ymgynghorwyr a chanolbwyntiodd y gwaith ar ddylunio dileu gwastraff ac aneffeithlonrwydd o fewn y system a gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid. Tri phrif gyfnod oedd i'r adolygiad:

Gwirio

Cyfnod cyntaf yr adolygiad oedd casglu data ar y galw gan gwsmeriaid a nodi gwastraff o fewn y system. Cafodd y broses ymgeisio ei mapio o dderbyn cais drwedd i gyflawni pob amod perthnasol a chafodd fod cais cynllunio cartref nodweddiadol (a oedd yn ddilys ac yn dderbyniol adeg ei dderbyn, heb dderbyn unrhyw wrthwynebiadau a'i benderfynu o dan bwerau dirprwyedig) fynd drwy 115 o wahanol gamau a 17 pâr o ddwylo. Roedd ceisiadau mwy o faint a mwy cymhleth yn cymryd mwy o amser byth. Wrth i dîm y prosiect edrych ar weithrediad y system, roedd yn amlwg hefyd bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol presennol yn cael effaith negyddol ar gyflwyniad y gwasanaeth.

Cynllunio

Wrth i'r tîm prosiect geisio ailddylunio'r system, cynhaliwyd amrywiol arbrofion i nodi'r dulliau mwyaf effeithlon o ymdrin â cheisiadau. Cymerwyd 125 o geisiadau cynllunio drwy'r cyfnod arbrofol hwn a'r canlyniad oedd gostyngiad yn nifer y camau o 115 i 33, gan leihau nifer y trosglwyddiadau o 17 i 5, gan gynnwys post sy'n cyrraedd ac yn gadael yr adran. Gosodwyd mwy o bwyslais ar ddarparu cyngor cynhwysfawr cyn-ymgeisio ar gyfer pob math o ddatblygiad.

Asesodd y tîm geisiadau cynllunio ac ymholiadau cyn-ymgeisio ar y diwrnod yn dilyn eu derbyn a chawsant eu dilysu gan y swyddog achos

yn dilyn y cyfarfod hwnnw. Lleihaodd hwn driniaeth ddwbl gan staff a gwaith diangen i ymgeiswyr ac asiantau gan leihau hefyd yr angen i swyddogion negodi diwygiadau ar ôl i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi, ac yna gorfod cyhoeddi ail-ymgynghoriadau a oedd yn ddrud, yn llyncu amser ac yn aml yn drysu ymgynghoreion. Yn dilyn arbrofi helaeth cytunwyd y byddai staff yn cael eu cwmpasu yn y system newydd.

Gwneud

Y trydydd cyfnod oedd ailstrwythuro'r gwasanaeth yn ei grynswth. Penodwyd staff i rolau newydd er mwyn cyflwyno gwasanaeth agored lle bo swyddogion achos yn cadw perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y cais o'i dderbyn drwodd i'w benderfynu.¹³ Mae'r strwythur newydd mwy effeithlon wedi arwain at welliant arwyddocaol mewn perfformiad o safbwynt y cwsmer ac yn dilyn llwyddiant yr adolygiad, mae Castell-nedd Port Talbot bellach wedi mabwysiadu dull meddwl drwy systemau mewn perthynas â gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

- 6.21 Mae'r ddwy ymgais hyn i ddatrys y broses rheoli datblygiad neu ofalaeth datblygiad yn cynnig gwersi gwerthfawr i bob awdurdod cynllunio. Maent yn sefydlu model amlymagwedd fwy penodol a chyson at swyddogaethau a chyfnodau craidd o fewn y broses a ddylai fod yn arbennig o ddefnyddiol a throsglwyddadwy ar adeg pan fydd adnoddau'n debygol o fod yn gyfyngedig ac mae angen eu defnyddio'n ofalus. Un mater penodol a ddylai gael ei drafod yw a yw defnydd timau ar sail ardal yn cynnig yr ymagwedd gywir at ofalaeth datblygiad (ac mae cysylltiad clir yma â rhai argymhellion gweithredol a wneir yn yr adran nesaf).

Argymhelliad 8: Gofalaeth Datblygiad – Gwneud y Broses a'i Chyflwyno yn fwy cyson

Argymhelliad 8 o'r adolygiad yw cyhoeddi nodyn arfer gorau ar gyflwyniad gweithrediadol y swyddogaeth rheoli datblygiad neu ofalaeth datblygiad. Dylai hwn symud i ffwrdd o ymgais i nodi strwythurau rheoli cyffredin (sy'n debygol o fod yn anodd iawn ac a allai beri straen â gweithdrefnau a strwythurau eraill) gan edrych ar fesurau perfformiad sy'n seiliedig ar ansawdd a boddhad am y broses ymgeisio a'r canlyniadau y dylai eu cyflawni. Dylai sylw arbennig gael ei roi i ddadagregu'r broses sylfaenol o fewn Cynghorau penodol a sut mae cymhwyso hyn i bob awdurdod cynllunio er mwyn uno'r broses gofalaeth datblygiad a mesur a chymharu ei pherfformiad (yn annibynnol). Dylai dimensiwn pwysig yr ymarfer hwn fod i sefydlu

¹³ O ganlyniad i'r adolygiad mae pedair swydd wedi eu dileu o'r gwasanaethau ac nid oes unrhyw dechnegwyr bellach.

costau prif gyfnodau'r broses ymgeisio a'r fantais a geir ohoni, er mwyn targedu adnoddau prin yn briodol.

Partneriaid Argymhelliad 8: PoSW

Gwleidyddol – yr Ymagwedd at Bwyllgor Cynllunio

- 6.22 Yr ail ddimensiwn i newid diwylliannol yw *gwleidyddol*. Mae hyn yn cyfeirio at y driniaeth ar argymhellion gan bwyllgor. Er bod nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y pwyllgor wedi lleihau, mae achlysuron o hyd lle bydd aelodau yn gwyrhoeddi o'r cyngor proffesiynol a phwyllgor. Er y dylid disgwyl hyn mewn system ddemocrataidd, mae'n dal yn ffynhonnell pryder ac ansicrwydd. Mewn rhai awdurdodau a hyd yn ddiweddar, roedd yn digwydd yn rheolaidd.
- 6.23 Fodd bynnag, mae yna ffyrdd o ymdrin â'r sefyllfaoedd hyn ac mae'r Gwasanaeth Cyngorol Cynllunio wedi cynhyrchu peth deunydd defnyddiol i lywio ymgysylltiad effeithiol Cyngorwyr. I Gymru mae profiad diweddar Cyngor Sir y Fflint hefyd yn cynnig rhai cynghorion defnyddiol.

Cyngor Ymarferol 10: Mesurau i Wella Perfformiad y Pwyllgor Cynllunio – Sir y Fflint

Yn dilyn cyfres o Adroddiadau Archwilio Allanol a feirniadodd wahanol agweddau ar y gwasanaeth cynllunio yn Sir y Fflint, penderfynwyd cyflwyno cyfres o fesurau i wella perfformiad y pwyllgor cynllunio. Roedd y pecyn o ddiwygiadau'n cynnwys:

- Cyflwyno'r hawl i drydydd partïon roi sylwadau gerbron y pwyllgor cynllunio;
- Cyflwyno cyfnod pwyllgo yn dilyn penderfyniadau sydd wedi eu cymryd yn erbyn argymhelliad Swyddogion i ganiatáu i aelodau'r pwyllgor ailystyried eu penderfyniad;
- Symud cyfarfodydd pwyllgor o Siambr y Cyngor i ystafell bwyllgora er mwyn annog awyrgylch llai gwrthwynebus a phleidiol.

Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi manteisio ar eu Grant Datblygu Cynllunio i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant aelodau, sy'n ymdrin ag amrediad eang o faterion perthnasol. Mae'r rhaglen hyfforddiant yn cynnwys y prif elfennau dilynol:

- Sesiynau hyfforddiant rheolaidd i aelodau'r pwyllgor ar faterion allweddol fel rôl aelodau, ystyriaethau perthnasol, Cynlluniau Datblygu Lleol ac Apeliadau.

- Gweithdai a gynhelir gan swyddogion cynllunio i bob aelod etholedig gan edrych ar faterion penodol polisi cynllunio y bu dadlau neu gamddealltwriaeth yn eu cylch yn y gorffennol.
- Taith flynyddol o ddatblygiadau gorffenedig i bob aelod etholedig, gan edrych ar safleoedd a fu'n ddadleuol a thrafod materion sensitifrwydd a sut cawsant eu datrys.

O ran y rhaglen hyfforddi graidd, mae'n ofynnol i aelodau pwyllgor (neu brocsi a enwebir) fynychu 75% o'r sesiynau hyn dros gyfnod o ddwy flynedd neu wynebu gael eu tynnu o'r pwyllgor.

- 6.24 Er y bu gwelliant yn y berthynas rhwng cyfnodau proffesiynol a gwleidyddol y broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru, mae achlysuron o hyd pan fydd ymyrraeth wleidyddol leol yn gwyo'r canlyniadau. Mae hyn fel arfer yn rhan o'r broses ddemocrataidd¹⁴, ond mae'r adolygiad newydd yn cynnig cyfle i leihau'r ansicrwydd mae hyn yn ei achosi.

Argymhelliad 9: Yr Ymagwedd at y Pwyllgor

Argymhelliad 9 yw i ddarparu arweiniad sylfaenol i awdurdodau cynllunio ar drefnu pwyllgor cynllunio. Dylai prif ddiben yr arweiniad hwn fod i wneud profiad y pwyllgor mor ragweladwy (ac mor gyffredin) â'r broses ymgeisio. Dylai'r ffocws felly fod ar safoni (drwy arfer gorau):

- a) cyhoeddi adroddiadau a chyflwyniadau i'r Pwyllgor ymlaen llaw;
- b) yr ymagwedd ar siarad mewn pwyllgor;
- c) aelodaeth, gofynion mynychu a niferoedd ar y pwyllgor;
- d) gofynion hyfforddi gorfodol ar gyfer aelodau ac yn enwedig cadeiryddion a/neu ddeiliaid portfolio;
- e) cyflwyno cyfnodau pwylo lle gwneir penderfyniadau yn erbyn cyngor swyddogion;
- f) darparu ar gyfer pwyllgorau arbennig i wrando ceisiadau arbennig o ddadleuol a/neu gyflwyno sesiynau trafod neu holi ac ateb rhagarweiniol arbennig ar gyfer y cynigion hyn;
- g) protocolau a throthwyon i geisiadau gael eu gwranddo gan y pwyllgor.

¹⁴ A gellir rheoli hyn yn effeithiol drwy'r broses ceisiadau cynllunio, hyd yn oed pan geir gwrthwynebiad sylweddol sydd wedi trefnu'n dda iawn – gweler astudiaeth achos 6 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Dylai ystyriaeth gael ei rhoi i'r arfer yn yr Alban lle bo'n ofynnol i aelodau sy'n gwro o argymhellion swyddogion ar geisiadau amddiffyn eu penderfyniadau heb gymorth swyddogion

Partneriaid Argymhelliad 9: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

7.0 Argymhellion Thema 3: Gweithredu

Cyflwyniad

- 7.1 Tir cyffredin ymhlith llawer os nad pob un a gyfrannodd at yr adolygiad oed bod yna gamau ymarferol a all ac a ddylai gael eu cyflwyno i weithrediad y system ceisiadau cynllunio. Nodwyd nifer fawr o fesurau. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n diwallu prif amcanion yr adolygiad (lleihau ansicrwydd, rheoli cymhlethdod a gwella ymatebolrwydd) a'r mandad clir i'w cyflwyno'n gyflym ac yn gadarnhaol, yn ymrannu'n chwe phrif gategori:
- a) Lleihau nifer y ceisiadau.
 - b) Uno a gwella cyngor a gweithdrefnau cyn-ymgeisio.
 - c) Symleiddio ac uno protocolau dilysu.
 - d) Gwella e-gynllunio a'r Porth Cynllunio yng Nghymru.
 - e) Creu cronfeydd canolog o arbenigedd ar faterion neu gynlluniau allweddol ac annog gweithio ar y cyd.
 - f) Gweithredu caniatadau (a defnydd amodau cynllunio).

Lleihau Nifer y Ceisiadau

- 7.2 O fynd ati'n gywir ac yn bwrpasol, dylai lleihau nifer y ceisiadau cynllunio wneud y system yn fwy cymesur, gan ryddhau adnoddau prin (o fewn awdurdodau cynllunio ond hefyd i ymgeiswyr ac ymgynghoreion statudol) ar gyfer tasgau mwy hanfodol. Mae'n annhebygol y bydd gwrthwynebiad i'r cynnig hwn gan unrhyw barti a, gyda ffocws priodol, dylai gostyngiadau helpu i gyflawni amcanion economaidd a chymdeithasol allweddol heb beri tyndra amgylcheddol.
- 7.3 O'r adolygiad hwn, mae modd eu lleihau mewn dwy brif ffordd. Drwy estyn hawliau datblygiad a ganiateir (a newidiadau rhwng defnydd yn yr un dosbarth datblygiad neu weithgaredd), a thrwy gyflwyno canllawiau cliriach ar fân newidiadau a rhai nad ydynt yn berthnasol i gynlluniau (sydd ar y gweill neu'n mynd rhagddynt ond sydd heb eu cwblhau) na fyddant yn sbarduno'r angen am gais cynllunio.

Hawliau Datblygiad a Ganiateir

- 7.4 Mae estyn y mathau a'r ffurfiau datblygiad nad ydynt yn gofyn am ganiatâd cynllunio yn cynnig mecanwaith allweddol i leihau nifer y ceisiadau ac yn targedu adnoddau ar gynlluniau sydd wir yn haeddu sylw. O ran hawliau datblygiad a ganiateir, mae ymchwil ddiweddar a

gomisiynwyd ar y cyd gan LICC a CLG (sydd wedi ei weithredu i raddau helaeth yn Lloegr erbyn hyn) yn cynnig cyfeiriad defnyddiol ar gyfer newidiadau yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyngor Ymarferol 11: Datblygiad a Ganiateir

Cyflwynwyd newidiadau yn Lloegr yn 2008 (trwy Offeryn Statudol 2008/2362) a ddiwygiodd y GDPO i estyn amrediad o hawliau datblygiad a ganiateir ar gyfer datblygu gan ddeiliaid tai gan gynnwys y rhai mewn perthynas ag estyniadau i dai, na chawsant eu hailadrodd yng Nghymru.

Amcanion y diwygiadau oedd rhoi mwy o ryddid i ddeiliaid tai i estyn eu heiddo wrth gyfyngu effeithiau negyddol ar eraill a lleihau'r baich ar ACLI drwy ddileu ceisiadau cynllunio diangen o'r system.

Cyflwynwyd newidiadau pellach i'r gorchymyn datblygiad a ganiateir yn Lloegr yn Ebrill 2008, gan gynnwys cyflwyno hawliau datblygiad a ganiateir i osod offer meicro-eneradu cartref. Wedi hynny cafodd yr hawliau datblygiad a ganiateir hyn eu cyflwyno yng Nghymru ym Medi 2009, gan ganiatáu drwy hynny i ddeiliaid tai ymgymryd â gweithrediadau penodol mewn cysylltiad â meicro-eneradu heb yr angen am ganiatâd cynllunio.

Yn 2008 daeth Adolygiad Killian Pretty i'r casgliad y dylai'r Gorchymyn Cyffredinol Datblygiad a Ganiateir (GDPO) yn Lloegr gael ei ddiwygio ymhellach i ddileu rhagnodi a manylder diangen. Argymhellodd yr adolygiad y dylai nifer y datblygiadau masnachol graddfa fach a mân ddatblygiadau annomestig eraill sy'n cael eu trin fel datblygiad a ganiateir gael ei estyn ac y dylai'r cynllun cymeradwyo blaenorol gael ei estyn i gynnig ymagwedd ganolradd addas rhwng datblygiad a ganiateir a chaniatâd cynllunio.

Yng Ngorffennaf 2009 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ymgynghori mewn ymateb i argymhellion KPR o dan y teitl "Improving Permitted Development", a geisiodd farn am estyn hawliau datblygiad a ganiateir ar gyfer sefydliadau addysgol, diwydiant, swyddfeydd, siopau a warysau. Byddai'r newidiadau a gynigiwyd yn dileu'r angen am 25,000 o geisiadau cynllunio ac yn arbed £9 miliwn mewn ffioedd y flwyddyn yn Lloegr. O dan y cynigion, ar yr amod nad yw estyniadau'n fwy na 25 % o'r gofod llawr presennol, gallai siopau gael eu hestyn gan hyd at 50 metr sgwâr ac yn achos colegau, prifysgolion ac ysbytai, gan hyd at 100 metr sgwâr.

Mae canlyniadau'r ymgynghoriad yn dal i gael eu disgwyl, ond byddai'n ymddangos bod cyfeiriad polisi ar y mater hwn yn y dyfodol yn Lloegr yn amlwg.

Yn ogystal â'r GPDO, mae'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd wedi cael ei ddiwygio hefyd yn y blynyddoedd diwethaf yn Lloegr, gan gyflwyno Gorchymyn newydd yn 2005. Nod y prif newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yw caniatáu i Ddosbarth A gadw i fyny â newidiadau masnachol fel bod

- caffis rhyngrwyd yn dod i mewn i Ddosbarth A1
- clybiau nos a chlybiau warws manwerthu yn dod yn *sui generis*;
- dosbarth A3 ("Bwyd a Diod" o'r blaen) bellach yn cael i leihau o ran ei gwmpas i "Fwytai a Chaffis" (gan eithrio manau bwyd parod, tafarnau a barau);
- Creu Dosbarth A4 newydd ("Sefydliadau Yfed") ar gyfer tafarnau a barau;
- Mannau bwyd parod bellach yn dod i mewn i Ddosbarth A5 newydd;
- Ni fydd angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o Ddosbarthiadau A3, A4 nac A5 i Ddosbarthiadau A1 ("Siopau") neu A2 ("Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol");
- Hefyd ni fydd angen caniatâd cynllunio i newid defnydd o Ddosbarthiadau A4 neu A5 i A3;
- Bydd angen caniatâd cynllunio i newid o Ddosbarthiadau A1, A2 neu A3 i Ddosbarthiadau A4 neu A5; a
- Bydd angen caniatâd cynllunio hefyd am newid defnydd o Ddosbarth A4 i A5 neu o Ddosbarth A5 i A4.

Hyd yma, nid yw'r un o'r newidiadau uchod i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd wedi cael eu cyflwyno yng Nghymru. Ymgynghorwyd ar newidiadau i'r Gorchymyn Dosbarth Defnydd yng Nghymru yng Ngorffennaf 2006.¹⁵

- 7.5 Mae'n amlwg bod cryn synnwyr cyffredin yn yr ymagwedd. Nid yw'n syndod felly bod tir cyffredin hefyd ag amcanion, canfyddiadau a themâu'r adolygiad hwn. Lleihau nifer y ceisiadau, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig, yw un ffordd y gall y broses ceisiadau cynllunio helpu i symbylu adferiad economaidd neu arloesiad. Bydd hefyd yn rhyddhau beth sy'n debyg o fod yn adnoddau mwyfwy

¹⁵ Cafodd ymchwil am y Gorchymyn Dosbarthiad Defnydd ei chomisiynu gan yr Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau ar y pryd yn 2000. Er iddi edrych ar effaith y Gorchymyn ar gyflawni amcanion cynllunio yn Lloegr yn unig, dynigiodd ddadansoddiad defnyddiol a llywiodd y Papur Ymgynghori "Changes to the Development Control System in Wales" yng Ngorffennaf 2006.

estynedig awdurdod cynllunio ar gyfer cynlluniau unigol mwy sylweddol.

Argymhelliad 10 – Estyn Datblygiad a Ganiateir

Argymhelliad 10 yw i ddilyn (ac os oes modd, cyflymu) cynigion Gorffennaf 2009 am estyniad i hawliau datblygiad a ganiateir mewn sectorau economaidd allweddol a/neu gychwyn Gorchymyn Cyffredinol Datblygiad a Ganiateir newydd i Gymru. Dylai sylw arbennig gael ei roi i'r trothwyon gofod llawr a chyfaint a nodir yn yr ymgynghoriad ac a oes unrhyw categorïau arbennig yng Nghymru sydd angen mwy neu lai o reolaeth. Dylai ymagwedd debyg gael ei mabwysiadu at y gorchymyn dosbarthiadau ddefnydd gydag ymgynghoriad 2006 yn blatfform defnyddiol ar gyfer yr ymarfer hwn.

Partneriaid Argymhelliad 10: Cymdeithas y Gyfraith, PEBA, Yr Awdurdod Glo

- 7.6 Dylai'r adolygiad ystyried y meysydd, amodau neu gynigion lle y bydd ac na fydd datblygiad a ganiateir yn gymwys (neu lle gosodir amodau). Tynnwyd sylw penodol at ddyfrffyrdd, archaeoleg ac adeiladau hanesyddol, rhywogaethau a ddiogelir, gweithfeydd glo a mwyngloddio, er y bydd materion eraill yn gymwys wrth gwrs. Yn ogystal tynnwyd sylw'r adolygiad at yr angen am estyniad i ddatblygiad a ganiateir i ddeiliaid tai fel ffordd o ryddhau adnoddau prin a hoelio sylw ar gynigion pwysicach.

Mân Newidiadau

- 7.7 Gall dileu categorïau o ddatblygiad sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio helpu i adfer ffocws y system gynllunio ar faterion a chynlluniau allweddol. Felly hefyd ymagwedd fwy cymesur at gynigion i amrywio cynlluniau sydd eisoes wedi eu caniatáu. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithdrefn safonol am hyn – gyda rhai awdurdodau yn gweithredu system hyblyg ac eraill yn ei chael yn anodd gweld unrhyw newidiadau yn rhai mân neu'n amherthnasol (neu'n defnyddio athroniaeth gwbl anhyblyg yn y maes hwn). Roedd hyn yn peri anhawster i ymgeiswyr a chafodd ei godi'n benodol yn sesiwn y grŵp ffocws i Adeiladwyr Tai (a gynigiodd y cyngor ymarferol dilynol i esbonio'r materion a godwyd).

Cyngor Ymarferol 12: Mân Ddiwygiad Church Village

Sicrhaodd Charles Church Wales Ltd ganiatâd cynllunio amlinell am aildatblygiad preswyl safle ym Maes yr Eglwys, St Illtyd Road, Church Village ar apel ym mis Chwefror 2004. Cyfeirnod y cais amlinell gwreiddiol oedd 03/01547. Yn dilyn y gymeradwyaeth amlinell hon, cymeradwywyd caniatâd cynllunio llawn i ddatblygu 44 annedd ar y safle ar 17 Gorffennaf 2006, o dan Gyfeirnod cais 06/1431/10.

Roedd y caniatâd cynllunio llawn (06/1431/10) a gymeradwywyd yn cynnwys amrediad o fathau o dai, a oedd yn cynnwys 10 tŷ 'Leicester'. Cynigiodd Charles Church Wales Ltd newid 4 o'r tai math Leicester a gymeradwywyd yn fath newid o dŷ o'r enw 'Milton'. Y bwriad oedd i'r 4 tŷ o'r math newydd lenwi'r un rhan o'r safle â'r tai math 'Leicester' a gymeradwywyd gan ddefnyddio'r safleoedd parcio ceir a gymeradwywyd. I bob pwrpas roedd ôl troed y math o dai a gymeradwywyd a'r tai a fwriadwyd i gymryd eu lle yr un peth. Yr unig wahaniaeth perthnasol rhwng y ddau fath o dŷ oedd uchder yr adeiladau. Roedd y tai o fath 'Milton House' mewn gwirionedd yn is o ran uchder na'r math o dai 'Leicester' a gymeradwywyd, gyda gostyngiad o'r dyluniad 3 llawr a gymeradwywyd i ddyluniad safonol 2 llawr.

Er gwaeth mân natur y gwahaniaeth rhwng y datblygiad a gymeradwywyd a'r math o dai newydd a fwriadwyd, ni fyddai'r Awdurdod Lleol yn caniatáu i'r mater gael ei drin yn fân ddiwygiad i'r cynllun a gymeradwywyd. Felly, bu'n rhaid i Charles Church Wales Ltd gyflwyno cais cynllunio llawn (Cyf 09/0204) am y pedwar tŷ o fath Milton. Cyflwynwyd y cais ym mis Chwefror 2009 gyda datganiad dylunio a mynediad ategol ynghlwm wrtho, dan ddenu ffi statudol pellach o £1,264. Cymeradwywyd y cais ar 10 Mehefin 2009, yn ddarostyngedig i osod 18 amod.

- 7.8 Ar yr wyneb, nid dyma'r defnydd gorau ar adnoddau prin (i'r ymgeisydd na'r awdurdod). Fodd bynnag, nid yw'n beth newydd ac edrychodd yr ymchwil a gomisiynwyd am hawliau datblygiad a ganiateir hefyd ar sut gallai'r ymagwedd gyffredinol at newidiadau mân neu heb fod yn berthnasol i gynlluniau gael ei ffurfioli a'i symleiddio.
- 7.9 O ran diwygiadau heb fod yn berthnasol mae'r ymchwil hon wedi arwain at gyflwyno adran 96A o Ddeddf 2008 yn Lloegr. Mae hyn yn gwneud darpariaeth eithaf ffurfiol am newidiadau bach i gynlluniau. Cyflwynwyd ffurflen newydd ynghyd â gofynion penodol ar gyfer hysbysu a gwneud penderfyniad. Er bod rhaid i'r rhain ddisodli unrhyw weithdrefnau anffurfiol roedd y Cyngor yn eu defnyddio o'r blaen, nid ydynt yn arbennig o feichus (ac nid yw ceisiadau er enghraifft yn sbarduno'r angen am ddatganiadau dylunio a mynediad nac i gynhyrchu hysbysiad penderfynu newydd). Yr hyn sydd ar goll o'r canllawiau ar y cynnig hwn yw unrhyw wybodaeth am beth allai gyfrif yn newid heb fod yn berthnasol. Mae'n ddefnyddiol, fodd bynnag, nodi y dylai'r penderfyniad gael ei wneud yng nghyd destun y cynllun cyffredinol. Mae'r canllaw hefyd yn datgan y dylai penderfyniadau gael eu gwneud cyn pen 28 diwrnod.
- 7.10 Gan droi at fân newidiadau perthnasol, mae ymagwedd dau gyfnod wedi ei chynnig gan y CLG. Y broses a argymhellir ar gyfer mân newidiadau perthnasol yw caniatáu i awdurdodau amrywio cynlluniau

drwy newid amod sy'n rhestru'r cynlluniau a gymeradwywyd (drwy gais a wneir o dan adran 73 o'r Ddeddf). Lle na fydd y cyfryw amod yn bodoli, yr ymagwedd yn ôl pob golwg yn caniatáu mewnosod amod fel newidsydd heb fod yn berthnasol i'r caniatâd (o dan adran 96A fel a ddisgrifir uchod) am y gall newidiadau heb fod yn berthnasol gael eu gwneud i'r caniatâd ei hun yn ogystal â'r datblygiad mae'n ei ganiatáu. Yna gallai'r cais o dan yr amod newydd gael ei ddilyn i wneud y mân newid perthnasol i'r cynllun.

- 7.11 Gwelir y prif brawf a yw'r cynnig i'w ystyried yn fân newid mewn diffiniad a ddyfeisiwyd gan ymgynghorwyr y CLG, White Young Green Planning, sef:

“A minor material amendment is one whose scale and nature results in a development that is not substantially different from the one which has been approved”.

- 7.12 Pa ymagwedd bynnag sy'n cael ei mabwysiadu, mae'n amlwg bod angen gwelliannau yn y drefn ar newidiadau bach i gynlluniau (p'un a ydynt yn cael eu galw'n fân newid neu'n newid heb fod yn berthnasol). Mae gan ddull CLG beth rhinwedd yng Nghymru, gan nad oes unrhyw ymagwedd gyffredin (gyda'r ymatebion yn amrywio rhwng swyddogion o fewn yr un awdurdod yn ogystal â rhwng awdurdodau). Byddai'r ymagwedd hefyd yn ffurfioli'r broses - yn enwedig i newidiadau heb fod yn berthnasol a gallai ryddhau'r awdurdod rhag ceisiadau eraill na ddylai drafferthu gyda hwy mewn gwirionedd. Fodd bynnag, fel y saf, nid yw'n darparu unrhyw arweiniad i oresgyn yr ystyriaeth sylfaenol - sef goddrychedd y penderfyniad ar beth yn union yw'r newid a gynnigir. Dyma lle gallai'r drefn yng Nghymru ddarparu fframwaith gwell ar gyfer newidiadau bach i gynlluniau.

Argymhelliad 11 – Ymagwedd Ymarferol at Fân Ddiwygiadau

Argymhelliad 11 yw i fabwysiadu ymagwedd ychydig wahanol ar newidiadau bach a allai ddod o dan y teitl gweithio Mân newidiadau i gynlluniau a gymeradwywyd. Gallai hyn fabwysiadu ymagwedd ymarferol tebyg i'r cynllun (o dan 96a) ar gyfer diwygiadau heb fod yn berthnasol ond ni fyddai'n gofyn cyflwyno cais ffurfiol. Fodd bynnag, câi ei hategu gan gyngor ar beth allai gael ei ystyried (hyd yn oed os caiff ei ddiffinio yn ôl beth na chaiff – efallai drwy brofion tebyg a sefydlwyd an hawliau datblygiad a ganiateir). I fân newidiadau perthnasol ni welwn unrhyw angen am newidiadau neu wriadau sylweddol o ymagwedd y CLG (ac eithrio'r cyfle rhagorol i fabwysiadu'r cysyniad mwy uchelgeisiol hwn a'r angen i sicrhau bod pob caniatâd yn cynnwys amod sy'n cynnwys y darluniau a gymeradwywyd – gweler argymhelliad 16).

Partner Argymhelliad 11: RTPI ac HBF

- 7.13 Codwyd pryderon tebyg (gan gyrrff tebyg) i'r rhai a nodwyd ar gyfer yr argymhelliad blaenorol (ar addasu hawliau datblygiad a ganiateir). Mae'n bwysig bod unrhyw weithdrefnau newydd yn cael eu cydategu gan gyngor ar amgylchiadau eu cymhwyso a pheidio â'u cymhwyso, neu o dan ba amgylchiadau ac ym mha leoliadau y dylid ymgynghori â rhai grwpiau neu sefydliadau penodol ar ddiwygiadau heb fod yn berthnasol neu fân newidiadau perthnasol.

Cyngor Cyn-ymgeisio

- 7.14 Soniodd bron pob parti neu unigolyn a gyfrannodd at yr adolygiad am botensial cyfnod cyn-ymgeisio y broses. Fodd bynnag, roedd profiad o'r fantais a gafwyd mewn gwirionedd yn gymysg¹⁶. Roedd hyn yn rhannol oherwydd yr amrywiaeth o ymagweddau a fabwysiadwyd gan yr awdurdodau cynllunio ac yn rhannol o ganlyniad i bwysau cynyddol ar adnoddau ymgeiswyr, awdurdodau a phartion eraill â diddordeb. Rhoddir dwy ymagwedd gan awdurdodau sy'n mynd ati i gynnal trafodaethau cyn-ymgeisio isod.

Cyngor Ymarferol 13: Gweithdrefnau Cyn-ymgeisio Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg

Bro Morgannwg

Mae gwefan Bro Morgannwg yn cynnwys trosolwg o weithdrefn cyn-ymgeisio y Cyngor ac yn pennu'r safonau gwasanaeth gofynnol y gellir eu disgwyl. Mae'r weithdrefn yn pennu'r safonau gwasanaeth gofynnol y gellir eu disgwyl oddi wrth y Cyngor yn nhermau arweiniad cyn-ymgeisio. Yn bwysig, mae'r weithdrefn yn cadarnhau'r hyn mae ei angen oddi wrth ymgeiswyr er mwyn i'r Cyngor fwrw ymlaen â thrafodaeth gyn-ymgeisio, ar yr un pryd â manylu ar ba gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd wrth ymateb i drafodaeth o'r fath. Mae'r ddogfen yn cadarnhau hefyd o fewn pa amserlenni y bydd y Cyngor yn ceisio ymateb.

Cynigiodd yr ymagwedd hon fantais sylweddol i bawb a oedd yn ymwneud â'r cais mwyaf a wnaed yn ddiweddar yn y Fro (ar gyfer Prosiect Metrix/Coleg Technegol Amddiffyn Sain Tathan). Yn dilyn paratoi a mabwysiadu briff datblygu, trefnwyd cyfres o drafodaethau cyn-ymgeisio rheolaidd (ar sail themâu neu ystyriaethau allweddol), ynghyd â rhaglen gynhwysfawr o ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid cyn-cyflwyno. Caniataodd y broses i'r cais gael ei gyflwyno gyda hyder ynghylch yr ystyriaethau, rhagolygon ac amserlenni a chael ei benderfynu'n ddiogel. Mae'r cydweithrediad hwn wedi estyn i'r cyfnod gweithredu, ôl-benderfynu, gyda chyfres o

¹⁶ Mae'r potensial i gael effaith arwyddocaol a phositif eisoes yn amlwg, yn enwedig lle bu trafodaethau cynnar ac agored. Gweler astudiaeth achos 7 yn atodiad 4 ar ddiwedd yr adroddiad. hwn

gyfarfodydd yn digwydd ar gyflawni'r amodau. Mae'r ymagwedd gyffredinol yn cynnig gwersi gwerthfawr ar gyfer rheoli datblygiad yn bositif ledled Cymru.

Sir Gaerfyrddin

Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys tudalen a rydd wybodaeth am 'gyngor cyn gwneud cais'. Mae'r cyngor hwn yn annog ymgeiswyr i gysylltu â'r swyddogion achos rhanbarthol perthnasol yn y Cyngor ac yn amlinellu pa gyngor y bydd y Cyngor yn ei roi i ymgeiswyr yn rhan o'r broses hon. Yn bwysig, mae'r Cyngor yn datgan y rhoddir unrhyw gyngor cyn-ymgeisio heb ragfarn i ystyriaeth ffurfiol cais gan y Cyngor. Unwaith eto, mae cyngor y Cyngor yn rhoi arweiniad am yr wybodaeth y dylai ymgeiswyr ei rhoi er mwyn sicrhau bod cyngor cyn-ymgeisio mor gynhwysfawr ag y gall fod. Mae'r arweiniad yn rhoi trosolwg hefyd o dri categori gwahanol datblygiad a'r ymagweddau gwahanol a ddylai gael eu mabwysiadu ar gyfer pob un - sef datblygiadau gan ddeiliaid tai; datblygiadau mawr neu brosiectau arbennig; a cheisiadau Asesiad Effaith Amgylcheddol.

At ei gilydd mae'r arweiniad a roddir ar wefannau'r Cynghorau yn rhoi trosolwg defnyddiol o'r weithdrefn gyn-ymgeisio y mae'r Cynghorau'n eu gweithredu gan ganiatáu i ymgeiswyr ddeall pa wybodaeth y bydd ei hangen ganddynt wrth ymgymryd â thrafodaethau o'r fath er mwyn osgoi oedi yn y broses a chael cyngor ac adborth perthnasol.

- 7.15 Achubodd peth o'r arfer hwn y blaen ar gynnwys dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gan y CLG ar ddiwedd 2009, a bwysleisiodd yr angen am welliannau yn y cyfnod cyn-ymgeisio. Yn bwysig, nododd hefyd beth fyddai manteision cyngor gwell ar yr adeg hon. Ailadroddir y rhain isod gan eu bod yn cyfateb yn gryf i'r sylwadau a'r cyflwyniadau a wnaed i'r adolygiad hwn:

"Pre-application engagement brings advantages for all. For example it can:

- *identify opportunities for scheme improvements at a stage when a proposal can still be modified, resulting in higher quality developments*
- *allow more opportunity to coordinate investment*
- *help to communicate the vision and objectives for the area*
- *develop a shared understanding of constraints, opportunities and context*
- *agree information requirements and weed out non starters*

- *establish timescales and explain administrative processes*
 - *reduce delays through early engagement of key parties”*
- 7.16 Mae'r atodiad polisi drafft sy'n rhan o'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan y CLG yn ei gwneud yn glir wedyn y dylai dyfnder trafodaethau cyn-ymgeisio adlewyrchu graddfa'r cynigion, y dylai trafodaethau geisio bod mor gynhwysol â phosibl (gan estyn hyd yn oed i'r cynnig i gynnwys aelodau) ac y dylai ymwneud cynnar arwain at gysondeb a dilyniant yn y driniaeth ar y cais (hynny yw y dylai'r cais gael ei drin gan yr un swyddogion a roddodd y cyngor cyn-ymgeisio).
- 7.17 Er bod ymagwedd y CLG yn annog awdurdodau i ddarparu eu harweiniad eu hun am sut y caiff y cyfnod cyn-ymgeisio ei reoli, nid yw'n ymatal rhag rhoi arweiniad yr un mor glir am beth mae'n disgwyl i'r cyngor hwnnw ei gynnwys. Mae hyn yn estyn i'r wybodaeth y bydd ei hangen oddi wrth ymgeiswyr, yr ymagwedd fras i'w chymryd a sut y bydd hyn yn addasu yn ôl y math o gynigion, cyfranogiad trydydd partiön a'r gymuned leol; trefniadau codi tâl ac, yn achos cynlluniau mawr, sefydlu timau amlddisgyblaeth a chytundebau perfformiad cynllunio. Mae hefyd yn gofyn i awdurdodau gadarnhau o fewn pa amserlenni maent yn bwriadu ymateb.
- 7.18 Ar yr wyneb, Mae'r rhain i gyd yn ymddangos yn negeseuon synhwyrol am ymagwedd at drafodaethau cyn-ymgeisio yng Nghymru. Gall trafodaethau cyn-ymgeisio gynorthwyo hefyd i oresgyn problem gydag ansawdd rhai ceisiadau - a ystyriwyd yn wael. Yn arbennig, gall cynlluniau llai o faint (os nad rhai gan ddeiliaid tai) sy'n cael eu paratoi'n wael lyncu'r amser mwyaf i swyddogion rheoli datblygiad.

Argymhelliad 12: Trafodaethau Cyn-ymgeisio – Canllaw Arfer Gorau

Argymhelliad 12 yw i gynhyrchu canllaw arfer ar fformat ymgynghoriadau cyn-ymgeisio. Dylai hwn geisio sefydlu nodweddion cyffredin y trafodaethau hyn – a all gymryd cynigion y CLG yn fan cychwyn – gan ychwanegu'r cyfle i ymdrin ag ansawdd yr wybodaeth sydd i'w darparu gyda'r cais. Gall arfer gael ei lywio gan adolygiad byr o berfformiad presennol a dylai gael ei gyhoeddi'n gyflym. Fel canllaw ymarferol, byddai'n elwa ar gael ei gynhyrchu ar y cyd gan Gymdeithas y Swyddogion Cynllunio a chynrychiolwyr rhwydwaith ymgynghorwyr RTPI, er y dylai LICc gyhoeddi a/neu gefnogi'r canllaw er mwyn sicrhau bod ganddo'r pwys gofynnol.

Nid oes angen i'r canllaw arfer (ac ni ddylai) fod yn ddogfen hir ond fe ddylai ymdrin â'r pynciau canlynol:

- a) cwmpas a graddfa'r cyngor a roddir

- b) gofynion ymgeiswyr
- c) proses ac amserlenni
- d) yr ymagwedd at godi tâl
- e) rôl ac adnabod ymgynghoreion allweddol a grwpiau eraill
- f) rôl gwleidyddion

Partneriaid Argymhelliad 12: HBF, PoSW, Cymorth Cynllunio Cymru ac RTPI(C) (ar y cyd ag EA, ACPO, BW ac MOA)

Dilysu (a Chynigion Hierarchaeth Datblygiad)

- 7.19 Yn yr un modd â chyngor cyn-ymgeisio, cododd holiaduron yr awdurdodau cynllunio lleol a'r grwpiau ffocws ystyriaethau o bwys o ran dilysu a chofrestru ceisiadau. Mewn rhai achosion mae hyn yn achosi tyndra rhwng hyd yn oed ymgeiswyr profiadol ac awdurdodau cynllunio (yr un mor brofiadol). Dau brif ddimensiwn sydd i hyn. Yr un cyntaf yw'r broses o ddilysu a'r ail yw'r gofynion a osodir er mwyn i gofrestru ddigwydd.
- 7.20 O ran y cyntaf, fel a nodwyd eisoes yng nghyflwyniad yr adroddiad hwn, mae'r astudiaethau achos a gynhaliwyd ar gyfer Adolygiad Killian Pretty yn nodi nifer o negeseuon sy'n gyffredinol berthnasol ar gyfer arfer yng Nghymru. Crynhoir y prif bwyntiau ar gyfer dilysu a chofrestru isod.

Cyngor Ymarferol 14: Cofrestru a Dilysu Ceisiadau (Tystiolaeth Killian Pretty)

Canfu'r dystiolaeth o astudiaethau achos a gasglwyd gan Adolygiad Killian Pretty (KPR) fod gan y mwyafrif o ACLI yn Lloegr "ymagwedd systemau" at gofrestru a dilysu ceisiadau cynllunio. Yn nodweddiadol, staff gweinyddol a oedd yn gyfrifol am gynnal gwiriadau sylfaenol i bennu a oedd ceisiadau yn gyflawn, tra bod staff technegol yn cofnodi ac yn mapio ceisiadau a byddai staff proffesiynol yn cytuno ar yr ymgynghoreion ac yn dyrannu gwaith.

Er bod ymagwedd o'r fath yn gadael i ACLI wirio bod cydrannau sylfaenol ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno, ni chynhwysodd adolygiad o ansawdd a chywirdeb y dogfennau a'r cynlluniau a gyflwynwyd. Gan hynny cafwyd bod prosesau cofrestru o'r math yma yn aneffeithlon, gan mai tasg gyntaf swyddogion achos, ar ôl i geisiadau gael eu cofrestru a'u trosglwyddo iddynt, fyddai eu gwirio, gan olygu bod elfen o "driniaeth ddwbl". Argymhellodd yr adolygiad felly y gallai defnydd mwy effeithlon gael ei wneud o staff gweinyddol, technegol a rheoli ac y dylai gweithdrefnau dilysu gynnwys ystyried

ansawdd deunyddiau a gyflwynir yn hytrach na dim ond gwirio bod eitemau gofynnol yn bresennol.

Daeth ymchwil KPR i'r casgliad na ddylai asesiadau dilysu fod yn ymarfer ticio blychau yn unig ac y dylai staff medrus, sy'n deall y materion dan sylw, gymryd rhan yn y broses ddilysu. Byddai hyn yn helpu i osgoi problemau sy'n gysylltiedig â nodi'n hwyr bod angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Yn ogystal dylai ACLI geisio darparu eglurdeb ar y dechrau o ran beth yn union maent ei eisiau oddi wrth ymgeiswyr.

- 7.21 Mae'n amlwg bod rhai o'r negeseuon hyn yn gyffredin i Gymru. Fodd bynnag, mae yna awdurdodau yn barod sy'n ymateb (ac wedi bod yn gwneud ers peth amser). Esbonnir un enghraifft isod.

Cyngor Ymarferol 15: Dilysu a Chofrestru Ceisiadau yng Nghaerdydd

Mae gan Gyngor Caerdydd dîm pwrpasol o fewn ei Adran Gynllunio sy'n delio â dilysu a chofrestru ceisiadau cynllunio yn unig. Wrth ei gael, mae pob cais yn cael ei gofnodi ar system gyfrifiadurol. Mae rhestr wirio yn cael ei rhedeg, mae'r ceisiadau'n cael eu digido a pharatoir nodiadau perthnasol ynghylch unrhyw ofynion ychwanegol.

Ran amlaf mae gofynion ychwanegol yn gymharol syml, a bydd y tîm dilysu yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ymgeisydd neu asiant i ofyn am wybodaeth ychwanegol. Mewn achosion mwy cymhleth mae'r tîm dilysu yn trafod materion gyda'r Rheolwr Gweithredol cyn mynd at yr ymgeisydd neu'r asiant. O dan y drefn hon dim ond 4% o geisiadau sy'n cael eu cyflwyno i Gyngor Caerdydd sy'n cael eu dychwelyd i ymgeiswyr heb eu cofrestru.

Ar ôl i geisiadau cynllunio gael eu cofrestru, nod y Cyngor yw anfon llythyrau at yr Ymgynghoreion statudol cyn pen 5 diwrnod a rhoddir iddynt gopiâu o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd er mwyn cyflymu'r broses.

Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi rhestr o geisiadau newydd sydd wedi eu cofrestru ar y rhyngwyd ac mewn llyfrgelloedd ac yn ymgynghori â grwpiau preswylwyr lleol a chynghorau cymuned yn ogystal ag anfon llythyrau at gymdogion a chynghorwyr ward lleol.

- 7.22 Yr ail ran dilysu a chofrestru sy'n peri anhawster yw'r gofynion a wneir ar gyfer mathau amrywiol o gais. Ar hyn o bryd mae'r arfer yn amrywio ledled Cymru gyda rhai awdurdodau yn mabwysiadu'r ymagwedd ar yr amod bod gofynion statudol yn cael eu diwallu, yna nid oes angen dim byd rhagor i gofrestru, ac mae eraill yn mynnu rhestr hwy o ddogfennau a chynlluniau cyn y caiff cais ei gofrestru. O dan yr ail ymagwedd mae awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi cynhyrchu

canllaw cynllunio atodol am ofynion dilysu. O ganlyniad i'r anghysondeb hwn bu cynnydd yn nifer yr apeliadau sy'n cael eu cyflwyno yn erbyn peidio â dilysu (sy'n dangos hefyd bod y broblem yn cynyddu ac nid yn lleihau).

- 7.23 Mae hyn yn awgrymu'n gryf yr angen am restr fwy safonol a chymesur o ofynion dilysu sy'n ymateb i raddfa, math, cymhlethdod, sensitifrwydd a lleoliad y cynllun. Ar yr wyneb gellid cyflawni hyn drwy gategoreiddio datblygiad yn well ac mae cyngor ymarferol cryf ar gyfer Cymru i'w weld mewn newidiadau yn y drefn yn yr Alban (gweler isod).

Cyngor Ymarferol 16: Hierarchaeth Datblygiadau Newydd yn yr Alban

Cyflwynodd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hierarchaeth Datblygiadau) (Yr Alban) 2009 hierarchaeth datblygiadau newydd yn yr Alban ar sail y categorïau datblygiadau Lleol, Mawr a Chenedlaethol.

O fewn yr hierarchaeth, mae'r categori Datblygiadau Cenedlaethol yn cyfeirio at brosiectau penodol a mathau o brosiect y cyfeirir atynt o fewn Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol yr Alban. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau isadeiledd mawr fel amnewid Croesfan Forth, prosiectau rheilffordd a datblygu isadeiledd ynni, yn ogystal â chyfleusterau ac isadeiledd mae eu hangen ar gyfer Gemau'r Gymanwlad¹⁷.

Mae'r diffiniad o Ddatblygiad Mawr yn cwmpasu pob datblygiad lle bydd Aseiad Effaith Amgylcheddol yn ofynnol; cynlluniau tai sy'n cynnwys 50 neu ragor o anheddau neu lle bo arwynebedd y safle yn 2 hectar neu ragor; busnes, diwydiannol a chyfleusterau storio a dosbarthu gyda gofod llawr gros sy'n fwy na 10,000 metr sgwâr neu sydd ar safle 2 hectar neu ragor; cynlluniau generadu trydan sy'n fwy nag 20 megawat; chyfleusterau rheoli gwastraff gyda chynhwysedd sy'n fwy na 25,000 tonnell fetrig y flwyddyn; prosiectau trafniadaeth ac isadeiledd lle bo hyd y ffordd, rheilffordd, tramffordd, dyfrffordd, traphont ddŵr neu biblinell yn fwy nag 8 cilometr; ffermydd pysgod a safleoedd echdynnu mwynau sy'n cwmpasu ardal o 2 hectar neu ragor; ac unrhyw ddatblygiad arall neu gyfuniad o'r uchod ag arwynebedd llawr gros sy'n fwy na 5,000 metr sgwâr; neu lle bo arwynebedd y safle yn 2 hectar neu ragor e.e. datblygiad manwerthu, addysgol, defnydd cymysg ac ati.

¹⁷ Mae'r rhestr o Ddatblygiadau Cenedlaethol yn cynnwys: a Replacement Forth Crossing; West of Scotland Strategic Rail Enhancements; High Speed Rail Link to London; Strategic Airport Enhancements; Grangemouth Freight Hub; Additional Container Freight Capacity on the Forth; Port Datblygiadau on Loch Ryan; Scapa Flow Container Transshipment Facility; New Power Station and Transshipment Hub at Hunterston; New Non-Nuclear Baseload Capacity at Other Existing Power Station Sites; Electricity Grid Reinforcements; Central Scotland Green Network; Metropolitan Glasgow Strategic Drainage Scheme; Commonwealth Games Facilities and Infrastructure.

Bwriedir i'r categorïau gynorthwyo ACLI wrth flaenoriaethu ceisiadau, gyda ddatblygiadau Cenedlaethol a Mawr yn cael eu trin yn wahanol i ddatblygiadau Lleol. Goblygiadau'r hierarchaeth ar gyfer prosesu ceisiadau yn yr Alban yw:

- Mae ymgynghori cyn-ymgeisio yn ofynnol yn achos pob cais cynllunio am ddatblygiad Cenedlaethol/Mawr ond nid ar gyfer ddatblygiad Lleol.
- Caniateir 2 fis i ACLI benderfynu ceisiadau am ddatblygiad Lleol ond 4 mis i benderfynu ceisiadau am ddatblygiad Cenedlaethol/Mawr.
- Rhagdybir y bydd y mwyafrif o geisiadau am ddatblygiad Lleol yn cael eu penderfynu o dan bwerau dirprwyedig, tra bydd ceisiadau Cenedlaethol / Mawr yn cael eu penderfynu yn y Pwyllgor Cynllunio.
- Cynigir gwrandawriad i bartïon â diddordeb mewn Pwyllgor Cynllunio ar gyfer ddatblygiadau Cenedlaethol a ddatblygiadau Mawr sy'n sylweddol groes i'r cynllun ddatblygu ac o dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r penderfyniad terfynol ar gais gael ei gymryd gan y Cyngor llawn.
- Mewn perthynas ag apeliadau, bydd pob apêl ar benderfyniadau dirprwyedig yn destun "adolygiad" gan Gorff Adolygu Lleol ond mae angen i bob apêl arall gael ei chyflwyno i Lywodraeth yr Alban.
- Mae angen Datganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer y mwyafrif o Ddatblygiadau Cenedlaethol a Mawr (ond nid am weithrediadau peiriannu neu fwyngloddio, newidiadau defnydd, caniatâd cynllunio mewn egwyddor¹⁸). Fodd bynnag, mewn perthynas â ddatblygiad Lleol, dim ond am rai safleoedd sy'n amgylcheddol sensitif y mae angen Datganiadau Dylunio ac nid oes eu hangen ar gyfer weithrediadau peiriannu neu fwyngloddio, newid defnydd, caniatâd cynllunio mewn egwyddor, nac am geisiadau deiliaid tai.

7.24 Y neges glir o'r adolygiad hwn yw y dylai fod mwy o gysondeb rhwng ACLI o ran sut mae ceisiadau yn cael eu dilysu a maint a math yr wybodaeth mae ei hangen. Mae hyn yn gyfle mawr i wella cyfnod allweddol yn y broses ceisiadau cynllunio.

¹⁸ Cymerodd ceisiadau am ganiatâd cynllunio mewn egwyddor le ceisiadau cynllunio amlinell yn yr Alban y llynedd. Mae amodau ynghlwm wrth ganiatadau cynllunio "mewn egwyddor" sy'n pennu pa fanylion pellach y mae angen eu cymeradwyo ar ffurf cais pellach cyn y gall gwaith ddechrau.

Argymhelliad 13: Gofynion Dilysu

Argymhelliad 13 yw i gymryd rhannau gorau'r farn bresennol am ddilysu a'u cymhwyso i Gymru. Fodd bynnag, gan fod 25 o awdurdodau cynllunio, dylai blaenoriaeth gryf gael ei rhoi i dair tasg allweddol, sef:

- a) cyhoeddi un rhestr genedlaethol o ofynion dilysu (yn ôl math y cais a fwriedir neu lle maent wedi eu bwriadu er enghraifft mewn mannau wedi eu hamddiffyn). Y cyfeiriad fydd bod gostyngiadau lleol ac mewn perthynas â chynllun penodol mewn gofynion yn bosibl ond na osodir unrhyw ofyniad uwch.
- b) categorio datblygiad o dan brif benawdau allweddol i lywio pryd y caiff rhai gofynion eu sbarduno. Dylai sylw penodol gael ei roi i'r mathau o gynigion datblygu (llai o faint) a fydd yn sbarduno gofynion gwybodaeth cyfyngedig er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i lywio penderfyniadau diogel a chadarn.
- c) cyflwyno confensiwn cenedlaethol sylfaenol ar gyfer enwi a mynegeio dogfennau a chynlluniau (bydd hyn yn berthnasol hefyd i argymhelliad 14)

Partneriaid Argymhelliad 13: RTPI, HBF ac EA (13a) a PoSW, CBI ac EA (13b)

Cynyddu Defnydd Gwasanaethau Cynllunio Electronig

- 7.25 Mae arfer presennol o ran defnydd gwasanaethau cynllunio electronig neu ar-lein yn anghyson. Mae rhai awdurdodau yn cynnig mynediad i wybodaeth sylweddol o'u gwefannau tra nad yw rhai eraill yn gwneud. Yn yr un modd mae rhai awdurdodau wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill wrth sicrhau cyflwyno ceisiadau'n electronig (ac mae'n amlwg bod cysylltiad rhwng y ddau beth). Bydd gwneud defnydd gwell ar dechnoleg, gan gynnwys cynyddu defnydd y Porth Cynllunio i gyflwyno ac i ymgynghori ar geisiadau cynllunio, yn amlwg yn helpu i wneud y system gynllunio yng Nghymru yn fwy effeithlon.
- 7.26 I'r grwpiau ffocws, mae cyflwyno ceisiadau cynllunio yn electronig yn fodd i arbed amser ac arian a hynny i ACLI ac ymgeiswyr a chwtogi ar waith papur diangen. Dengys ffigurau o'r Porth Cynllunio fod hwn yn faes lle gall Cymru wella'n gyflym. Yn Lloegr, y ganran o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn electronig drwy gyfrwng y Porth Cynllunio yn ystod Rhagfyr 2009 oedd 38.2%. Yn gyferbyniol, dengys y ffigurau misol diweddaraf sydd ar gael i Gymru (mis Hydref 2009) i 25.1% o geisiadau gael eu gwneud yn electronig. Mae'r gymhariaeth rhwng Cymru a rhai o ranbarthau Lloegr yn fwy trawiadol byth, gyda 47% o geisiadau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr yn cael eu cyflwyno drwy'r

Porth Cynllunio. Fodd bynnag, mae'r profiad hwn yn dangos bod modd cynyddu defnydd y Porth yn gymharol gyflym gyda chodiad o 36.3% yn nifer y ceisiadau ar-lein a gyflwynwyd ledled Lloegr rhwng 2008 a 2009.

- 7.27 Mae gan y Porth Cynllunio darged o gyflawni cyfradd gyflwyno electronig o 50% yn Lloegr erbyn diwedd 2010. Ystyrir y targed fel bod yn uchelgeisiol yn gyraeddadwy.
- 7.28 Mae ymgynghoriad â'r sawl sy'n gyfrifol am y Porth ar gyfer yr adolygiad hwn yn awgrymu y bydd symud o system ymgeisio seiliedig ar bapur i system electronig yn creu heriau i bawb o dan sylw. Mae'r Porth Cynllunio yn ymateb i hyn drwy raglen barhaus o hyfforddiant i gynllunwyr ACLI ac asiantau. Bydd defnydd cynyddol y Porth hefyd yn golygu heriau o ran caledwedd a swyddogaethau swyddfa gefn, gyda rhai o'r cyfranogwyr yn y broses, gan gynnwys ymgynghoreion statudol, yn dal i ffafrio delio â chynlluniau papur am nad oes ganddynt y gallu i weld cynlluniau yn electronig ar sgriniau neu eu hargraffu ar y raddfa gywir yn aml. Bydd angen ymdrin â phroblemau sylfaenol fel hyn drwy fuddsoddi mewn caledwedd newydd wrth i'r system gael ei chyflwyno'n ehangach.
- 7.29 Yn ogystal â'r amcanion cyffredinol hyn, mae dwy agwedd o'r Porth sy'n haeddu sylw arbennig fel rhan o'r adolygiad hwn. Yr un gyntaf yw'r Both (ymgyngori) y mae'r Porth yn ei gynnig yn Lloegr a'r ail yw defnyddio a chymhwyso'r canllawiau rhyngweithiol.

Cyngor Ymarferol 17: E-Weithio – Y Porth Cynllunio

Mae'r Porth Cynllunio wrthi'n ehangu ei wasanaethau mewn perthynas ag ymgynghori electronig (e-Ymgynghori) ar geisiadau cynllunio ac ers Chwefror 2010 mae chwech o 25 ACLI Cymru¹⁹ (sy'n cynrychioli 24% o'r cyfanswm) yn fyw ar system e-Ymgynghori'r Porth Cynllunio, a elwir y Both. Nod e-Ymgynghori yw gwneud y broses ymgynghori yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, gan helpu ACLI i fonitro ymatebion ymgynghoreion a gwella'r llif wybodaeth i gyfranogwyr yn y broses gan gynnwys ymgeiswyr, asiantau, ACLI, ymgynghoreion statudol ac anstatudol, cynghorau cymuned, plwyf a thref, cymdogion a phartïon eraill â diddordeb.

Un o brif fanteision y Both yw ei fod yn golygu y gall ymgynghoreion weld yr union wybodaeth mae ei hangen ar gais, tra ar hyn o bryd mae ymgynghoreion yn cwyno'n aml eu bod wedi cael gormod neu rhy ychydig o wybodaeth oddi wrth ACLI. Dylai hyn arwain at leihad yn nifer yr ymatebion ymgynghori diangen a gaiff awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r Porth Cynllunio yn targedu gostyngiad o 35% mewn

¹⁹ Gwynedd, Sir y Fflint, Ceredigion, Rhondda Cynon Taf, APC Bannau Brycheiniog a Chasnewydd.


gohebiaeth o'r fath, a fyddai o'i gyflawni yn gyfraniad sylweddol iawn at gyflwyno system gynllunio fwy effeithlon.

Bydd argyhoeddi ymgynghoreion allweddol yn ogystal ag ACLI i ddefnyddio'r Both yn allweddol i'w lwyddiant ac yng Nghymru mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes yn fyw ar y system gyda Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Dŵr Cymru i gyd yn rhoi prawf arni ar hyn o bryd. I annog rhanddeiliaid allweddol i fanteisio arno bydd angen ymgyrch gyfunol a pharhaus ar ran y Porth Cynllunio yn ogystal â chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, bernir bod modd cyflawni hyn ac yn faes lle gall Cymru gynnig arweinyddiaeth i weddill y Deyrnas Unedig.

Yn ogystal, awgrymir yn nogfen ymgynghori DCLG ar wella ymgysylltiad gan ymgynghoreion statudol ac anstatudol y dylai man newydd pwrpasol gael ei sefydlu ar wefan y Porth Cynllunio, a rydd wybodaeth fwy cynhwysfawr am ofynion ymgynghori cenedlaethol a sut orau i sicrhau ymgynghori effeithiol â chyrrff unigol.

Canllawiau Rhyngweithiol

Mae gwefan y Porth Cynllunio yn cynnig canllawiau rhyngweithiol syml i a oes angen caniatâd cynllunio am gyfres o brosiectau cartref cyffredin. Mae defnyddwyr y canllaw rhyngweithiol (isod) yn gallu clicio ar ran benodol o'r tŷ er mwyn cael mwy o wybodaeth am beth all gael ei wneud gyda neu heb ganiatâd cynllunio. Yn ogystal, rhoddir cysylltiadau â gwybodaeth berthnasol bellach.



Ar hyn o bryd nid yw'r fersiwn o'r canllaw i ddeiliaid tŷ sydd ar gael ar wefan y Porth Cynllunio yn cymryd i ystyriaeth gwahaniaethau rhwng y systemau cynllunio yn Lloegr a Chymru. Mae hyn yn anffodus gan fod y canllawiau rhyngweithiol yn fecanwaith hawdd ei ddefnyddio i roi cyngor ac fe allai helpu i roi mwy o eglurder i ymgeiswyr yn ogystal â helpu i leihau faint o amser y mae swyddogion cynllunio yn ei dreulio ar hyn o bryd yn delio ag ymholiadau cymharol syml. Mae'r potensial yn bodoli hefyd i ehangu cysyniad y canllaw rhyngweithiol i roi cyngor i fusnesau bach yn ogystal â deiliaid tŷ am rai o'r mathau mwyaf cyffredin o ddatblygiadau mewn perthynas â busnesau.

- 7.30 Mae cefnogaeth amlwg am ddefnydd y Porth Cynllunio a mynediad gwell i wybodaeth am geisiadau cynllunio o wefannau Cyngorau eu hun. Yn yr un modd mae'n amlwg bod potensial ni Gymru wella a chyflymu ei pherfformiad mewn meysydd allweddol. Mae heriau penodol yn bodoli ac mae yna waith i'w wneud, ond mae cyfle gwirioneddol i wella perfformiad y broses, ei gwneud yn fwy hygyrch a lleihau defnydd adnoddau prin a all ddeillio o gynhyrchu symiau mawr o bapur ac ynni.

Argymhelliad 14: Cynyddu Defnydd Gwasanaethau Cynllunio Electronig

Argymhelliad 14 felly yw cefnogi defnydd cynyddol gwasanaethau cynllunio electronig. Dylid gwneud hyn yn y ffyrdd dilynol:

- a) cyflwyno a chyflawni targedau cenedlaethol a lleol am gyflwyniad ceisiadau yn electronig o fewn cyfnod penodedig. Gyda 25 o awdurdodau cynllunio, dylai'r amcan clir fod i gyd-fynd â pherfformiad Lloegr a rhagori arno.
- b) gwneud mwy o ddefnydd o Both e-ymgyngori Cymru a Lloegr;
- c) defnyddio canllawiau rhyngweithiol. Mae cyfle amlwg yma i estyn y cysyniad hwn i ddefnyddwyr busnes bach yn ogystal (efallai ar y cyd ag argymhelliad 2b. Byddai gweithredu argymhelliad 9 - newidiadau i'r GPDO - o gymorth wrth gyflymu trosglwyddo'r canllaw presennol ar gyfer deiliaid tŷ i Gymru)
- d) safoni mynediad i wybodaeth electronig o fewn Awdurdodau cynllunio lleol. Dylai safon ofynnol gael ei diffinio.
- e) cyflwyno confensiwn cenedlaethol sylfaenol ar gyfer enwi a mynegeoio dogfennau a chynlluniau, ynghyd â defnydd fformat a sicrwydd ansawdd mwy cyffredin

Partneriaid Argymhelliad 14: Y Porth Cynllunio (14a a 14b), yr FSB a'r CBI (14c) a Chymorth Cynllunio Cymru (14b, 14c a 14d)

Rhannu Arbenigedd a Gweithio ar y Cyd

28. A Research Steering Group will be convened to oversee the project with the Chair and representatives being drawn from within and outside of the Welsh Assembly Government. The research steering group will monitor progress and provide guidance on objectives, output and information needs on any technical or procedural issues that may arise. The appointed contractor will be required to attend all Steering group meetings. The appointed contractor will be expected to provide within 5 working days of each meeting, a draft record for approval by the Contract Manager prior to

Contract number: C-34/2009/10

despatch to the members of the research steering group. The reports specified under **Timetable** (paragraph 11) should be emailed to the research steering group members at least 3 working days before the meeting.

Contractor's Personnel

29. Tenderers should provide the names of personnel to be assigned to the contract, brief CVs, their status in the organisation, their previous experience of dealing with contracts of a similar nature and their specific input into the study in terms of days and rates. A Price Schedule is attached for this purpose (Appendix 3). Tenderers should also give details of a nominated contact point.

30. In the event of non-compliance with the Specification, the following procedure will be followed:

- notification of complaint and requirement to comply;
- notification of unacceptable practices and/or substantial non compliance to the Specification of the services;
- recourse to the conditions of contract.

Payment

31. The client will make a budget of £70,000 available for the purposes of this contract. However, tenderers should be aware that this budget information is for indicative purposes only and that the client will be seeking to award the contract on the basis of the criteria stated at paragraph 24 above and best value.

32. Stage payments for this project will be as follows:

- a first stage payment of 20% of the total fee will be paid upon the satisfactory submission of an interim report on the initial findings (end of Phase 4);

Contract number: C-34/2009/10

- a second stage payment of 75% of the total fee will be paid upon the satisfactory submission of the final report (end of Phase 5);
- the final 5% payment will be paid following the successful hosting of the dissemination events (end of Phase 6);

and within 30 days of receipt of a correctly submitted invoice. Invoices must show a full breakdown of costs that clearly relate back to the successful contractor's submitted bid.

Security

33. If the successful contractor requires for its personnel, frequent and uncontrolled access to the premises of the Welsh Assembly Government, or where such personnel have access to restricted information, or proximity to public figures, then all such personnel must satisfy the security requirements of the Client by completing a security questionnaire. No contractor personnel will be issued security passes until they have obtained the required security clearance. Until then, they will be issued with a temporary pass and will have to be escorted by a member of staff each and every time they have access to the premises.

Electronic security - electronic media of any type or format supplied to the Planning Division by the contractors must be checked for viruses before shipment.

Changes to the Specification

34. This specification document sets out the Client's current service requirement. It is possible that during the life of the contract, changes, for example, in the nature and volume of the work and the timescale or other requirements will arise. Changes to the Specification will be implemented by issuing written amendments to all those affected by the changes.

Contract number: C-34/2009/10

Conditions of Contract for Research Services

35. The Conditions of Contract for Research Services (enclosed) should apply in relation to this contract. The contractor must have regard to these Conditions.

Ownership

36. Ownership of all information provided by the Client for use in the contract and all reports prepared will rest with the Client.

TRAVEL & SUBSISTENCE RATES FOR CONTRACTS

MOTOR MILEAGE ALLOWANCES

All travel should be kept to a minimum and other options such as video conferencing should be considered when possible. If transport is required then the best value for money form should be used.

Standard Rate	p per mile
Public Transport Rate	30

RAIL TRAVEL

Rail travel in conjunction with a contract can only be charged at Standard class. Any expenditure must be supported by receipts.

SUBSISTENCE RATES

Day Subsistence Allowance – reimbursement for daytime refreshments

These can be claimed when an overnight stay is not required. Hours are time away from permanent place of work. Only one rate will apply.

4 - 10 hours	Meals to Maximum of £9
Over 10 hours	Meals to Maximum of £27

Any expenditure must be supported by receipts.

Overnight Subsistence Allowance

Overnight stays should be kept to a minimum. If an overnight stay is required then the costs below can be claimed supported by receipts

London	Actual cost of B& B up to ceiling of £125.00, and a Personal Incidental Allowance of £5.00 a day
Elsewhere	Actual cost of B& B up to ceiling of £95.00, and a Personal Incidental Allowance of £5.00 a day

If you are staying in a location other than a hotel you can claim as follows:

Staying with friends/relatives Or other similar location.	Allowance for Personal Incidentals of £5 per day. Plus Meals Allowance Below.
--	--

Additionally to the Overnight Subsistence Allowance you may claim Meals Allowance as detailed below, these must be supported by receipts:

Breakfast	Maximum of £9
-----------	---------------

APPENDIX 1

Lunch	Maximum of £9
Dinner	Maximum of £27

WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT
TRANSLATION SERVICES RATES

These rates must apply as a maximum.

Applicable from 1 April 2008 until 31 March 2010.

Translation into Welsh	Per 1000 words
	£83

Translation into English	Per 1000 words
	£62

Proofreading	Rate per hour
	£40

Appendix 3

PRICE SCHEDULE

**STUDY TO EXAMINE THE PLANNING APPLICATION PROCESS IN WALES
(Contract number: C-34/2009/10)**

Name of Tenderer: _____ Organisation: _____

Please complete in line with the detail provided within this document for the total cost of the contract. Any blank or incomplete sections will, unless otherwise stated, be deemed to be included in the tender price.

In the event that additional work or revision to the existing defined scope is instructed through the Contract, such work shall be valued based on the rates tendered in the Price Schedule.

Section 1 Project Staff

Please complete section 1 in this format to reflect staff involved in the project.

Staff Member	No. of Days	Daily Rate £	Cost £
		Total Staff Cost (excluding VAT)	

**Section 2 Travel and Subsistence (excluding VAT)
(Welsh Assembly Government rates apply)**

Maximum cost of travel and subsistence £

Section 3 Research Product (excluding VAT)

Cost of Translation of Final Report and 100 word summary £
Costs attributable to other products £

Section 4 Other costs associated with the Project (excluding VAT)

Item Name (please list showing cost of each item)
£
£

**Section 5 Total Cost of Project (excluding VAT) £
Total Cost of Project (including VAT) £**

Atodiad 2: Holiadur i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol

Astudiaeth i Edrych ar y Broses Ceisiadau Cynllunio yng Nghymru

Holiadur i Awdurdodau Cynllunio Lleol

Hydref 2009

Llenwch a dychwelwch i:

GVA Grimley Cyf
Un Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3AN

Os hoffech drafod yr Holiadur neu unrhyw agwedd arall ar yr adolygiad cysylltwch naill ai â Tim Gent neu Ben Lester yn GVA Grimley:

Tim Gent
Ffôn: 029 2024 8916
E-bost: tim.gent@gvagrimsley.co.uk

Ben Lester
Ffôn: 029 2024 8922
E-bost: ben.lester@gvagrimsley.co.uk

A. **Gwybodaeth Gyffredinol**

A1 Awdurdod cynllunio a math

Enw'r Awdurdod _____

Prif enwau Cyswllt _____

Ffôn _____ E-bost _____

Math o Awdurdod (ticiwch un blwch)

Trefol yn bennaf []

Gwledig yn bennaf []

Cymysg/diffiniad arall []

A2 Niferoedd/Graddfa

Nifer y ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf neu gyfnod 12 mis a fesurwyd:

Nifer

Ymholiadau cyn-ceisio (os cawsant eu cofnodi) []

Amlinell []

Llawn []

Materion Cadwedig []

Rhyddhau/amrywio Amodau []

Tystysgrifau cyfreithlondeb defnydd arfaethedig []

Caniatâd Adeilad Rhestredig/Ardal Gadwraeth []

Hysbysiad Ymlaen Llawn (e.e. telegyfathrebu) []

Ceisiadau DEC []

Eraill (rhowch fanylion os yw'n briodol) []

Cyfran a gyflwynwyd yn y Gymraeg []

(os cedwir cofnodion)

A3 Nifer y ceisiadau EIA []

% a gyfeiriwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru []

A4 Pobl

	Nifer (CALL)	hyd cyfartalog eu profiad ers cymhwys
Staff cynllunio siartredig (MRTPI)	[]	[]
Hyfforddeion/graddedigion	[]	
Cymorth	[]	
Gweithwyr proffesiynol cymwys eraill yn y tîm cynllunio (rhowch ddisgrifiad/esboniad)	[]	
Nifer y swyddi sy'n wag	[]	
Cyfanswm	[]	

A5 Defnydd ymgynghorwyr allanol, cyrff allanol ac adnoddau ychwanegol

Ydy'r cyngor yn defnyddio grwpiau a/neu ymgynghorwyr allanol Ydy [] Nac ydy []

Os felly at beth maent yn cael eu defnyddio? (ticiwch gymaint o flychau ag sy'n berthnasol)

	Penodiad Ad hoc	Panel/Tymor
Tasgau penodol (naill ai i gefnogi arbenigedd neu lenwi bylchau mewn arbenigedd)	[]	[]
Mathau penodol o geisiadau (rhowch y manylion isod)	[]	[]
Mathau penodol o benderfyniad	[]	[]
Gwaith apeliadau neu ymchwiliadau	[]	[]
Swyddogaethau eraill (rhowch y manylion isod)	[]	[]

A6 Cynllun datblygu

Beth yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal yr awdurdod (oedran/dyddiad)?


B. **Strwythur a gweinyddiaeth**

B1 Strwythur

Rhowch siart sy'n dangos (neu esboniwch) strwythur sefydliadol/rheoli'r Cyngor (y nod yma yw gweld sut mae'r swyddogaeth gynllunio yn eistedd o fewn y sefydliad a pha swyddogaethau eraill sy'n dod o fewn yr un adran gyffredinol neu tu allan iddi).

B2 Os nad yw'r uchod yn ei ddangos, rhowch siart neu esboniwch strwythur yr adran gynllunio gan gynnwys timau neu swyddogaethau arbenigol.

B3 Os nad yw'r uchod yn ei ddangos, esboniwch/cadarnhewch y gadwyn awdurdod o fewn y tîm cynllunio (a sut mae hyn yn cyfateb i weddill yr awdurdod).



B4 Esboniwch y gyfundrefn neu'r categorïau o geisiadau cynllunio mae'r awdurdod cynllunio yn eu defnyddio (mawr, mân, deiliaid tai, ac ati).



B5 Sut mae'r awdurdod yn rhannu camau'r broses geisio (yn weinyddol a/neu yn weithdrefnol)? A yw'n dilyn gweithdrefn gofnodedig (ac os felly darperwch y "llawlyfr" neu'r Arweiniad QA). Oes gwahaniaethau rhwng mathau gwahanol o gais?

Os oes modd, rhowch (neu amcangyfrifwch) % yr amser mae'r LPA yn credu ei fod yn ei dreulio ar bob un yn ystod blwyddyn arferol (er nad oes angen i hyn fod yn fanwl-gywir, dylai adio i 100%). Os yw'r rhestr ddilynol o gamau yn y broses yn ddefnyddiol ac yn berthnasol, defnyddiwch hon i strwythuro eich ymateb.

A yw'n adrodd ar hyn (os felly rhowch gopi o'r adroddiad diweddaraf)?

B8 Ydy'r Cyngor yn defnyddio templed arolwg cwsmeriaid Uned Data Llywodraeth Leol?

Ydy [] Nac ydy []

B9 Ydy'ch Awdurdod yn rhoi mynediad ar-lein i unrhyw fathau o wybodaeth dilynol am geisiadau cynllunio?

Gohebiaeth cyn ceisio	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Ffurflenni cais cynllunio	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Dogfennau ategol (cynlluniau, llythyrau etc)	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Ymategion i ymgynghori	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Gohebiaeth gyffredinol	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Adroddiadau pwyllgor	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Adroddiadau dirprwyedig	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Rhyddhau amodau	Ydy	[]	Nac ydy	[]
Cytundebau Cyfreithiol	Ydy	[]	Nac ydy	[]

Arall (rhowch y manylion) _____

B10 Os nad yw unrhyw rai o'r mathau uchod o wybodaeth ar gael ar-lein ar hyn o bryd beth yw'r rhesymau dros hyn?

C. **Y Broses Benderfynu**

C1 Beth yw ymagwedd gyffredinol y Cyngor at y broses o benderfynu ceisiadau cynllunio? Ydy hon yn cael ei disgrifio/ar gael yn gyhoeddus?

C2 O ran rhoi cyngor cyn i rywun geisio, amlinellwch:

a) Sut mae hyn yn cael ei wneud neu ei gynnig?

b) Pa amser a phwysau sy'n cael ei roi i gyngor o'r fath?

c) Beth mae'r cyngor hwn yn ei drafod amlaf?

d) Sut mae hyn yn cael ei gofnodi?

e) Ydych chi'n codi tâl am roi cyngor cyn i rywun geisio?

f) Ydych chi'n credu ei bod yn briodol i awdurdodau cynllunio godi tâl am gyngor cyn cais?

C3 Sut mae'r Cyngor yn delio â'r cwestiwn a oes angen caniatâd cnyllunio neu beidio (naill ai yn achos cynigion datblygu neu amheuan bod rheolau wedi cael eu torri)?

a) drwy ystyriaeth yn fewnol neu'n allanol gan swyddog (disgrifiwch)

b) drwy dystysgrif "cyfreithlondeb" (disgrifiwch pryd fydd hyn yn digwydd fel arfer)

c) drwy ddull arall (disgrifiwch)

C4 Oes gan y Cyngor brotocolau ar fân newidiadau neu newidiadau anfaterol i gynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo neu sydd ar y gweill na fyddant yn sbarduno'r angen am geisiadau cynllunio?

Oes [] Nac oes []

Os oes, oes modd i chi eu crynhoi neu roi manylion.

C5 Sut mae'r awdurdod yn ymdrin â cheisio, dilysu a chofrestru? Ydy'n defnyddio ac yn hysbysebu rhestr leol o ofynion (a sut mae hyn yn amrywio rhwng mathau o gais neu raddfa'r cynnig)?

C6 Pa gyfran o geisiadau sy'n cael ei dychwelyd i geiswyr heb gael eu cofrestru? Rhowch y rhesymau/amgylchiadau mwyaf cyffredin pam y bydd hyn yn digwydd.

C7 Erbyn pryd/pryd mae'r Cyngor yn anelu at anfon llythyrau at yr ymgynghoreion statudol a gofyn am ymateb. Pa lefel o wybodaeth sy'n cael ei hanfon neu sydd ar gael am y cais?

C8 Sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod grwpiau anstatudol, gan gynnwys cymunedau ac unigolion lleol, yn cael gwybod am geisiadau a fyd dyn effeithio arnynt?

Ydy'r Cyngor fel arfer yn ceisio bodloni'r isafswm gofynion neu a yw'n anelu at fynd tu hwnt i'r rhain?

C9 Sut mae sylwadau gan grwpiau ac unigolion yn cael eu hannog (a pha gyngor sy'n cael ei roi i ddarpar ymatebwyr am sut i ymateb ac am beth)?

C10 Beth sy'n sbarduno ymgynghori cyhoeddus mwy ffurfiol (sy'n cael ei drefnu gan Cyngor) a sut mae hyn yn cael ei reoli a'i adrodd?

C11 Oes gan y Cyngor unrhyw weithdrefnau arbennig i nodi a rhoi cyhoedduswydd i bethau sy'n gwro o'r cynllun datblygu (neu unrhyw fath arall o gais)?

C12 Oes gan y Cyngor a/neu ydy'n defnyddio rhestr o'r hyn sydd yn ei farn ef yn brif ystyriaethau materol mewn penderfyniadau cynllunio. Pa arferion, cynlluniau neu strategaethau / mentrau sy'n llywio'r rhestr yma?

Oes [] Nac oes []

Os Oes i'r uchod, rhwch fanylion cryno.

Darperwch restr leol neu weithiol y Cyngor os ydy ar gael (y bwriad yma yw adeiladu sylfaen gyfeirio o'r ystyriaethau materol s'n gallu dylanwadu ar ganlyniad cais).

C13 Sut mae'r Cyngor yn cydbwyso sylwadau neu agendâu (mewnol ac allanol) gwahanol neu wrthdrawiadol? Sut mae hyn yn cael ei gofnodi ac oes yna broses gyflafareddu/datrys fewnol (ffurfiol neu anffurfiol)? Pa mor agored ydy'r broses hon?

C14 Ydy'r Cyngor yn cynnwys y ceisydd mewn penderfniadau am gwmpas a chynnwys amodau cynllunio?

Ydy [] Nac ydy []

C15 Beth yw polisi'r Cyngor ar rwymedigaethau cynllunio? Ydy hyn wedi newid yn ddiweddar?

C16 Fel amcangyfrif, pa gyfran o amser swyddogion sy'n cael ei dreulio yn rhyddhau amodau cynllunio?
_____%

C17 Fel amcangyfrif, pa gyfran o amser swyddogion sy'n cael ei dreulio ar gytundebau cyfreithiol, yn dilyn y penderfyniad i roi caniatâd?
_____%

C18 **Pwyllgor Cynllunio**

C18.1 Beth sy'n sbarduno'r angen i gais gael ei gwranddo yn y pwyllgor?

C18.2 Sut mae'r pwyllgor cynllunio yn cael ei drefnu? Mae'r cwestiynau sy'n dilyn yn dangos y materion yr hoffem i chi eu trafod.

i) Faint o aelodau sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor cynllunio?

ii) Beth yw amseru a rheoleidd-dra cyfarfodydd

iii) Pryd a pham mae ymweliadau safle yn cael eu cynnal

iv) Pa wybodaeth syd ar gael o flaen pwyllgor (a pha mor gynnar ymlanellaw ac ar ba ffurf)

v) Ydy sesiynau briffio cyn y pwyllgor ac cael eu cynnal ac os felly pwy sy'n eu mynychu

vi) pwy sy'n cyflwyno'r adroddiad i'r pwyllgor (swyddogion achos, pennaeth DC/M etc)

vii) pa dechnoleg sy'n cael ei defnyddio yn y Pwyllgor

C18.3 Oes cyfleoedd hyfforddiant ar gael i aelodau'r pwyllgor cynllunio? Rhowch fanylion isod.

C18.4 Sut mae trafodaeth gyhoeddus neu siarad mewn pwyllgor yn cael ei drefnu?

C18.5 Oes darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor arbennig neu aryfwng (ac ar ba sail)?


D. **Mesur llwyddiant a pherfformiad¹**

D1 Pa amcanion perfformiad a/neu weithredol sy'n cael eu pennu gan yr awdurdod ar gyfer ei swyddogaeth ceisiadau cynllunio?


D2 Sut mae perfformiad yn mesur yn erbyn yr amcanion hyn? Os ydy hyn yn cael ei gofnodi darperwch yr adroddiad diwethaf/diweddaraf?

¹ Mae amcanion perfformiad yn debygol o fod yn seiliedig ar rifau neu amser yn fras, er nid yn unig. Mae amcanion gweithredol yn debygol o fod yn llai "gwyddonol" gan adlewyrchu amcanion ehangach y Cyngor – er enghraifft nifer yr anheddau neu ofod cyflogaeth sy'n cael ei gymeradwyo, ailgylchu tir a ddatblygwyd o'r blaen, amddiffyn gofod, adeiladau neu nodweddion neu gymeradwyo neu weithredu cynllun neu fenter benodol.

D3 Os ydy amcanion yn cael eu pennu, sut mae'r rhain yn cael eu llywio a'u hadolygu?



D4 Pa mor bwysig ydy amserlenni fel mesur o berfformiad llwyddiannus i'r awdurdod?



D5 Sut mae eich awdurdod yn mesur ansawdd y gwasanaeth rheoli datblygiad a ddarperwch?



D6 Ydy'r awdurdod yn cofnodi faint o weithiau y bydd y pwyllgor yn dilyn neu'n gwro o argymhellion swyddogion? Os felly, rhowch y manylion?

D7 Oes gan eich awdurdod gyfnod pwylo o ran penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn erbyn argymhelliad swyddogion cynllunio? Ydych chi'n credu y gallai fod yn fuddiol sefydlu system o'r fath?

D8 Yn ystod y flwyddyn/cyfnod diwethaf a gofnodwyd pa nifer a pha gyfran o ymatebion i ymgynghori sy'n cael eu rhoi a'r derbyn yn brydlon, a pha mor foddhaol mae'r ymatebion?

	Nifer a roddwyd	% a gafwyd yn Brydlon	Cyfran gyffredinol o weithiau y bydd un ymateb yn foddhaol (%)
Ymgynghoreion Statudol			
Ymgynghoreion antatudol			

D9 Oes gweithdrefnau safonol i fonitro ymatebion i ymgynghori? (Disgrifiwch nhw)

D10 Yn ystod y flwyddyn/cyfnod diwethaf a gofnodwyd, faint o heriau gafodd eu gwneud i benderfyniadau'r Cyngor a beth yw eu canlyniad

	Cymeradwyo/ Cadarnhau	Gwrthod	Datrys mewn ffyrdd eraill
a) Apeliadau	[]	[]	[]
b) Heriau Cyfreithiol	[]	[]	[]
c) Galw i mewn	[]	[]	[]
d) Cwynion i'r swyddog monitro	[]	[]	[]
e) Ombwdsmon	[]	[]	[]
f) Costau	[]	[]	[]
g) Gweithdrefnau cwyno eraill	[]	[]	[]

D11 I ba raddau y mae'r ffactorau dilynol yn dylanwadu ar weithrediad y broses ceisiadau cynllunio gan y Cyngor neu gyflawniad ei amcanion (ticiwch un blwch am bob ffactor)

	Dylanwad Mawr	Mân Ddylanwad	Dim Dylanwad canfyddadwy
a) Nifer cyffredinol ceisiadau	[]	[]	[]
b) Nifer math penodol o gais (rhowch fanylion, e.e. ffermydd gwynt)	[]	[]	[]
c) Yr adnoddau proffesiynol ar gael yn rheolaidd	[]	[]	[]
d) Systemau a thechnoleg	[]	[]	[]
e) Lefel y profiad sydd ar gael	[]	[]	[]
f) Lefel yr arbenigedd sydd ar gael neu mae mynediad iddo (yn gyffredinol neu am dasgau penodol)	[]	[]	[]
g) Yr amser a gymerir i sicrhau ymatebion dibynadwy neu ddiffiniadol i ymgynghori	[]	[]	[]
h) Gweithdrefnau gorfodol	[]	[]	[]
i) Gofynion statudol	[]	[]	[]
j) Diddordeb/gwrthwynebiad y cyhoedd	[]	[]	[]
k) Cylchoedd a gofynion sifig/pwyllgor	[]	[]	[]
l) Polisi cenedlaethol	[]	[]	[]
m) Polisi ac arweiniad lleol	[]	[]	[]
n) Diddordeb gwleidyddol lleol	[]	[]	[]
o) Arall (rhowch fanylion)	[]	[]	[]

E **Gwella'r Broses**

E1 Ar raddfa 1 – 10, pa mor addas at y diben (gyda 10 yn “fwyaf addas”) ydych chi'n credu bod y broses ceisiadau cynllunio bresennol:

- a) yn genedlaethol []
b) yn lleol []

E2 Beth yn eich barn chi dylai'r blaenoriaethau fod i wella'r broses ceisiadau cynllunio?

E3 Mae Adolygiad diweddar Killian Pretty (KPR) wedi gwneud nifer o argymhellion mewn perthynas â'r system gynllunio yn Lloegr. Hoffen ni wybod i ba raddau y credwch fod prif argymhellion KPR yn berthnasol i'r system gynllunio yng Nghymru.

Isod mae'r prif benawdau o bob categori ar argymhellion a wnaed yn Adolygiad Killian Pretty yn cael eu crynhoi. Nodwch a ydych yn credu y dylai pob un fod yn flaenoriaeth uchel, yn flaenoriaeth isel neu ddim yn flaenoriaeth.

Blaenoriaeth Uchel Blaenoriaeth Isel Ddim yn Flaenoriaeth

Argymhellion i wneud y System yn Fwy Cymesur

- | | | | |
|---|---------|---------|---------|
| 1. Lleihau nifer y mân geisiadau sydd angen caniatâd cynllunio | [] | [] | [] |
| 2. Lleihau'r gofynion gwybodaeth a dilysu, yn enwedig yn achos deiliaid tai a mân ddatblygiadau | [] | [] | [] |
| 3. gwella ansawdd y cyngor sydd ar gael i ddefnyddwyr y system | [] | [] | [] |

	Blaenoriaeth Uchel	Blaenoriaeth Isel	Ddim yn Flaenoriaeth
Argymhellion i wneud y broses yn fwy effeithiol			
4. gwelliannau i drafodaethau cyn gwneud cais	[]	[]	[]
5. buddsoddi mewn gwelliannau i brosesu ceisiadau	[]	[]	[]
6 gwella'r defnydd ar amodau cynllunio	[]	[]	[]
7 mesurau i wella negodi a chytuno rhwymediagethau cynllunio	[]	[]	[]
8 dod o hyd i ffyrdd o osgoi'r angen am gais cynllunio llawn newydd i delio â newid bach ond materol i ganiatâd sy'n bodoli'n barod	[]	[]	[]
Argymhellion i wella ymgysylltu			
9 gwella cyfranogiad ymgynghoreion statudol ac anstatudol	[]	[]	[]
10 gwella ymgysylltiad aelodau etholedig a chanolbwyntio ar y ceisiadau pwysicaf	[]	[]	[]
11 ceisio gwella ymgysylltiad â'r gymuned	[]	[]	[]
12 annog defnydd ehangach ymagweddau amgen at ddatrys anghydfodau drwy gydol y broses gan gynnwys cyfryngu ffurfiol	[]	[]	[]
Argymhellion i gyflawni newidiadau mewn diwylliant			
13 gwella safon y ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno	[]	[]	[]
14 ymdrin â'r prinder sgiliau ac adnoddau mewn adrannau cynllunio	[]	[]	[]
15 disodli'r ymagwedd bresennol (a yrrir gan amserlenni) at dargedau a rhoi mesur ehangach o'r broses geisio yn ei lle	[]	[]	[]
Argymhellion i ymdrin â chymhlethdod			
16 osgoi ehangu pellach diangen amcanion polisi sydd i'w cyflawni drwy'r system gynllunio	[]	[]	[]
17 symleiddio'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol a deddfwriaeth eilaidd prosesu ceisiadau cynllunio.	[]	[]	[]

E4 Gan edrych tua'r dyfodol, beth yn eich barn chi yw'r prif faterion sy'n wynebu Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru mewn perthynas â mentrau presennol a rhai newydd gan gynnwys y Comisiwn Cynllunio Isadeiledd (IPC), Y Doll Isadeiledd Cymunedol (CIL), cyflwyno Datganiadau Dylunio a Mynediad a/neu unrhyw fentrau eraill. Rhwch eich sylwadau isod a pharhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.



Atodiad 3: Rhestr o Fynychwyr Grwpiau Ffocws a Chyflwyniadau Ysgrifenedig/Arall i'r Adolygiad

Rhestr o Fynychwyr Grwpiau Ffocws a Chyflwyniadau Ysgrifenedig/Arall i'r Adolygiad

- Cyngor Tref y Fenni
 - Cyngor Tref Abergele
 - Panel Ymgynghorol ar Safonau i'r Arolygiaeth Cynllunio
 - Cyngor Sir Ynys Môn
 - Arfon Access Group
 - Arquiva Limited
 - Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru
 - Barton Wilmore
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 - Cymdeithas Agregau Prydain
 - Ffederasiwn Eiddo Prydain
 - Dyfrffyrdd Prydain
 - CADW
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
 - Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
 - Capita Symonds
 - Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro
 - Cyngor Caerdydd
 - Ysgol Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol Prifysgol Caerdydd
 - Cyngor Sir Caerfyrddin
 - CBI Cymru
 - CDN Planning
 - Cyngor Sir Ceredigion
 - Yr Awdurdod Glo
 - Coleg Llandrillo Cymru
 - Tai Cymunedol Cymru
 - Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)
 - Cyngor Sir Conwy
-

- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
 - Cymdeithas Eryri Snowdonia Society
 - Cyngor Sir Dinbych
 - Comisiwn Dylunio Cymru (DCfW)
 - DPP
 - Dŵr Cymru – Welsh Water
 - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
 - Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
 - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
 - Ffederasiwn Busnesau Bach
 - Cyngor Sir y Fflint
 - Comisiwn Coedwigaeth Cymru
 - Gaunt Francis Architects
 - Geldards Solicitors
 - Graham King, Cynllunio Amgylcheddol
 - Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent
 - Guide Dogs for the Blind Association
 - Heddlu Gwent
 - Cyngor Gwynedd
 - Harmers
 - Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch
 - HID Chemical Industries Division
 - Ffederasiwn Adeiladwyr Tai
 - Cyngor Cymuned yr Hob
 - Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru
 - Sefydliad y Cyfarwyddwyr (Cymru)
 - Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol
 - Philip Jones Associates
 - Mr Graham King (Ymgynghorydd Cynllunio)
 - King Sturge
 - Cymdeithas y Gyfraith
 - Cyngor Cymuned Llysfaen
-

- Cyngor Tref Llŵchwr (My Tony Davies)
 - Mr John Matthews
 - Mr Jeff Martin MRTPI (Rtd)
 - Midas Group
 - Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau
 - Mr Peter Minto
 - Mobile Operators Association
 - Cyngor Tref yr Wyddgrug
 - Cyngor Sir Mynwy
 - Nathaniel Lichfield & Partners
 - Nature Access and Marine Unit
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
 - Cyngor Casnewydd
 - Newport Unlimited
 - NFU Cymru
 - Heddlu Gogledd Cymru
 - Un Llais Cymru
 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
 - Cyngor Sir Penfro
 - Persimmon
 - Cymorth Cynllunio Cymru
 - Yr Arolygiaeth Cynllunio
 - PL Planning
 - Cyngor Pontyclun
 - Powell Dobson Architects
 - Cyngor Sir Powys
 - Pritchard Bond Architects
 - Redrow Homes
 - RenewableUK
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig (RICS) Cymru
 - RPS
-

- Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru (RSAW)
 - Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar (RSPB)
 - RTPI Cymru
 - Russell Jones Architects
 - Savills
 - Parc Cenedlaethol Eryri
 - Heddlu De Cymru
 - Cyngor Cymuned Sain Tathan
 - Dinas a Sir Abertawe
 - Taylor Wimpey UK Ltd
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
 - Cymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA)
 - Theatres Trust
 - Turley Associates
 - Cyngor Bro Morgannwg
 - Waste Policy and LEQ
 - Llywodraeth Cynulliad Cymru
 - Dianne Williams (Pensaer)
 - White Young Green Planning & Design
 - Wrexham Access Group
 - 2-3 Gray's Inn Square
-

Atodiad 4: Rhestr o Astudiaethau Achos

Astudiaeth achos 1: Amazon, Fabien Way, Jersey Marine, Castell-nedd

Ym mis Chwefror 2007 cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gais cynllunio i godi canolfan ddsbarthu (Dosbarth B8) ar gyfer y manwerthwr ar-lein Amazon. Cais mawr oedd hwn a gynhwysodd warws 73,900 metr sgwâr ynghyd â gweithiau cysylltiedig, gan gynnwys adeiladu ffyrdd mynediad a phrif gylchfan mynediad. Er gwaethaf maint y cynllun, cymerodd yr ACLI dim ond 23 diwrnod i benderfynu'r cais gan roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau.

Y prif ffactor a lywiodd yr angen i brosesu'r cais mor gyflym oedd y cymhelliant o sicrhau'r manteision economaidd sylweddol i'r ardal²² y byddai cynllun Amazon yn eu creu. Yn ogystal deellir bod pwysau wedi ei roi ar yr ACLI i wneud penderfyniad cyflym gan y gallai Amazon adleoli'r ganolfan ddsbarthu arfaethedig i safle yn yr Alban os na chafwyd caniatâd cynllunio yn gyflym.

Mae'r ffocws a ddangoswyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a'r ymgynghoreion perthnasol wrth drin cais Amazon yn ganmoladwy a llwyddodd i ddenu prosiect buddsoddiad pwysig i Gymru. Fodd bynnag, mae prosesu cais cynllunio mawr mewn cyfnod mor fyr yn dod â risgiau ac mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi disgrifio gwerth penderfyniad mor gyflym fel braidd yn "lledrithiol" o ystyried nifer sylweddol yr amodau (36) yr oedd angen eu cyflawni, gan gynnwys sawl amod cyn-cychwyn.

Bydd canolbwyntio i'r cyfryw raddau ar un cais cynllunio mawr yn anochel yn cael sgil-ffaith ar gyflymder prosesu ceisiadau llai o faint. Mae'n amlwg, felly, bod cydbwysedd i'w daro rhwng yr angen i gymryd penderfyniadau cyflym o ran ceisiadau cynllunio mawr fel yr un hwn a chyfrifoldeb i roi i bob ymgeisydd y gwasanaeth maent yn ei haeddu. Hefyd rhaid i'r angen i wneud penderfyniadau cyflym gael ei gydbwyso'n ofalus â'r cymhelliant i gyflawni penderfyniadau ansawdd da. Fodd bynnag, mae prosesu cais cynllunio mor fawr â'r un hwn o fewn cyfnod mor gyflym yn dangos bod y system gynllunio yng Nghymru, lle bo'r mecanweithiau yn eu lle, yn gallu gweithredu'n gyflym ac yn benderfynol i gefnogi datblygiad economaidd a buddsoddiad o'r tu allan.

²² Roedd yr ymgeiswyr wedi addo creu rhwng 1000 a 1500 o swyddi.

Astudiaeth achos 2: Cynllun Manwerthu a Hamdden Tŷ Mawr, Llanfairpwll, Ynys Môn

Ym mis Rhagfyr 2007, cyflwynodd Ystadau Ynys Môn gais am safle siopa a hamdden newydd ger Llanfairpwll ar Ynys Môn²³. Roedd y datblygiad arfaethedig ar dir ym mherchnogaeth LICC a chynhwysai ryw 14,400 metr sgwâr o ofod llawr manwerthu cymhariaeth a 1,858 metr sgwâr o ofod llawr cyfleuster. Daeth elfen hamdden y cynigion, a gynhwysai sinema naw sgrin, lle bowlio 20-24 lôn, clwb iechyd a ffitrwydd, *crèche* a bwytai, i 9,290 metr sgwâr, tra bod y cynllun hefyd yn cynnwys 9,290 metr sgwâr o swyddfeydd a maes parcio 1,965 lle.

Leolwyd y datblygiad arfaethedig i'r gogledd-ddwyrain o Lanfair Pwllgwyngyll, mewn cefn gwlad agored ac o fewn Ardal Tirlun Arbennig a daeth i ryw 23 hectar (57 erw). Roedd y safle yn cynnwys tir amaeth yn bennaf, ond yng nghanol y safle mae ardal o wyneb caled a rwbel adeiladu, gynt yn safle cartref nyrsio a gwesty.

Er bod yr ACLI yn cydnabod nad oedd y cais yn cydymffurfio'n llawn â pholisi cynllunio cenedlaethol neu leol yn llawn o ran ei oblygiadau ar gyfer materion tirlun, manwerthu a dylunio, penderfynwyd bod manteision economaidd posibl y cynllun yn gwrthbwysu'r niwed tebygol i'r amgylchedd²⁴. Roedd y cais yn hynod ddadleuol ac roedd y trigolion lleol yn ymrannu rhwng y dymuniad i gadw cymeriad gwledig yr ardal a'r awydd i annog buddsoddiad newydd a chyfleoedd cyflogaeth. Hefyd roedd gwrthwynebiad i'r cais gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Dinas Bangor yn ogystal â datblygwyr datblygiad manwerthu cystadleuol ym Mangor.

Ystyriwyd y cais mewn cyfarfod anghyffredin y Cyngor llawn (gan eistedd fel y Pwyllgor Cynllunio) yn Rhagfyr 2008, a benderfynodd wrthod caniatâd cynllunio, yn erbyn argymhelliad swyddogion. Yna cafodd y cais ei ohirio i ganiatáu i swyddogion baratoi adroddiad yn amlinellu'r rhesymau dros wrthod. Yna cynhaliwyd cyfarfod anghyffredin pellach y Cyngor yn Ionawr 2009 lle ailystyriodd aelodau'r cais a phleidleisio i roi caniatâd cynllunio²⁵. Manteision economaidd y cynllun, yn fwyaf nodedig creu tua 1300 o swyddi newydd, oedd y ffactor allweddol wrth berswadio aelodau i newid eu meddyliau.

Yna cafodd y cais ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru o dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar ôl iddynt gael hysbysiad ohono fel cais gwyr²⁶. Gofynnodd yr Arolygiaeth am wybodaeth bellach oddi wrth ymgeiswyr a'r ACLI am gydymffurfiaid y datblygiad â'r fframwaith polisi a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) mewn perthynas â

²³ 31C169C/TR/EIA/ECON.

²⁴ Mae gan economi Ynys Môn y Gwerth Gros Ychwanegol isaf a'r ganran uchaf o bob ddi-waith hir-dymor ymhlith unrhyw awdurdod yng Nghymru a barnwyd bod yr angen economaidd am y datblygiad yn arbennig o gryf yng ngoleuni cau safle Anglesey Aluminum yn ddiweddar a'r bygythiad y byddai atomfa Wylfa yn cau.

²⁵ Yn ddarostyngedig i amodau a llofnodi cytundeb Adran 106.

²⁶ O dan Gyfarwyddiadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu ac ymgynghori) 1992.

datblygiad yn y cefn gwlad agored, materion cynladwyedd a lleoli ac effaith datblygiadau manwerthu newydd.

Yna tynnwyd y cais cynllunio yn ôl yn dilyn cyfarfod cyn-ymholiad a fynychwyd gan yr ymgeiswyr a'r Arolygiaeth Cynllunio.

Astudiaeth achos 3: Tyrbinau Gwynt Wern Ddu, Sir Dinbych

Gwnaed dau gais cynllunio gwahanol i Gyngor Sir Dinbych, yn 2004 a 2005, i osod tyrbinau gwynt yn Fferm Wern Ddu²⁷. Roedd y ceisiadau'n debyg yn fras, o ran y lleoliad a'r diwyg arfaethedig, er bod cais 2004 am bum tyrbîn 80m o uchder a chais 2005 am bedwar tyrbîn 90m. Apeliwyd yn achos cais 2004 yn dilyn gwrthod caniatâd cynllunio, tra bod yr apêl yn achos cais 2005 yn erbyn methiant i'w benderfynu²⁸.

Gwrthodwyd y cais cyntaf ar y sail ei fod yn debygol o beri niwed sylweddol i gymeriad ac ansawdd tirlun gwledig deniadol a chyfrannu at effaith weledol gronol annerbyniol (ynghyd â datblygiadau tyrbinau gwynt eraill presennol, rhai a gynigiwyd a rhai a gymeradwywyd yn yr ardal) yn groes i bolisiâu cymeradwy'r cynlluniau datblygu²⁹ ar Ynni Adnewyddadwy, Pŵer Gwynt, yr Amgylchedd, Gofynion Rheoli Datblygiad Cyffredinol, Amddiffyn yr Amgylchedd Naturiol a datblygiad sy'n effeithio ar yr AONB. Hefyd dadleuodd yr ACLI fod y cynigion yn groes i'r arweiniad a bennir yn yr SPG perthnasol³⁰ gan ddod i'r casgliad y byddai gan y tyrbinau effaith andwyol sylweddol ar amwynder preswyl i bobl leol.

Cafodd y ddwy apêl eu hystyried ar yr un pryd o fewn yr un penderfyniad apêl a nododd yr Arolygydd effaith weledol y tyrbinau arfaethedig a'u heffaith ar amwynder deiliaid anheddau cyffiniol fel yr ystyriaethau pennaf. Mewn perthynas â'r tirlun a'r effaith weledol, derbyniodd yr Arolygydd safle'r Cyngor y byddai effaith andwyol ar y safle ei hun yn ogystal ag effeithiau arwyddocâd cymedrol ar gymeriad ardaloedd tirlun amgylchynol. Fodd bynnag, dadleuodd fod y cyfryw effeithiau bron yn anochel gyda phrosiectau ynni gwynt o'r math hwn ac fe'u rhagwelir yn TAN 8, gan ddatgan na fyddai'r cynigion yn annerbyniol o niweidiol o ran eu heffaith ar gymeriad y tirlun.

O ran effaith y cynllun ar anheddau cyffiniol roedd yr Arolygydd yn fodlon, er y byddai rhywfaint o ymyrraeth weledol, na fyddai hyn yn annerbyniol ac na fyddai'n cyfiawnhau gwrthod caniatâd. Hefyd daeth yr Arolygydd i'r casgliad y byddai ymyrraeth sŵn islaw'r hyn a fyddai'n annerbyniol a gwrthododd honiadau y byddai'r cynigion yn niweidio hydroleg yr ardal.

Daeth penderfyniad yr apêl i'r casgliad y byddai'r ceisiadau a oedd yn destun apêl yn cyfrannu at dargedau ynni adnewyddadwy'r llywodraeth ac y gellid ymdrin â llawer o'r pryderon am yr effaith drwy osod amodau. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad fod y cynigion yn gwbl gydnaws â MIPPS 01/2005 (Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy) a'i Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 cysylltiedig, y daeth y ddau ar ôl y Cynllun Datblygu Lleol ac y byddai

²⁷ Ceisiadau cynllunio rhifau 06/2004/0278/PF a 06/2004/1453/PF.

²⁸ Roedd Cyngor Sir Dinbych wedi hysbysu'r ymgeiswyr ei bod yn fwriad ganddynt wrthod y cais hwn hefyd os nad oedd yr apêl yn erbyn methiant i benderfynu wedi ei chyflwyno.

²⁹ Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 1996-2011.

³⁰ Paratowyd ar y cyd â Chyngor Conwy.

unrhyw niwed a ddeilliai o'r cynigion felly yn cael ei wrthbwysu gan y manteision. Gan hynny, daeth yr Arolygydd i'r casgliad y dylai'r ddwy apêl gael eu caniatáu.

Astudiaeth achos 4: Safle Gweithgynhyrchu Tyrbinau Gwynt, Fferm Newhouse, Cas-gwent, Sir Fynwy

Ym Mawrth 2010 rhoddodd Cyngor Sir Mynwy ganiatâd cynllunio am safle gweithgynhyrchu mawr, o fewn 8 wythnos ar ôl i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Gofynnodd y cais³¹ am ganiatâd i ailddatblygu ac estyn canolfan ddosbarthu B8/B1 bresennol wag o fewn Ystâd Ddiwydiannol Fferm Newhouse, sydd i'r de o Gas-gwent, wrth ymyl hen Bont Hafren. Câi adeilad presennol y ganolfan ddosbarthu ei estyn gan 16,400 metr sgwâr (i mewn i ardal yr oedd ganddi fantais caniatâd cynllunio yn barod am ganolfan ddosbarthu arall) i greu gweithfa newydd i weithgynhyrchu tyrau tyrbinau gwynt, tra byddai plot o dir ar wahân ar ochr arall ffordd ddosbarthu, yn cwmpasu 3.6 hectar, yn cael ei ddefnyddio i storio'r cynhyrchion gorffenedig yn yr awyr agored.

Mae'r cynllun yn cynrychioli buddsoddiad o £38 miliwn yn y sir a fydd yn creu 240 o swyddi. Gan hynny mae'n ymddangos bod y cais cynllunio wedi ei groesawu'n lleol ac er bod y Cyngor Cymuned Lleol³² yn gwrthwynebu i'r datblygiad oherwydd pryderon am y potensial am lygredd sŵn a goleuni, cefnogwyd y cais gan Aelodau Lleol o'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn ogystal â chan Gyngor Tref Cas-gwent.

Oherwydd graddfa'r cais, roedd angen amrediad o adroddiadau technegol gan gynnwys asesiad sŵn, asesiad trafndiaeth, asesiad ansawdd aer, datganiad cyfleustodau a rhag-asesiad Diwydiannol BREEAM. Fodd bynnag, er gwaethaf lefel y manylion roedd angen ei chymryd i ystyriaeth, gweithredodd yr ACLI yn gyflym a phenderfynodd fod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â'r polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, lle roedd y safle wedi ei neilltuo am ddatblygiad diwydiannol a busnes. Er bod yr Ystâd Ddiwydiannol wedi ei defnyddio at ddibenion dosbarthu B8 yn unig o'r blaen, daeth yr ACLI i'r casgliad bod y lleoliad yn gwbl addas am ddiwydiant gweithgynhyrchu oherwydd ei agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd a'r pellter o ardaloedd preswyl.

Hefyd penderfynodd yr ACLI y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion datblygiad economaidd yr UDP, gan greu 240 o swyddi newydd, y byddai dros 100 ohonynt yn rhai sgiliedig. O fewn Adroddiad y Pwyllgor amlygodd y swyddog cynllunio y manteision hyn a'u harwyddocâd yng nghydestun yr hinsawdd economaidd bresennol. Fel y cyfryw, argymhelliad y swyddog oedd i'r datblygiad arfaethedig gael ei gymeradwyo yn ddarostyngedig i amodau, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau ar sŵn a'r defnydd ar lifoleuadau allanol.

³¹ Cyfeirnod Cais DC/2010/00023

³² Cyngor Cymuned Matharn

Ar ôl gwrandio cynrychioliadau oddi wrth Gyngor Cymuned Matharn ac asiantau'r ymgeiswyr, penderfynodd y pwyllgor cynllunio gymeradwyo'r cais gan 9 pleidlais i 0, gyda 5 ymataliad.

Astudiaeth achos 5: Prosiect Cynllun Hydro Angiddy Tyndyrn, Tyndyrn, Sir Fynwy

Cyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Sir Fynwy ym mis Tachwedd 2007 yn gofyn am ganiatâd i ddatblygu cynllun pŵer hydro-electrig bach cymunedol ar afon Angiddy i'r gogledd o Dyndyrn³³. Roedd y datblygiad arfaethedig yn golygu gosod pibellau mewnlif a hidlau o dan ddau o fwâu Argae Beaufort presennol a byddai'n gweld dŵr yn cael ei adgyfeirio i dŷ tyrbîn lle câi trydan ei eneradu, drwy gyfrwng 1.3 cilometr o bibellau plastig tanddaearol. Yna câi'r dŵr ei ddychwelyd i'r afon drwy bibell arall. Byddai'r tŷ tyrbîn yn mesur rhyw 7m x 4m a châi ei orffen mewn carreg naturiol gyda llechi wedi eu hailgyfansoddi ar y to. Mae'r datblygwyr yn rhagweld y bydd y cynllun yn generadu tua 193 Mw o drydan y flwyddyn, a gâi ei werthu i'r Grid Cenedlaethol. Câi'r enillion a grëir (£20,000 y flwyddyn yn ôl yr amcangyfrif) eu dosbarthu o fewn y gymuned leol i'w defnyddio gan glybiau, sefydliadau a phrosiectau ynni gwyrdd.

Er bod gan y cynllun gefnogaeth eang, o fwn a'r tu allan i'r ACLI, cymerodd y cais fwy na dwy flynedd i' benderfynu, oherwydd amrediad o bryderon ynghylch cadwraeth natur a henebion. Lleolir y datblygiad arfaethedig o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) ac mae Afon Angiddy yn bwydo i mewn i Afon Gwy, a ddynodir yn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) ac yn Safle o Ddiddordeb gwyddonol Arbennig (SSSI). Yn ogystal mae Argae Beaufort wedi ei restru ar Radd II ac mae Ffwrnais Angiddy gerllaw yn Heneb Gofrestredig. Roedd angen cymryd yr holl ystyriaethau amgylcheddol a hanesyddol i ystyriaeth wrth farnu'r cais ac fel y cyfryw roedd amrediad o ymgynghorwyr allanol ynghlwm wrth werthuso'r cynigion.

Bu'n ofynnol i'r ymgeiswyr gynnal arolwg coed ac amrediad o arolygon amgylcheddol i bennu effaith y cynllun ar fflora a ffawna, pathewod, ystumod, infertebratau dyfrol a chimwch yr afon. Hefyd roedd angen Astudiaethau Archaeolegol a gynhwysodd balu tri phwll arbrofol i bennu'r effaith bosibl y datblygiad ar archaeoleg yr ardal. Arweiniodd hyn i gyd at oedi sylweddol a swm mawr o ddogfennau technegol yr oedd angen i'r ACLI eu hystyried.

Yn y pen draw rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd, a oedd wedi gwrthwynebu'r cais ar y dechrau, drwydded i echdynnu dŵr yn ogystal â thynnu'n ôl ei wrthwynebiad i'r cynllun. Cadarnhaodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd ei fod y fodlon na fyddai effeithiau andwyol ar fywyd gwyllt lleol a chafodd y cynllun ei gefnogi gan Gyfeillion y Ddaear ac Ardal Harddwch Naturiol Dyffryn Gwy. Ni chafwyd gwrthwynebiad oddi wrth Cadw nac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent ac roedd cefnogaeth hefyd gan 20 o drigolion lleol. Er bod 23 o drigolion a Chyngor Cymuned Tyndyrn yn gwrthwynebu'r cais (yr olaf ar sail pryderon am effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar lefelau dŵr yn yr ardal a'r swm bach o drydan y byddai'n ei eneradu) roedd yr ACLI wedi ei sicrhau'n ddigonol ar bob un o'r materion

³³ Cyfeirnod Cais DC/2007/01452.

allweddol i argymhell y dylai caniatâd cynllunio gael ei roi (yn ddarostyngedig i nifer o amodau). Yn dilyn ymweliad â'r safle a chynrychioliadau oddi wrth Gyngor Cymuned Tyndyrn a'r ymgeiswyr, pleidleisiodd aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio i gymeradwyo'r cais gan 13 pleidlais i 0 (gydag un ymataliad yn unig). Fodd bynnag, mae'r amser a gymerwyd i gymeradwyo'r cynllun yn dangos y gall oedi wrth brosesu ceisiadau cynllunio fod y tu hwnt i reolaeth awdurdodau cynllunio lleol yn aml.

Astudiaeth achos 6: Cartref Nyrsio St Winefrides, Pontcanna, Caerdydd

Ym mis Tachwedd 2008 cyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Caerdydd³⁴ i godi 120 o unedau preswyl a chartref nyrsio 60 gwely o fewn ardal gadwraeth. Hefyd bwriadwyd dymchwel sawl adeilad arall a chyflwynwyd cais ardal gadwraeth ar wahân i ddymchwel yr adeiladau hyn a'i ystyried ochr yn ochr â'r cais cynllunio³⁵.

Roedd safle'r cais o fewn ardal breswyl yn bennaf ac roedd wedi ei ddefnyddio o'r blaen fel ysbyty / cartref gofal, cartref preswyl ac fel lleiandy. Ym mis Hydref 2008 gwrthodwyd cais cynllunio blaenorol am 128 o fflatiau a chartref nyrsio 60 gwely³⁶ gan y barnwyd bod y datblygiad arfaethedig yn methu â chynnal cyd-destun eglwys Restredig gyffiniol, yn groes i bolisiâu'r Cyngor ar Ardaloedd Cadwraeth ac Ansawdd Dylunio ac Aesthetig, yn ogystal ag amcanion a bennir o fewn SPG y Cyngor³⁷. Hefyd barnwyd bod y cynnig yn groes i Bolisi Cynllunio Cymru, Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio. Gwrthodwyd Caniatâd Ardal gadwraeth ar yr un pryd.

Roedd angen i'r cynllunwyr ystyried amrediad o faterion mewn perthynas â'r cais diwygiedig gan gynnwys parcio, effaith y cynllun ar dagfeydd traffig, materion dylunio, yr effaith ar yr ardal gadwraeth ac adeilad presennol yr hen ysbyty, derbynioldeb y dyluniad mewn perthynas ag amwynder preswyl cymdogion, tirlunio a cholled coed, a fyddai golwg a phreifatrwydd digonol i ddeiliaid y cartref preswyl yn y dyfodol (a ddarparai ar gyfer pob oeddrannus ac eiddil yn feddylol) yn dderbyniol wrth ymyl fflatiau.

Roedd y cais yn nodedig am faint y cynrychioliadau a wnaed gan grwpiau diddordeb, gwleidyddion a'r cyhoedd. Gwrthwynebwyd y cynllun gan y grŵp cadwraeth lleol a grŵp gweithredu lleol (RADICAL), a gyflwynodd ddeiseb wedi ei llofnodi gan 1336 o bobl. Fodd bynnag, cefnogwyd y cais gan ail grŵp gweithredu (CRAG). Yn ogystal gwrthwynebodd Chris Franks AC, Andrew Davies AC a phedwar Cynghorydd y datblygiad, tra bod Rhodri Morgan AC, Glenys Kinnock ASE ac Eluned Morgan ASE i gyd yn ysgrifennu i danlinellu cynrychioliadau roeddent hwy wedi eu derbyn oddi wrth RADICAL a CRAG. Ysgrifennodd Kevin Brennan AS i amlygu pryderon RADICAL a rhai etholwr iddo yr oedd ei dŷ wrth ymyl y datblygiad arfaethedig gan ofyn i'w gwrthwynebiadau gael eu hystyried gan y pwyllgor cynllunio. Fodd bynnag, ysgrifennodd grŵp o drigolion o blaid y cynigion hefyd gan ddadlau eu bod yn cynrychioli gwellant sylweddol ar y cynllun blaenorol a wrthodwyd.

Roedd angen i'r ACLI gymryd i ystyriaeth amrediad o faterion cymhleth wrth ystyried y cais. Mae adroddiad y Pwyllgor yn estyn i ryw 48 o dudalennau gan

³⁴ Cyfeirnod Cais 08/02527/W.

³⁵ Cyfeirnod Cais 08/2528/W.

³⁶ Cyfeirnod Cais 08/0825/W.

³⁷ The Residential Design Guide

ystyried yr holl faterion a godwyd gan yr amrywiol grwpiau gweithredu, gwleidyddion ac unigolion a gyflwynodd gynrychioliadau. Argymhelliad y swyddogion oedd y dylai caniatâd gael ei roi yn ddarostyngedig i 27 amod a llofnodi Cytundeb Adran 106. Cymeradwywyd y cynllun yn y Pwyllgor Cynllunio.

Astudiaeth achos 7: Cyfleuster Trin Gwastraff ac Ailgylchu, Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint

Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd amrediad o dechnolegau newydd yn dod i'r amlwg ar gyfer prosesu a thrin gwastraff. O ganlyniad mae cyfres o geisiadau cynllunio am gyfleusterau prosesu gwastraff o wahanol fathau wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru. Mae llawer o'r ceisiadau hyn wedi bod yn hynod ddadleuol, yn bennaf oherwydd pryderon mewn perthynas ag effaith y cyfryw gynlluniau ar iechyd y cyhoedd a chymunedau lleol. Fodd bynnag, mae cais cynllunio diweddar am gyfleuster trin gwastraff yn Sir y Fflint, a gymeradwywyd o fewn cyfnod rhesymol a chyda chymharol ychydig o ymryson, yn cynnig enghraifft ddefnyddiol o werth trafodaethau cyn-ymgeisio ystyrlon wrth helpu i ragweld ac osgoi problemau.

Yng Ngorffennaf 2008 cafodd Cyngor Sir y Fflint gais cynllunio llawn, am gyfleuster trin gwastraff³⁸, i'w leoli o fewn adeilad presennol (a weithredwyd gynt fel sied byrnu dur gan Corus) gydag estyniad a gweithfeydd allanol. Byddai'r cyfleuster arfaethedig yn prosesu hyd at 160,000 tonnall fetrig o wastraff cartref y flwyddyn, a fyddai'n dod o dan broses mecanyddol uwch-dechnoleg trin â gwres er mwyn cynhyrchu hyd at 32,000 tonnall fetrig o ddeunydd i'w ailgylchu. Câi 64,000 tonnall fetrig o ddefnydd ei drosi'n ffloc tanwydd ffibr neu belenni i'w gwerthu ar y farchnad agored fel tanwydd borthiant diwydiannol, tra byddai 24,000 tonnall fetrig o wastraff gweddilliol yn mynd naill i i dirlenwi neu am driniaeth yn rhywle arall.

Er gwaethaf maint a chymhlethdod y cais cynllunio, cafodd ei gymeradwyo, yn ddarostyngedig i amodau, yn Nhachwedd 2008 - llai na 5 mis ar ôl ei gyflwyno'n gyntaf. Mewn sawl ffordd mai'n ymddangos i lwyddiant a chyflymder cymharol prosesu'r cais fod yn ganlyniad trafodaethau cyn-ymgeisio trwyadl a gynhaliwyd rhwng yr ACLI a'r ymgeiswyr. Roedd y trafodaethau hyn wedi canolbwyntio ar faterion allweddol mewn perthynas â'r cais, yn fwyaf arwyddocaol yr angen i ddod o hyd i'r safle mwyaf priodol ar gyfer y math o ddatblygiad a gynigiwyd (h.y. safle tir llwyd sylweddol mewn ardal ddiwydiannol bresennol), a fyddai'n cyd-fynd â'r polisi cynllunio ac yn lleihau effaith y datblygiad. Mae llwyddiant y deialog cyn-ymgeisio i'w weld yn y ffaith na chafwyd unrhyw wrthwynebiadau gan unrhyw un o'r ymgynghoreion, yn rhai mewnol nac allanol. Hefyd nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad oddi wrth Gynghorau Cymuned Lleol na chynghorwyr ward ac yn dilyn ymweliad â'r safle cymeradwywyd y cais gan y pwyllgor cynllunio.

³⁸ Cyfeirnod Cais 054230.

Atodiad 5: Rhestr o Gynghorion Ymarferol

- **Cyngor Ymarferol 1:** Y Llawlyfr Strydoedd – Menter Hyfforddiant
 - **Cyngor Ymarferol 2:** Busnes a'r System Gynllunio yng Nghymru
 - **Cyngor Ymarferol 3:** Datganiadau Dylunio a Mynediad – Tystiolaeth o Holiaduron yr ACLI
 - **Cyngor Ymarferol 4:** Arweiniad ar Ddatganiadau Dylunio a Mynediad
 - **Cyngor Ymarferol 5:** Ymgynghoriad yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol - Gofalaeth Datblygiad.
 - **Cyngor Ymarferol 6:** Fferm Wynt Maesgwyn, Glyn-nedd (Cyfeirnod Cais: P/2006/1261)
 - **Cyngor Ymarferol 7:** Gwella Ymgysylltiad gan Ymgynghoreion Statudol ac Anstatudol
 - **Cyngor Ymarferol 8:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Gwella'r Broses Busnes
 - **Cyngor Ymarferol 9:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot - Adolygiad o Wasanaethau Rheoli Datblygiad
 - **Cyngor Ymarferol 10:** Mesurau i Wella Perfformiad Pwyllgor Cynllunio – Sir y Fflint
 - **Cyngor Ymarferol 11:** Datblygiad a Ganiateir
 - **Cyngor Ymarferol 12:** Mân Ddiwygiad Church Village
 - **Cyngor Ymarferol 13:** Gweithdrefnau Cyn-ymgeisio Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg
 - **Cyngor Ymarferol 14:** Dilysu a Chofrestru Ceisiadau (Tystiolaeth Killian Pretty)
 - **Cyngor Ymarferol 15:** Dilysu a Chofrestru Ceisiadau yng Nghaerdydd
 - **Cyngor Ymarferol 16:** Hierarchaeth Datblygiadau Newydd yn yr Alban
 - **Cyngor Ymarferol 17:** E-Weithio – Y Porth Cynllunio
 - **Cyngor Ymarferol 18:** ATLAS
 - **Cyngor Ymarferol 19:** Mwynau – Rhannu Arbenigedd – Sir Gaerfyrddin
 - **Cyngor Ymarferol 20:** Amodau Arolygiaeth Cynllunio Cymru
 - **Cyngor Ymarferol 21:** Papur Ymgynghori DCLG – Gwella Defnydd Amodau (Rhagfyr 2009)
-

Atodiad 6: Rhestr o Argymhellion

- **Argymhelliad 1:** Datganiad Polisi ar Bwysigrwydd Datblygiad Economaidd
 - **Argymhelliad 2:** Gwneud y System Gynllunio yn Fwy Ymatebol i Fusnes
 - **Argymhelliad 3:** Datganiadau Dylunio a Mynediad
 - **Argymhelliad 4:** Proses Canllawiau
 - **Argymhelliad 5:** Gohirio Canllawiau Newydd ("Amnest" ar Ganllawiau)
 - **Argymhelliad 6:** Gofalaeth Datblygiad – Egwyddorion
 - **Argymhelliad 7:** Gofalaeth Datblygiad – Gwella Ymgynghori
 - **Argymhelliad 8:** Gofalaeth Datblygiad – Gwneud y Broses a'i Chyflwyniad yn fwy cyson
 - **Argymhelliad 9:** Ymagwedd at Bwyllgorau
 - **Argymhelliad 10:** Estyn Datblygiad a Ganiateir
 - **Argymhelliad 11:** Ymagwedd Ymarferol at Fân Ddiwygiadau
 - **Argymhelliad 12:** Trafodaethau Cyn-ymgeisio – Arweiniad i Arfer Gorau
 - **Argymhelliad 13:** Gofynion Dilysu
 - **Argymhelliad 14:** Cynyddu Defnydd Gwasanaethau Cynllunio Electronig
 - **Argymhelliad 15:** Rhannu Arbenigedd
 - **Argymhelliad 16:** Amodau Cynllunio
-